# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Awst 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod preifat (09:30-10:00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:00-10:05 (Tudalen 1)

**CLA(5)-23-20 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5)576 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020**

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r

10:05-10:15

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)574 – Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 2 - 20)

**CLA(5)-23-20 – Papur 2** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 3** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 4** – Memorandwm Esboniadol

**3.2 SL(5)577 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 21 - 53)

**CLA(5)-23-20 – Papur 5** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 6** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 7** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 8** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 9 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 9** – Datganiad ysgrifenedig

**3.3 SL(5)578 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 54 - 66)

**CLA(5)-23-20 – Papur 10** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 11** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 12** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 13** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 10 Gorffennaf 2020

**3.4 SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 67 - 77)

**CLA(5)-23-20 – Papur 14** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 15** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 16** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 17** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 27 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 18** – Datganiad ysgrifenedig

3.5 **SL(5)580 – Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 78 - 89)

**CLA(5)-23-20 – Papur 19** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 20** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 21** – Memorandwm Esboniadol

3.6 **SL(5)582 – Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 90 - 104)

**CLA(5)-23-20 – Papur 22** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 23** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 24** – Memorandwm Esboniadol

3.7 **SL(5)585 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 105 - 125)

**CLA(5)-23-20 – Papur 25** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 26** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 27** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 28** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 23 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 29** – Datganiad ysgrifenedig

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

3.8 **SL(5)581 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 126 - 135)

**CLA(5)-23-20 – Papur 30** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 31** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 32** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 33** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 17 Gorffennaf 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.9 SL(5)579 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 136 – 182)

**CLA(5)-23-20 – Papur 34** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 35** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 36** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 37** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 10 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 38** – Datganiad ysgrifenedig

**3.10 SL(5)584 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 183 – 196)

**CLA(5)-23-20 – Papur 39** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 40** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 41** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 42** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 17 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 43** – Datganiad ysgrifenedig

**3.11 SL(5)587 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 197 – 218)

**CLA(5)-23-20 – Papur 44** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 45** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 46** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 47** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 24 Gorffennaf

**CLA(5)-23-20 – Papur 48** – Datganiad ysgrifenedig

**3.12 SL(5)586 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 219 – 234)

**CLA(5)-23-20 – Papur 49** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 50** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-20 – Papur 51** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-20 – Papur 52** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 22 Gorffennaf 2020

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r

10:15-10:20

### 4.1 SL(5)565 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

(Tudalennau 235 – 238)

**CLA(5)-23-20 – Papur 53** – Adroddiad

**CLA(5)-23-20 – Papur 54** – Ymateb gan Lywodraeth Cymru

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10:20-10:25

### 5.1 WS-30C(5)164 – Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Dirymu) 2020

(Tudalennau 239 – 242)

**CLA(5)-23-20 – Papur 55** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-23-20 – Papur 56** – Sylwebaeth

### 5.2 WS-30C(5)165 – Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 243 – 247)

**CLA(5)-23-20 – Papur 57** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-23-20 – Papur 58** – Sylwebaeth

## 6 Papurau i'w nodi

10:25-10:30

### 6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau'r UE)

(Tudalen 248)

**CLA(5)-23-20 – Papur 59** – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 15 Gorffennaf 2020

**6.2 Llythyr gan y Gweinidog Addysg: Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020**

(Tudalennau 249 - 250)

**CLA(5)-23-20 – Papur 60** – Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 15 Gorffennaf 2020

**6.3 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020**

(Tudalennau 251 - 252)

**CLA(5)-23-20 – Papur 61** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 15 Gorffennaf 2020

**6.4 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach**

(Tudalen 253)

**CLA(5)-23-20 – Papur 62** – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 19 Gorffennaf 2020

**6.5 Llythyr gan y Prif Weinidog: Data ynghylch mynediad at gyfiawnder**

(Tudalennau 254 - 255)

**CLA(5)-23-20 – Papur 63** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 23 Gorffennaf 2020

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10:30

## 8 Trafod Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol

10:30-10:45 (Tudalennau 256 - 307)

**CLA(5)-23-20 – Papur 64** – Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 16 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 65** – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-23-20 – Papur 66** – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**CLA(5)-23-20 – Papur 67** – Papur briffio gan wasanaeth Ymchwil y Senedd ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol

**CLA(5)-23-20 – Papur 68** – Llythyr drafft at Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod nesaf

10:45-10:50

## Dyddiad y cyfarfod nesaf - 24 Awst 2020

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

Eitem 2

# 03 Awst 2020

## SL(5)576 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Caiff Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 eu gwneud o dan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998'). Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi darparu cymorth ariannol, neu'n ei wneud yn ofynnol i ddarparu cymorth o'r fath, i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach a ddynodir o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ('Rheoliadau 2017); a

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ('Rheoliadau 2018').

Mae'r diwygiadau hyn yn ymdrin â darparu cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2020 neu ar ôl y dyddiad hwn.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio darpariaeth yn Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 ynghylch adennill unrhyw ordaliad o fenthyciad ar gyfer costau byw. Nid yw'r ffordd y gall Gweinidogion Cymru adennill gordaliadau o'r fath yn ddibynnol mwyach ar fethiant myfyrwyr i ddarparu gwybodaeth neu fod myfyriwr wedi darparu gwybodaeth anghywir. Mae'r rheoliad 62 diwygiedig yn Rheoliadau 2018 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w wneud yn ofynnol i fyfyriwr ad-dalu gordaliad yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 1998.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r ddarpariaeth yn Rheoliadau 2018 sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael neu barhau i gael cymorth ar gyfer cyrsiau dysgu o bell os yw'r coronafeirws yn eu hatal rhag dechrau cwrs, neu barhau â'r cwrs hwnnw, y tu allan i Gymru neu'r Deyrnas Unedig yn eu tro.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998
**Fe'u gwnaed ar:** 08 Gorffennaf 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 09 Gorffennaf 2020
**Yn dod i rym ar:** 31 Gorffennaf 2020

Eitem 3.1

# SL(5)574 – Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Caiff Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") eu gwneud o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

O dan Gyfarwyddeb 2005/36/EU, a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gwblhau profion cymesuredd wrth reoleiddio proffesiynau. Diben y Rheoliadau hyn yw trosi i gyfraith ddomestig Cyfarwyddeb (EU) 2018/958, a sefydlodd fframwaith manwl ar gyfer cynnal profion cymesuredd o'r fath cyn cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol newydd, neu cyn diwygio darpariaethau deddfwriaethol, ynghylch rheoleiddio proffesiynau.

Bydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i nifer o broffesiynau yng Nghymru lle mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol, gan gynnwys athrawon a phenaethiaid cymwys mewn ysgol, athrawon mewn sefydliad addysg bellach, a phroffesiynau a reoleiddir gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 30 Gorffennaf yn unol â'r rheoliadau cyfatebol sydd wedi'u gwneud yn Lloegr. Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r broses weithredu, sef 31 Rhagfyr 2020 am 23.00, fel y diffinnir yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Cafodd y pwynt a ganlyn ei nodi fel pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Ceir cyfeiriadau anghywir at y ddeddfwriaeth ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. Ceir cyfeiriadau at adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn bodoli. Mewnosododd adran 25(5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ("Deddf 2020") adran 5A newydd yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"), ond nid yw adran 5A wedi dod i rym eto. Mae'r cyfeiriadau anghywir hyn yn ymddangos yn y troednodyn cyntaf ar dudalen 5, ar ail dudalen y Nodiadau Esboniadol ac ar drydydd dudalen y Memorandwm Esboniadol. O ganlyniad, dylai cyfeiriadau dilynol yn y Nodiadau Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol at "adran 2, 3 neu 4 o Ddeddf 2020" gyfeirio at Ddeddf 2018 yn lle.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r broses weithredu, sef 23.00 ar 31 Rhagfyr 2020.

## Ymateb y Llywodraeth

O gofio'r amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 696 (Cy. 154)

# ADDYSG, CYMRU

# CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE tra pery'r cyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau trosi.

O dan Gyfarwyddeb 2005/36/EU (a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 (O.S. 2015/2059)), mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gwblhau profion cymesuredd wrth reoleiddio proffesiynau.

Mae Cyfarwyddeb (EU) 2018/958 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Mehefin 2018 ("Cyfarwyddeb 2018") yn mynd ymhellach ac yn sefydlu fframwaith manwl ar gyfer cynnal profion cymesuredd cyn cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol newydd, neu cyn diwygio darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol presennol, sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny ("darpariaeth reoleiddiol broffesiynol").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2018 ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cymru gynnal yr asesiad cymesuredd hwn. Gan nad yw rhwymedigaethau'r DU i gydymffurfio â rhwymedigaethau trosi ond yn ymestyn hyd at ddiwedd y cyfnod gweithredu, mae'r Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser a deuant i ben ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (gweler y diffiniad yn rheoliad 2).

Er bod adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020") yn darparu nad yw'r ffaith bod unrhyw beth sy'n parhau i fod yn gyfraith ddomestig, neu sy'n ffurfio rhan ohoni, ar neu ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd adrannau 2 i 4 o Ddeddf 2020 yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu sy'n gyfyngedig o ran amser drwy gyfeirio at y cyfnod gweithredu yn ei atal rhag cael effaith amhenodol ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd adrannau 2 i 4, nid oes gofyniad i'r Rheoliadau hyn gael effaith amhenodol o'r fath, ac ni fyddant felly yn parhau i gael effaith ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae rheoliad 3 yn nodi cwmpas y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r proffesiynau rheoleiddiedig a restrir ym mharagraffau (1) i (3). Mae paragraff (4) yn nodi'r cyfyngiadau ar gwmpas y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2018.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau cymesuredd ac yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni wrth wneud hynny.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar sail cenedligrwydd neu breswylfa.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd. Mae'n nodi pryd y bydd darpariaeth yn cael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd ac yn rhoi enghreifftiau o resymau a allai ffurfio rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd, fel y'u rhestrir yn Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2018.

Mae rheoliad 7 yn ymdrin â'r egwyddor cymesuredd ac yn nodi ystyriaethau y mae rhaid rhoi sylw iddynt wrth asesu cymesuredd darpariaeth reoleiddiol broffesiynol, yn ogystal â'r rheini y mae rhaid eu hystyried pan fyddant yn berthnasol i natur a chynnwys y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau cydymffurfedd â'r egwyddor cymesuredd hefyd wrth osod gofynion

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

penodol ar gyfer darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon copi o'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a'r asesiad cymesuredd sydd wedi ei gwblhau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro cymesuredd darpariaeth reoleiddiol broffesiynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 696 (Cy. 154)

# ADDYSG, CYMRU

# CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Gorffennaf 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym* | *30 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) gydag effaith o'r diwrnod ymadael (a ddiffinnir yn adran 20 o'r Ddeddf honno fel 31 Ionawr 2020 am 11pm), ond wedi ei harbed gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan adran 1A o'r Ddeddf honno (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1)). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 58B gan adrannau 20(1) ac 71(4) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), a pharagraffau 1 a 6 o Atodlen 7 iddi, ac mae'n darparu bod adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn gymwys i Weinidogion Cymru fel pe baent yn un o Weinidogion y Goron neu'n un o adrannau'r llywodraeth a ddynodwyd gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan y ddarpariaeth honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn, dod i ben a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Gorffennaf 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu(**1**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesiad cymesuredd" ("*proportionality assessment*") yw asesiad o gymesuredd darpariaeth reoleiddiol broffesiynol, a gynhelir yn unol â rheoliad 4;

mae i "cymwysterau proffesiynol" yr ystyr a roddir i "professional qualifications" gan reoliad 9(1) o Reoliadau 2015;

ystyr "darpariaeth reoleiddiol broffesiynol" ("*professional regulatory provision*") yw darpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol newydd, neu ddiwygiad i ddarpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol bresennol, sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiwn hwnnw, neu un o'r dulliau o'i ddilyn, gan gynnwys defnyddio teitlau proffesiynol a'r gweithgareddau proffesiynol a ganiateir o dan deitl o'r fath;

mae i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yr ystyr a roddir i "IP completion day" yn adran 39(1) i (5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**2**);

mae i "proffesiwn rheoleiddiedig" yr ystyr a roddir i "regulated profession" gan reoliad 8(1) o Reoliadau 2015;

ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**3**).

**Cwmpas**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r proffesiynau a ganlyn—

---

(**1**) Bydd y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu er gwaethaf adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

(**2**) 2020 p. 1.

(**3**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan baragraff 389 o Atodlen 19 i Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12), O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, 2018/166, 2018/838 a 2018/1101.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig (o fewn yr ystyr a roddir i "qualified teacher" gan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002(**1**)) mewn ysgol (fel y'i diffinnir yn adran 14(6) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**2**)) yng Nghymru;

(b) pennaeth (o fewn yr ystyr a roddir i "head teacher" gan adran 135 o Ddeddf Addysg 2002) mewn ysgol (fel y'i diffinnir yn adran 14(6) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014) yng Nghymru.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i broffesiwn athro neu athrawes mewn sefydliad addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir i "further education institution" gan adran 140 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw broffesiwn a reoleiddir o dan Ran 4 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**3**).

(4) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

(a) unrhyw broffesiwn y mae trefniadau penodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chydnabod cymwysterau proffesiynol wedi eu gwneud mewn perthynas ag ef yn unrhyw Reoliad gan yr UE, unrhyw Gyfarwyddeb gan yr UE, unrhyw benderfyniad gan yr UE neu unrhyw ddeddfwriaeth drydyddol gan yr UE ac mae effaith y trefniadau hynny yn eithrio cymhwyso Cyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol(**4**);

(b) darpariaeth reoleiddiol broffesiynol i'r graddau y mae'n gweithredu deddfwriaeth yr UE ynghylch rheoleiddio proffesiwn, pan na fo dewis o ran yr union ffordd y mae'r gofynion hynny i'w trosi.

**Gofyniad i gynnal asesiad cymesuredd**

**4.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal asesiad cymesuredd mewn cysylltiad â darpariaeth reoleiddiol broffesiynol cyn i'r ddarpariaeth gymryd effaith.

(2) Wrth gynnal asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn cydymffurfio â phob un o'r gofynion a nodir yn rheoliadau 5 i 8,

(**1**) 2002 p. 32.
(**2**) 2014 dccc 5.
(**3**) 2016 dccc 2.
(**4**) OJ Rhif L 255, 30.9.2005, t. 22, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 132).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) bod rhychwant yr asesiad yn gymesur â natur, cynnwys ac effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol,

(c) bod y rhesymau dros ystyried bod y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn gyfiawn ac yn gymesur wedi eu cadarnhau gan elfennau ansoddol a, phan fo'n bosibl ac yn berthnasol, gan elfennau meintiol, a

(d) bod yr asesiad yn cael ei gynnal mewn modd gwrthrychol ac annibynnol.

**Peidio â gwahaniaethu**

**5.** Ni chaiff darpariaeth reoleiddiol broffesiynol wahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn gwladolion un o Aelod-wladwriaethau'r UE(**1**) ar sail cenedligrwydd neu breswylfa.

**Cyfiawnhad gan amcanion budd y cyhoedd**

**6.**—(1) Rhaid i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd.

(2) Mae darpariaeth reoleiddiol broffesiynol wedi ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd os yw wedi ei chyfiawnhau'n wrthrychol ar sail polisi cyhoeddus, diogeledd y cyhoedd neu iechyd y cyhoedd, neu gan resymau tra phwysig er budd y cyhoedd.

(3) Mae rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cynnal cydbwysedd ariannol y system nawdd cymdeithasol;

(b) diogelu defnyddwyr, derbynyddion gwasanaethau a gweithwyr;

(c) diogelu bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol;

(d) sicrhau tegwch o ran trafodiadau masnach;

(e) brwydro yn erbyn twyll ac atal efadu trethi ac osgoi trethi, a diogelu effeithiolrwydd goruchwyliaeth gyllidol;

(f) diogelwch trafnidiaeth;

(g) diogelu'r amgylchedd a'r amgylchedd trefol;

(h) iechyd anifeiliaid;

(i) diogelu eiddo deallusol;

(j) amddiffyn y dreftadaeth hanesyddol a chelfyddydol genedlaethol a'i chadwraeth;

(**1**) Nid yw Cyfarwyddeb (EU) 2018/958 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Mehefin 2018 wedi ei mabwysiadu gan wladwriaethau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) yr AEE (Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ) na'r Swistir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(k) amcanion polisi cymdeithasol;

(l) amcanion polisi diwylliannol.

(4) Nid yw rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd yn cynnwys seiliau o natur economaidd yn unig neu resymau gweinyddol yn unig.

**Cymesuredd**

**7.**—(1) Rhaid i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol fod yn addas ar gyfer cyflawni'r amcan a geisir ac ni chaiff fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Wrth gynnal asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y canlynol—

(a) natur y risgiau sy'n ymwneud â'r amcanion budd y cyhoedd a geisir, yn benodol y risgiau i dderbynyddion y gwasanaeth (gan gynnwys defnyddwyr), proffesiynolion neu drydydd partïon;

(b) a yw'r rheolau presennol o natur benodol neu fwy cyffredinol, megis y rheini sydd wedi eu cynnwys yng nghyfraith diogelwch cynhyrchion neu gyfraith diogelu defnyddwyr, yn annigonol i gyflawni'r amcan a geisir;

(c) addasrwydd y ddarpariaeth o ran pa mor briodol ydyw i gyflawni'r amcan a geisir ac a yw'n adlewyrchu'n wirioneddol yr amcan hwnnw mewn modd cyson a systematig ac yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodir mewn ffordd debyg i weithgareddau cymaradwy;

(d) effaith y ddarpariaeth ar—

(i) symudiad rhydd personau a gwasanaethau o fewn yr Undeb Ewropeaidd,

(ii) dewis defnyddwyr, a

(iii) ansawdd y gwasanaeth a ddarperir;

(e) y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau llai cyfyngol i gyflawni'r amcan budd y cyhoedd, gan gynnwys, yn benodol, a ellir cyflawni'r amcan drwy ddulliau sy'n llai cyfyngol na neilltuo gweithgareddau—

(i) pan fo diogelu defnyddwyr yn unig yn cyfiawnhau'r darpariaethau;

(ii) pan fo'r risgiau a nodir yn gyfyngedig i'r berthynas rhwng y proffesiynolyn a'r defnyddiwr ac felly na fônt yn effeithio ar drydydd partïon yn negyddol;

(f) effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, pan yw wedi ei chyfuno â darpariaethau eraill sy'n cyfyngu ar fynediad i'r proffesiwn neu ei ddilyn, ac yn benodol sut y mae'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, ar y cyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â gofynion eraill, yn cyfrannu at gyflawni'r un amcan budd y cyhoedd ac a ydynt yn angenrheidiol er mwyn ei gyflawni.

(3) Wrth roi sylw i'r ystyriaeth a nodir ym mharagraff (2)(f), rhaid i Weinidogion Cymru asesu effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol pan yw wedi ei chyfuno ag un neu ragor o ofynion, gan gynnwys yn benodol—

(a) gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo, teitlau proffesiynol gwarchodedig neu unrhyw ffurf arall ar reoleiddio proffesiwn rheoleiddiedig;

(b) rhwymedigaethau i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus;

(c) rheolau sy'n ymwneud â threfniadaeth y proffesiwn, moeseg broffesiynol a goruchwyliaeth;

(d) aelodaeth orfodol o sefydliad neu gorff proffesiynol, cynlluniau cofrestru neu awdurdodi, yn benodol pan fo'r gofynion hynny yn awgrymu meddu ar gymhwyster proffesiynol penodol;

(e) cyfyngiadau meintiol, yn benodol gofynion sy'n cyfyngu ar nifer yr awdurdodiadau i ymarfer, neu sy'n pennu isafswm neu uchafswm nifer y cyflogeion, rheolwyr neu gynrychiolwyr sy'n dal cymwysterau proffesiynol penodol;

(f) gofynion penodol o ran ffurf gyfreithiol neu ofynion sy'n ymwneud â chyfranddalwyr neu reolwyr cwmni, i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag arfer y proffesiwn rheoleiddiedig;

(g) cyfyngiadau tiriogaethol, gan gynnwys pan fo'r proffesiwn yn cael ei reoleiddio mewn rhannau o'r Deyrnas Unedig mewn modd sy'n wahanol i'r ffordd y mae'n cael ei reoleiddio mewn rhannau eraill;

(h) gofynion sy'n cyfyngu ar arfer proffesiwn rheoleiddiedig ar y cyd neu mewn partneriaeth, yn ogystal â rheolau anghydnawsedd;

(i) gofynion ynghylch sicrwydd yswiriant neu ddulliau eraill o ddiogelu personol neu dorfol o ran atebolrwydd proffesiynol;

(j) gofynion o ran gwybodaeth o ieithoedd, i'r graddau y maent yn angenrheidiol i ymarfer y proffesiwn;

(k) gofynion o ran isafswm tariff penodedig a/neu uchafswm tariff penodedig;

(l) gofynion o ran hysbysebu.

(4) Pan fo'n berthnasol i natur a chynnwys y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) y cysylltiad rhwng cwmpas y gweithgareddau y mae proffesiwn yn eu cynnwys neu sydd wedi eu neilltuo iddo a'r cymhwyster proffesiynol sy'n ofynnol,

(b) y cysylltiad rhwng cymhlethdod y tasgau o dan sylw a'r angen i'r rheini sy'n ymgymryd â hwy feddu ar gymwysterau proffesiynol penodol, yn arbennig o ran lefel, natur a hyd yr hyfforddiant neu'r profiad sy'n ofynnol,

(c) y posibilrwydd o gael y cymhwyster proffesiynol drwy lwybrau eraill,

(d) pa un a all y gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo i broffesiynau penodol gael eu rhannu â phroffesiynau eraill ai peidio, a pham,

(e) graddau'r ymreolaeth wrth arfer proffesiwn rheoleiddiedig ac effaith trefniadau gweithdrefnol a goruchwyliaeth ar gyflawni'r amcan a geisir, yn benodol pan fo'r gweithgareddau sy'n ymwneud â phroffesiwn rheoleiddiedig yn cael eu dilyn o dan reolaeth a chyfrifoldeb proffesiynolyn sydd wedi ei gymhwyso'n briodol, ac

(f) y datblygiadau gwyddonol a technolegol a all leihau neu gynyddu'n effeithiol anghydffurfedd gwybodaeth rhwng proffesiynolion a defnyddwyr.

(5) Pan fo darpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn ymwneud â rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd ac y mae iddi oblygiadau diogelwch i gleifion, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr amcan o sicrhau lefel uchel o ddiogelu iechyd dynol wrth gynnal asesiad cymesuredd o'r ddarpariaeth.

(6) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "teitl proffesiynol gwarchodedig" yw ffurf ar reoleiddio proffesiwn pan fo defnyddio'r teitl mewn gweithgaredd proffesiynol neu grŵp o weithgareddau proffesiynol yn ddarostyngedig, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhinwedd darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol i feddu ar gymhwyster proffesiynol penodol, a phan fo defnyddio'r teitl hwnnw yn amhriodol yn ddarostyngedig i sancsiynau;

(b) ystyr "gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo" yw ffurf ar reoleiddio proffesiwn pan fo'r mynediad i weithgaredd proffesiynol neu grŵp o weithgareddau proffesiynol wedi ei neilltuo, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhinwedd darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol i aelodau o broffesiwn rheoleiddiedig sy'n dal cymhwyster proffesiynol penodol, gan

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gynnwys pan fo'r gweithgaredd yn cael ei rannu â phroffesiynau rheoleiddiedig eraill.

**Darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol**

**8.**—(1) Cyn i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gymryd effaith, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau cydymffurfedd â'r egwyddor cymesuredd ar gyfer unrhyw ofyniad penodol yn y ddarpariaeth honno sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol, a ddarperir o dan Ran 2 o Reoliadau 2015, gan gynnwys—

(a) cofrestru dros dro awtomatig â sefydliad neu gorff proffesiynol neu aelodaeth pro forma ohono, yn unol â rheoliad 14(2) o Reoliadau 2015;

(b) datganiad sydd i'w wneud ymlaen llaw yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau 2015, dogfennau sydd i fod yn ofynnol yn unol â rheoliad 16 o Reoliadau 2015, neu unrhyw ofyniad cyfatebol arall;

(c) talu ffi, neu unrhyw daliadau, sy'n ofynnol am y gweithdrefnau gweinyddol, sy'n ymwneud â mynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu â dilyn y proffesiynau hynny, y mae'r darparwr gwasanaeth yn mynd iddynt.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i fesurau sydd wedi eu cynllunio i sicrhau cydymffurfedd â thelerau ac amodau cyflogaeth cymwys a gymhwysir yn unol â chyfraith yr UE.

**Gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori**

**9.**—(1) Cyn i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig gymryd effaith, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) drwy ddulliau priodol, roi gwybodaeth am ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig ar gael i'r cyhoedd, derbynyddion y gwasanaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn aelodau o'r proffesiwn o dan sylw;

(b) ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ac unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol ddod gydag esboniad sy'n ddigon manwl i'w gwneud yn bosibl asesu cymesuredd y ddarpariaeth.

**Adrodd**

**10.**—(1) Ar ôl cwblhau asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru anfon yr wybodaeth a restrir ym mharagraff (2) i'r Comisiwn Ewropeaidd a'i chofnodi

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yn y gronfa ddata o broffesiynau rheoleiddiedig y cyfeirir ati yn Erthygl 59(1) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol(**1**).

(2) Yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (1) yw—

(a) copi o'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, a

(b) y rhesymau dros ystyried bod y ddarpariaeth yn gyfiawn ac yn gymesur.

**Monitro darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol**

**11.** Ar ôl i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gymryd effaith, rhaid i Weinidogion Cymru fonitro cydymffurfedd y ddarpariaeth â'r egwyddor cymesuredd, gan roi sylw dyledus i unrhyw ddatblygiadau sydd wedi digwydd ers iddi gymryd effaith.

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o weinidogion Cymru
7 Gorffennaf 2020

(**1**) OJ Rhif L 255, 30.9.2005, t. 22, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 132).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

8 Gorffennaf 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020 ("yr offeryn hwn") yn trosi i'r gyfraith ddomestig Cyfarwyddeb (EU) 2018/958, sy'n ymwneud â'r gofyniad i gynnal prawf cymesuredd cyn mabwysiadu neu ddiwygio darpariaethau mewn perthynas â rheoleiddio proffesiynau (y "Gyfarwyddeb").

O dan Gyfarwyddeb 2005/36/EU (a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 (O.S. 2015/2059)), mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gwblhau profion cymesuredd wrth reoleiddio proffesiynau. Mae'r Gyfarwyddeb yn mynd ymhellach ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer cynnal profion cymesuredd cyn cyflwyno neu ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny ("darpariaeth reoleiddiol broffesiynol").

Diben y Gyfarwyddeb yw darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer cynnal profion cymesuredd, gyda golwg ar sicrhau bod y farchnad fewnol yn gweithredu'n briodol gan warantu tryloywder a diogelwch lefel uchel i ddefnyddwyr.

Mae'r offeryn yn gymwys i broffesiynau penodol yng Nghymru lle mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol, sef:

- Athrawon ysgol sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru;
- Athrawon mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru;
- Gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru;
- Rheolwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru; a
- Gweithwyr gofal cymdeithasol rheoleiddedig eraill yng Nghymru.

O ran y cytundeb ymadael, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE drwy gydol y cyfnod gweithredu. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau trosi. Gwneir yr offeryn hwn, felly, er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hynny.

Gan fod y rhwymedigaeth i gydymffurfio â rhwymedigaethau trosi ond yn ymestyn tan ddiwedd y cyfnod gweithredu, mae'r offeryn hwn yn cynnwys mecanwaith sy'n cyfyngu ar ei effaith i'r cyfnod gweithredu.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnig dewis rhwng y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol. Y weithdrefn negyddol fydd yn cael ei defnyddio yn yr achos hwn gan fod disgresiwn Gweinidogion Cymru yn gyfyngedig mewn perthynas â chynnwys yr OS am ei fod yn rhoi grym i ddarpariaethau'r UE (gweler adran 3 isod).

Gan fod rhwymedigaethau'r DU i gydymffurfio â rhwymedigaethau trosi ond yn ymestyn tan ddiwedd y cyfnod gweithredu, bydd y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (gweler y diffiniad yn rheoliad 2). Er bod adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2020 (c.1) ("Deddf 2020") yn darparu nad yw'r ffaith bod unrhyw beth sy'n parhau'n gyfraith ddomestig, neu'n llunio rhan ohoni, ar neu ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu drwy rinwedd adran 2, 3 neu 4 o Ddeddf 2020 yn cael effaith cyn y diwrnod cwblhau sydd wedi'i gyfyngu i'r cyfnod gweithredu, yn golygu na all gael effaith am gyfnod amhenodol ar neu ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu drwy rinwedd adran 2, 3 neu 4. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Rheoliadau hyn gael effaith am gyfnod amhenodol, ac felly byddant yn peidio â chael effaith ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn gymwys i Weinidogion Cymru fel petaent yn Weinidog y Goron neu'n adran y llywodraeth a ddynodir gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan y ddarpariaeth honno.

O dan adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Weinidogion Cymru hawl i wneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (fel y'i arbedwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018) yn ystod y cyfnod gweithredu i weithredu cyfraith yr UE, cyn belled â bod y darpariaethau sy'n cael eu gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae paragraff 140 o Atodlen 7A Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod rheoleiddio gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i reoleiddio'r gweithlu addysg.

Fel y nodir uchod, caniateir gwneud rheoliadau o dan adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o dan naill ai'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol. Gwneir y rheoliadau hyn o dan y weithdrefn negyddol oherwydd eu natur technegol ac nad ydynt yn gwneud dim mwy na chyflawni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o dan y cytundeb ymadael. Nid ydynt yn gwneud unrhyw newid sylweddol i bolisi nac yn cael effaith arwyddocaol ar gyflwyno polisi yn Nghymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Yn unol â'r gofynion o dan y cytundeb ymadael, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu deddfwriaeth yr UE sydd â therfyn amser ar gyfer trosi cyn diwedd y cyfnod gweithredu.

Mae'r Gyfarwyddeb yn cryfhau ac yn ymestyn y gofynion ar Aelod-wladwriaethau i asesu cymesuredd y mesurau sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny.

Mae rhwymedigaeth gyffredinol i gynnal prawf cymesuredd eisoes yn bodoli yng nghyfraith yr UE (o dan Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2005/36 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol). Fodd bynnag, nid oedd y profion hyn yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyson na thryloyw ledled yr UE. Oherwydd hynny, felly, cynigodd y Comisiwn Ewropeaidd fabwysiadu fframwaith cymesuredd. Roedd y DU yn gefnogol i'r cynnig hwn.

Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu fframwaith cyffredinol ac yn gosod meini prawf ar gyfer cynnal profion cymesuredd. Cynhelir y profion cymesuredd cyn cyflwyno neu ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny[1]. Diben yr asesiad yw sicrhau nad yw unrhyw fesurau newydd neu fesurau diwygio yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni amcanion budd y cyhoedd mewn unrhyw fesur.

Bydd asesiadau cymesuredd yn cael eu cynnal gan y corff perthnasol sy'n rheoleiddio pob proffesiwn rheoleiddiedig. Y rheswm am hyn yw mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac i asesu sut y bydd mesurau newydd neu'r mesurau diwygiedig yn effeithio ar broffesiynau.

Rhaid i fesurau arfaethedig gael eu cyfiawnhau'n wrthrychol gan un neu ragor o'r amcanion budd y cyhoedd, sef:

- Polisi cyhoeddus;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Iechyd y cyhoedd; neu
- Prif resymau er budd y cyhoedd.

Rhaid i'r cyfiawnhad dros fesur newydd neu fesur diwygiedig arfaethedig ddod o dan un o'r categorïau uchod. Ni fydd Mesur sy'n cynnwys cyfiawnhad gweinyddol neu ariannol yn unig yn bodloni'r gofyniad hwn.

Bydd asesiadau cymesuredd yn cael eu cynnal mewn ffordd agored a thryloyw a rhaid iddynt fod yn seiliedig ar resymu gwrthrychol. Y nod yw sicrhau cysondeb a thryloywder wrth gymhwyso ar draws y farchnad sengl.

Bydd y gofynion a orfodir gan y Gyfarwyddeb yn amhosibl eu cyflawni ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben, gan y byddent yn dibynnu ar fecanweithiau'r UE na fyddant yn weithredol mwyach. Felly, bydd yr offeryn hwn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

**5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith sylweddol o'r hyn sydd yn y prif welliannau technegol.

[1] Proffesiwn rheoleiddedig yw proffesiwn y mae mynediad ato, neu'r gallu i'w ddilyn, yn gyfyngedig i'r rhai hynny sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol rheoleiddedig – diffiniad yn rheoliad 8(1) o Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Mae'r rheoleiddiwr a'r awdurdod sy'n gyfrifol am weithredu'r offeryn hwn mewn perthynas ag athrawon rheoleiddiedig yng Nghymru, sef Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), wedi cael gwybod am y rhwymedigaethau yn y Gyfarwyddeb ac yn fodlon arnynt. Bydd trafodaethau â CGA yn parhau fel bo’r angen.

O ran gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru fel rheoleiddiwr a'r awdurdod sy'n gyfrifol am weithredu'r rheoliadau ar gyfer y gweithwyr hyn wedi cael gwybod am y diwygiadau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â hwy wrth i’r gwaith hwn fynd rhagddo.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i gynnal. Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ychwanegu at y fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol. O dan Gyfarwyddeb 2005/36/EU (a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau’r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 (O.S. 2015/2059)), mae eisoes yn ofynnol i Weinidogion Cymru gwblhau profion cymesuredd wrth reoleiddio proffesiynau. Yn syml, mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu fframwaith manwl ar gyfer cynnal profion cymesuredd o'r fath cyn cyflwyno neu ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol sy’n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny. Nid oes, felly, unrhyw effaith sylweddol ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol.

Byddai unrhyw gostau uniongyrchol yn gyfrifoldeb ar adrannau'r Llywodraeth a rheoleiddwyr yng Nghymru sy’n gyfrifol am gynnal profion cymesuredd. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyflwyno rhwng y dyddiad y daw’r offeryn i rym a dyddiad cwblhau’r cyfnod gweithredu. Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi i unrhyw fusnesau yng Nghymru o ganlyniad i'r offeryn hwn.

Mae’r ddeddfwriaeth yn dechnegol ei natur ac nid yw’n cael effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na’r partneriaid statudol (adrannau 72-75 o’r Ddeddf honno) a byddai’n anghymesur cynnal Asesiadau Effaith lle nad oes unrhyw newidiadau polisi’n digwydd.

# SL(5)577 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”), a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020 (“y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd”).

**Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

Mae’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy’n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Mae’r gofynion hyn yn ymwneud â gwybodaeth y mae rhaid ei darparu gan ddefnyddio ffurflen ar-lein a chyfnod ynysu gorfodol o 14 o ddiwrnodau. Mae’r gofynion hyn yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio, gan gynnwys personau sy’n teithio o’r ardal deithio gyffredin.

Mae’r Rheoliadau hyn yn estyn yr esemptiadau rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth, ac yn estyn yr esemptiadau a’r eithriadau rhag y gofyniad i ynysu.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r gofyniad i hunanynysu fel ei fod yn berthnasol i unigolion sy’n cyrraedd Cymru o wledydd nad ydynt yn esempt yn unig. Gwledydd esempt yw’r rhai yr ystyrir eu bod yn cyflwyno lefel dderbyniol o risg o safbwynt iechyd y cyhoedd i deithwyr ddod i mewn i’r DU ac sydd wedi’u rhestru yn y Rheoliadau. Mae’r rheoliadau hyn yn mewnosod Atodlen 3 newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n darparu rhestr o “wledydd a thiriogaethau esempt” (y bydd pobl sy'n teithio i Gymru wedi’u hesemptio rhag y gofynion i hunanynysu yn rheoliadau 7 ac 8).

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud nifer o newidiadau i’r Atodlenni presennol i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i wneud rhai newidiadau i’r wybodaeth am deithiwr y mae’n rhaid eu darparu. Maent hefyd yn diwygio rheoliad 3 a Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2, i wneud rhai newidiadau i’r categorïau o bersonau sydd wedi’u hesemptio rhag y gofyniad yn rheoliadau 4 a 5 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddarparu gwybodaeth am deithiwr a/neu y gofyniad yn rheoliadau 7 ac 8 o’r rheoliadau hynny i hunanynysu.

**Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

Mae’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau teithwyr awyr neu fôr masnachol sy’n cyrraedd Cymru ddarparu gwybodaeth benodol i deithwyr sy’n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae’r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy’n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i’r coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys mesurau sy’n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn i wneud newidiadau i gynnwys y datganiad ar fwrdd a wneir i deithwyr yn ystod eu taith i Gymru, fel bod y

datganiad yn gyson ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r gofyniad i weithredwyr wneud y datganiad ar lafar hefyd yn cael ei ddileu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i ddarparu y bydd y cyfnod adolygu statudol yn 28 diwrnod, yn hytrach na 21 diwrnod.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.

Gwnaed y Rheoliadau hyn am 10.20am ar 9 Gorffennaf 2020, cawsant eu gosod gerbron Senedd Cymru am 4.00pm ar 9 Gorffennaf a daethant i rym ar 10 Gorffennaf 2020. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol 21 diwrnod. Rydym yn nodi'r llythyr a anfonwyd at y Llywydd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ar 9 Gorffennaf 2020. Mae'r wybodaeth hon yn nodi:

> *Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod caniateir i'r Rheoliadau ddod i rym ar 10 Gorffennaf 2020. Oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, ystyrir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod llai yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol.*
>
> *Cafodd Rheoliadau cyfwerth eu gwneud yn Lloegr ar 6 Gorffennaf, a byddant yn dod i rym mewn camau ar 7 a 10 Gorffennaf ac mae amserlenni tebyg yn cael eu dilyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn rhan o ddull o weithredu sy'n cynnwys y pedair gwlad i osgoi lledaenu haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws yn y DU drwy unrhyw heintiau sydd wedi'u cludo i'r wlad gan deithwyr.*

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru i'r Rheoliadau yn rhoi mwy o fanylion am y dull ledled y DU i osgoi heintiau a ddygir gan deithwyr:

> *Ar 6 Gorffennaf 2020, gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd) (Lloegr) (Diwygio) 2020, gyda rhai darpariaethau'n dod i rym ar 7 Gorffennaf a rhai ar 10 Gorffennaf. Mae rheoliadau diwygiedig hefyd yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod tebyg gan ddiwygio'r gofynion cyfwerth ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull*

*gweithredu ar draws y DU i atal lledaeniad haint neu halogiad Covid-19 drwy unrhyw heintiau a ddygir i Gymru gan deithwyr.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nid yw'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn yn newid ymgysylltiad hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ychwanegu esemptiadau ychwanegol o'r gofyniad i ynysu mewn rhai achosion, ac felly mae'r cyfyngiadau ar y rhai sy'n dod i mewn i Gymru yn cael eu lleihau yn hynny o beth.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru i'r Rheoliadau yn darparu dadansoddiad o oblygiadau hawliau dynol y Rheoliadau hyn ac yn nodi fel a ganlyn:

> *…bydd erthyglau 5 (yr hawl i ryddid a diogelwch), 8 (yr hawl i fywyd preifat a theuluol) ac A1P1 (yr hawl i fwynhau meddiannaeth yn heddychlon) o bosib yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio. Mae erthygl 14 (amddiffyn rhag gwahaniaethu) hefyd yn gysylltiedig ag ymyrryd â'r hawliau eraill a nodwyd.*
>
> *Mae'r rhain oll yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch y cyhoedd neu i ddiogelu iechyd. Mae'n rhaid i'r holl gyfyngiadau a gofynion fod yn gyfiawn ar y sail eu bod yn ceisio nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn angenrheidiol ac yn gymesur.*
>
> *Mae'r newidiadau a wnaed yn sgil y Rheoliadau diwygiedig hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i sicrhau ymateb priodol i fygythiad coronafeirws â hawliau unigolion a busnesau. Mae'r diwygiadau yn ehangu'r eithriadau i'r gofynion i ynysu ac yn dileu'r gofyniad cyffredinol i ynysu gan osod gofyniad llai cyfyngol ar bersonau sy'n dod i Gymru. Y bobl hynny sy'n manteisio o'r diwygiadau hyn yw'r rhai sydd (i) mewn categori sydd wedi'i eithrio neu (ii) yn cyrraedd o wlad sydd wedi'i heithrio. Mae'r diwygiadau hyn yn parhau i fod yn ymyriad cyfiawn a chymesur ag Erthygl 8.*
>
> *Ni chredwyd bod y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr fel y'u gwnaed yn wreiddiol, yn ymyrryd ag unrhyw un o hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'r newidiadau o ganlyniad i ddiwygio'r Rheoliadau hyn yn newid y sefyllfa hon.*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn newid y cyfnod amser y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o 21 i 28 diwrnod. Yn yr un modd, mae Rheoliad 11 yn newid y cyfnod adolygu mewn perthynas â Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd o 21 i 28 diwrnod.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> *…bydd y cyfnod adolygu statudol (ar gyfer rheoliad 19 a 9 yn y drefn hon) yn 28 diwrnod yn hytrach na 21 diwrnod, gyda'r adolygiadau nesaf yn cael eu cynnal dim hwyrach na 27 Gorffennaf 2020. Defnyddir yr un dull yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a bydd newid y Rheoliadau ar gyfer Cymru yn sicrhau bod y pwynt adolygu yn gyson yn y pedair gwlad yn y DU ar gyfer y Rheoliadau hyn.*

**4. 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod hyn i'w briodoli i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen i ddatblygu ymateb iechyd cyhoeddus brys ac, o'r herwydd, yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys.

**5. 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Amlygodd adroddiad blaenorol y Pwyllgor ar y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ddau wall croesgyfeirio (mewn perthynas â rheoliad 9 a rheoliad 17 (10)). Yn ôl ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, *"Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Rheoliadau er mwyn cywiro'r croesgyfeiriadau pan fydd y cyfle cyntaf yn codi"*. Mae Rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol sydd, ymhlith materion eraill, yn cywiro'r gwallau cyfeirio hynny.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2020 Rhif 714 (Cy. 160)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor; mae'r rhain yn ymwneud â gwybodaeth y mae rhaid ei darparu gan ddefnyddio ffurflen ar lein a chyfnod ynysu mandadol o 14 o ddiwrnodau. Mae'r gofynion hyn yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio, gan gynnwys personau sy'n teithio o'r ardal deithio gyffredin.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i estyn yr esemptiadau rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth; ac i estyn yr esemptiadau a'r eithriadau rhag y gofyniad i ynysu (rheoliadau 3 i 6).

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i esemptio categorïau penodol o weithwyr – y rheini sy'n teithio'n rheolaidd ond nad ydynt fel rheol yn cyfarfod teithwyr – rhag gorfod cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ar lein.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i estyn yr esemptiad rhag y gofyniad i ynysu. Yn rhinwedd y diwygiadau hyn, ni fydd yn ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (fel y'i mewnosodir gan yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn). Mae'r diwygiadau yn cyfeirio at y gwledydd a'r tiriogaethau hyn, ynghyd â gwledydd a thiriogaethau'r ardal deithio gyffredin, fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Ond mae estyn yr esemptiad i'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol a wneir gan reoliad 7. Mae hyn yn cadw effaith y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar y ffurf yr oeddent cyn eu diwygio, mewn perthynas â phersonau a gyrhaeddodd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno yn ystod y cyfnod o ddwy wythnos cyn 10 Gorffennaf 2020 (sef y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym); dyma sy'n digwydd hyd yn oed os yw'r man o dan sylw yn wlad neu'n diriogaeth esempt o 10 Gorffennaf 2020 ymlaen.

Pan fo personau o'r fath yng Nghymru neu'n cyrraedd Cymru yn ystod y cyfnod o ddwy wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y daethant i'r ardal deithio gyffredin (sef y Deyrnas Unedig, Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw), byddant yn ddarostyngedig i'r rheolau o ran ynysu a osodir gan Ran 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel yr oedd y rheolau hynny cyn 10 Gorffennaf 2020.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 5 yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon elît penodol, ac maent wedi eu cynnwys er mwyn galluogi personau y mae'n ofynnol iddynt ynysu gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i adael y fangre y maent yn ynysu ynddi am resymau sy'n ymwneud â'r ffaith eu bod yn ymwneud â'r digwyddiadau hynny.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys diwygiadau amrywiol i Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sef yr Atodlen sy'n disgrifio categorïau o bersonau sy'n esempt rhag gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r diwygiadau hyn naill ai'n addasu categorïau sydd eisoes yn bodoli o bersonau neu'n ychwanegu categorïau newydd o bersonau i'r Atodlen.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn newid y cyfnod y mae rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o'i fewn, i gyfnod o 28 o ddiwrnodau yn hytrach na chyfnod o 21 o ddiwrnodau (rheoliad 8); ac yn gwneud mân ddiwygiadau amrywiol (rheoliad 9).

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

masnachol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar lestr neu awyren ddarparu gwybodaeth benodol i'r teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws, gan gynnwys mesurau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd gan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys mân newidiadau sy'n ymwneud â'r datganiad sydd i'w roi i deithwyr ar wasanaethau sy'n cyrraedd Cymru (rheoliad 10); a newid i estyn y cyfnod adolygu at ddibenion adolygiadau Gweinidogion Cymru o'r ddeddfwriaeth (rheoliad 11).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2020 Rhif 714 (Cy. 160)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

*Gwnaed am 10.20 a.m. ar 9 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 4.00 p.m. ar 9 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym 10 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Gorffennaf 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd" ("*the Public Health Information Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" ("*the International Travel Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

## RHAN 2

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Esemptiad rhag y gofyniad gwybodaeth i gategorïau penodol o weithwyr**

**3.**—(1) Yn Rhan 2 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth), mae rheoliad 3 wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (2), yn lle "person a ddisgrifir yn Rhan 1 o Atodlen 2" rhodder "—

(a) person a ddisgrifir yn Rhan 1 o Atodlen 2,

(b) person a ddisgrifir ym mharagraff 12(1)(b) o Atodlen 2 (gweithwyr gweithredol, cynnal a chadw a diogelwch sy'n gweithio ar Dwnnel y Sianel), neu

(c) person a ddisgrifir ym mharagraff (3), y mae'r amod ym mharagraff (4) wedi ei fodloni mewn cysylltiad ag ef."

(3) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Y disgrifiadau o bersonau yw—

(a) person sy'n weithiwr cludiant teithwyr ffyrdd, o fewn ystyr paragraff 6 o Atodlen 2;

(b) person a ddisgrifir ym mharagraff 7 o Atodlen 2 (meistri a morwyr);

(c) person a ddisgrifir ym mharagraff 8 o Atodlen 2 (peilotiaid ar longau masnach);

---

(**1**) O.S. 2020/595 (Cy. 136).
(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) person a ddisgrifir ym mharagraff 9 o Atodlen 2 (arolygwyr a syrfewyr llongau);

(e) person a ddisgrifir ym mharagraff 10 o Atodlen 2 (criw awyren);

(f) person a ddisgrifir ym mharagraff 12(1)(a) neu (c) o Atodlen 2 (gyrwyr, criw a phersonau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau hanfodol mewn cysylltiad â Thwnnel y Sianel).

(4) Mae'r amod a grybwyllir ym mharagraff (2)(c) wedi ei fodloni mewn perthynas â pherson os nad yw'r person, ar ei daith i Gymru, ond wedi teithio—

(a) ar long neu awyren nad yw'n cludo teithwyr;

(b) mewn rhan o long neu awyren nad yw teithwyr yn cael mynd iddi."

**Esemptiad rhag y gofyniad i ynysu i bersonau sy'n teithio o wledydd a thiriogaethau penodol y tu allan i'r ardal deithio gyffredin**

**4.**—(1) Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ynysu etc.) wedi ei diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Yn rheoliad 7 (gofyniad i ynysu: cyrraedd o fan y tu allan i'r Deyrnas Unedig)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin" rhodder "wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt";

(b) ym mharagraff (1)(b)(i), yn lle "Weriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw" rhodder "wlad neu diriogaeth esempt nad yw'n rhan o'r Deyrnas Unedig";

(c) ym mharagraff (1)(b)(ii), yn lle "sydd wedi cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno" rhodder "sydd wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt".

(3) Yn rheoliad 8 (gofyniad i ynysu: cyrraedd o ran arall o'r Deyrnas Unedig), ym mharagraff (1)(b), yn lle "cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno" rhodder "bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt".

(4) Yn rheoliad 9 (gofynion ynysu: esemptiadau)—

(a) mae'r testun presennol yn dod yn baragraff (2);

(b) o flaen y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(1) At ddibenion y Rhan hon, ystyr "gwlad neu diriogaeth esempt" yw—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) gwlad neu diriogaeth o fewn yr ardal deithio gyffredin;

(b) gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3;

ac mae unrhyw gyfeiriad at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" i'w ddehongli yn unol â hynny."

(5) Yn rheoliad 12 (ystyr "diwrnod olaf yr ynysu" yn Rhan 3), yn lle "y cyrhaeddodd P yn yr ardal deithio cyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno" rhodder "yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf".

(6) Yn Rhan 1 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol), yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw person sy'n cyrraedd gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt (o fewn ystyr rheoliad 9(1)) ar long neu awyren i'w drin fel pe bai wedi bod yn y man hwnnw oni bai—

(a) bod y person yn dod oddi ar y llong neu'r awyren pan fo yn y man, neu

(b) pan na fo'r person yn dod oddi ar y llong neu'r awyren pan fo yn y man, bod unrhyw deithwyr eraill yn mynd ar y llong neu'r awyren yn y man."

(7) Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwybodaeth am deithiwr), ar ôl paragraff 2(i) mewnosoder—

"(ia) unrhyw wlad neu diriogaeth arall y bydd P ynddi, neu y mae P wedi bod ynddi, yn ystod y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae P yn cyrraedd y Deyrnas Unedig, neu y mae'n bwriadu cyrraedd y Deyrnas Unedig,

(ib) pan fo is-baragraff (ia) yn gymwys, y dyddiadau yr oedd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall neu y bydd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall,".

(8) Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn ychwanegu Atodlen 3 newydd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

**Eithriadau i'r gofynion ynysu: personau sy'n ymwneud â gweithgareddau chwaraeon penodol**

**5.**—(1) Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (eithriadau i'r gofynion ynysu) wedi ei ddiwygio yn unol ag is-baragraffau (a) i (c)—

(a) ym mharagraff (3)—

(i) yn y testun Cymraeg yn unig, yn lle'r geiriau o "i'r Deyrnas Unedig" hyd y

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

diwedd rhodder "i Gymru dros dro at ddiben a awdurdodir gan baragraff (4)(b) i (k).";

(ii) yn y testun Saesneg yn unig, yn lle "(j)" rhodder "(k)";

(b) ar ôl paragraff (4)(j) mewnosoder—

"(ja) pan fo P yn cystadlu mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4 neu'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu mewn digwyddiad o'r fath, i gymryd rhan yn y digwyddiad neu i ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;

(jb) pan fo P yn gwasanaethu fel swyddog mewn digwyddiad chwaraeon o'r fath, neu'n ymwneud â'i gynnal, i fynd i'r digwyddiad neu i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu fel swyddog neu gynnal y digwyddiad;

(jc) pan fo P, yng nghwrs ei waith, yn ymwneud â darlledu digwyddiad chwaraeon o'r fath, i fynd i'r digwyddiad at ddiben y darllediad neu i ymgymryd â gweithgareddau paratoi sy'n gysylltiedig â darlledu'r digwyddiad;

(jd) pan fo P, yng nghwrs ei waith, yn ymwneud â gweithgarwch newyddiadurol mewn digwyddiad chwaraeon o'r fath, i fynd i'r digwyddiad at ddiben ymgymryd â'r gweithgarwch hwnnw;

(je) pan fo P yn athletwr elît sy'n preswylio yng Nghymru ac yn dychwelyd o gystadleuaeth elît dramor, i hyfforddi neu gystadlu;

(jf) pan fo P yn darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît sy'n preswylio yng Nghymru a bod P yn dychwelyd o gystadleuaeth elît dramor pan oedd P yn darparu hyfforddiant neu gymorth arall o'r fath i athletwr, i ddarparu'r hyfforddiant neu'r cymorth arall hwnnw;

(jg) pan fo P yn dychwelyd o gystadleuaeth elît dramor yr oedd P yn gwasanaethu fel swyddog ynddi, neu'n ymwneud â'i chynnal, i wasanaethu fel swyddog mewn cystadleuaeth elît ddomestig neu i ymwneud â'i chynnal;"

(c) ym mharagraff (8)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) yn y testun Cymraeg yn unig, mae'r testun presennol sy'n ymddangos ar ôl y geiriau "y rheoliad hwn—" yn dod yn is-baragraff (a),

(ii) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(b) ystyr "cystadleuaeth elît ddomestig" yw cystadleuaeth elît sy'n cael ei chynnal yn y Deyrnas Unedig;

(c) ystyr "cystadleuaeth elît" yw cystadleuaeth chwaraeon lle y mae unrhyw un neu ragor o'r cyfranogwyr yn cystadlu—

(i) i ennill bywoliaeth, neu

(ii) i gymhwyso ar gyfer y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd neu Gemau'r Gymanwlad, neu fel rhan o broses ddethol ar gyfer hynny;

(d) ystyr "cystadleuaeth elît dramor" yw cystadleuaeth elît sy'n cael ei chynnal y tu allan i'r Deyrnas Unedig; ac mae P i'w drin fel pe bai'n dychwelyd o'r gystadleuaeth honno os yw P, o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â diwrnod ynysu olaf P, wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt at ddibenion y gystadleuaeth honno;

(e) ystyr "athletwr elît sy'n preswylio yng Nghymru" yw person sy'n preswylio yng Nghymru fel arfer ac—

(i) yn ennill bywoliaeth o gystadlu mewn camp, neu

(ii) yn athletwr elît o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 1 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**)."

(2) Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn ychwanegu Atodlen 4 newydd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/529 (Cy. 124)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/557 (Cy. 129)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/619 (Cy. 141)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S.2020/686 (Cy. 153)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Esemptiadau i bersonau sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol**

**6.**—(1) Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt) wedi ei diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (9).

(2) Ym mharagraff 3—

(a) hepgorer y gair "neu" ar ôl is-baragraff (1)(a);

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(aa) sydd wedi teithio o wlad neu diriogaeth esempt ar lestr neu awyren a weithredir gan luoedd arfog Ei Mawrhydi, neu sy'n eu cefnogi, neu a weithredir gan lu ar ymweliad neu sy'n ei gefnogi, ac nad oes unrhyw bersonau wedi mynd ar y llestr hwnnw neu'r awyren honno, nad yw wedi docio mewn unrhyw borthladd nac wedi glanio mewn unrhyw wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu";

(c) yn is-baragraff (1)(b)—

(i) ar ôl "Wasanaeth Llyngesol Ei Mawrhydi" mewnosoder ", neu sy'n ei gefnogi, neu gan lu ar ymweliad neu i'w gefnogi";

(ii) yn lle "y tu allan i'r ardal deithio gyffredin" rhodder "mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt".

(3) Ym mharagraff 13(1)(b), hepgorer y geiriau o "ond—" hyd y diwedd.

(4) Ar ôl paragraff 17 mewnosoder—

"**17A.**—(1) Gweithiwr sy'n ymwneud â gwaith hanfodol neu waith brys sy'n gysylltiedig â rheoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol ar ran—

(a) Asiantaeth yr Amgylchedd;

(b) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(c) awdurdod llifogydd lleol arweiniol yng Nghymru;

(d) awdurdod llifogydd lleol arweiniol yn Lloegr.

(2) Yn is-baragraff (1), mae i "rheoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol" ac "awdurdod llifogydd lleol arweiniol" yr ystyron a roddir i "flood and coastal erosion risk management" a "lead local flood authority" gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**).

**17B.** Gweithiwr sy'n gwneud gwaith hanfodol neu waith brys sy'n ymwneud â gweithrediadau

(**1**) 2010 p. 29.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mwyngloddio sydd ar waith ar hyn o bryd neu a fu gynt ar waith ar ran—

(a) yr Awdurdod Glo(**1**);

(b) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(c) Cyfoeth Naturiol Cymru.”

(5) Ym mharagraff 24—

(a) yn is-baragraff (1), yn y geiriau cyn paragraff (a), yn lle “sy’n ymgymryd â’r canlynol, neu y mae’n ofynnol iddo gychwyn y canlynol” rhodder “y mae’n ofynnol iddo ymgymryd â’r canlynol neu gychwyn y canlynol o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig”

(b) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “osodiadau alltraeth neu mewn perthynas â hwy” rhodder “osodiad alltraeth neu mewn perthynas ag ef”;

(c) yn is-baragraff (1)(c), yn lle “osodiadau alltraeth a ffynhonnau sy’n cael eu datgomisiynu neu eu cadw hyd nes cânt eu dymchwel neu eu hailddefnyddio” rhodder “gosodiad alltraeth sy’n cael ei ddatgomisiynu neu ei gadw hyd nes y caiff ei ddymchwel neu ei ailddefnyddio neu ffynnon sy’n cael ei datgomisiynu neu ei chadw hyd nes y caiff ei dymchwel neu ei hailddefnyddio”;

(d) yn is-baragraff (2)(a), yn lle ““gosodiadau alltraeth” yr ystyr a roddir i “offshore installations”” rhodder ““gosodiad alltraeth yr ystyr a roddir i “offshore installation””;

(e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle ““ffynhonnau” yr ystyr a roddir i “wells”” rhodder ““ffynnon” yr ystyr a roddir i “well””.

(6) Ym mharagraff 27, yn lle “(gan gynnwys comisiynu,” rhodder “(gan gynnwys adeiladu, comisiynu, gosod,”.

(7) Yn lle paragraff 28 rhodder—

“**28.**—(1) Person sydd wedi teithio i’r Deyrnas Unedig at ddiben cludo deunydd a ffurfir o gelloedd neu waed dynol, neu sy’n eu cynnwys, ac sydd i’w defnyddio er mwyn darparu gwasanaeth iechyd gan ddarparwr gwasanaethau iechyd.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

mae “gwaed” (“*blood*”) yn cynnwys cydrannau gwaed;

mae i “gwasanaeth iechyd” (“*health service*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 10(8).
”

(**1**) Mae’r Awdurdod Glo yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 (p. 21).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(8) Hepgorer paragraff 29.

(9) Ar ôl paragraff 36 mewnosoder—

"**37.** Person sy'n ymwneud â gwneud—

(a) ffilm sy'n ffilm Brydeinig at ddibenion Atodlen 1 i Ddeddf Ffilmiau 1985(**1**), neu

(b) rhaglen deledu sy'n rhaglen Brydeinig at ddibenion Rhan 15A o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2009(**2**)."

**Darpariaeth drosiannol: personau a gyrhaeddodd yr ardal deithio gyffredin cyn 10 Gorffennaf 2020**

**7.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person wedi cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben yn union cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(2) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i'r person fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 3 i 6 o'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud, ond mewn perthynas yn unig â'r cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyrhaeddodd y person yr ardal deithio gyffredin.

(3) Mae i "ardal deithio gyffredin" yn y rheoliad hwn yr ystyr a roddir i "common travel area" gan Ddeddf Mewnfudo 1971(**3**).

**Newid y cyfnod adolygu**

**8.** Yn Rhan 6 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (adolygu a dod i ben), yn rheoliad 19 (adolygu'r gofynion), yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

"(b) erbyn 27 Gorffennaf 2020;

(c) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 28 Gorffennaf 2020;

(d) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 28 o ddiwrnodau."

**Diwygiadau amrywiol**

**9.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

---

(**1**) 1985 p. 21; amnewidiwyd Atodlen 1 gan Ddeddf Cyllid 2006 (p. 25) ac mae wedi bod yn destun nifer fawr o ddiwygiadau gan Ddeddf Treth Gorfforaeth 2009 (p. 4) ac O.S. 2006/643, 2006/3430, 2012/1809, 2015/86 a 2018/1105.

(**2**) Mewnosodwyd Rhan 15A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid 2013 (p. 39).

(**3**) 1971 p. 77. Gweler adran 1(3). Mae'n darparu bod y Ddeddf honno yn cyfeirio at y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon gyda'i gilydd fel "the common travel area".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn rheoliad 9(2)(a) (fel y mae wedi ei ailrifo gan reoliad 3(4)(a) o'r Rheoliadau hyn), yn lle "mharagraff 2" rhodder "mharagraff 1(2)".

(3) Yn rheoliad 17(10), yn lle "mharagraff (8)" rhodder "mharagraff (9)".

(4) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 1(2), yn y geiriau o flaen paragraff (1), yn lle "9(a)" rhodder "9(2)(a)";

(b) ym mharagraff 21(1), yn y testun Saesneg yn unig—

(i) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl "person" mewnosoder "who is",

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "is a spacecraft controller who is" rhodder "a spacecraft controller".

# RHAN 3

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

**10.**—(1) Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr) wedi ei diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 4(2) hepgorer "ar lafar".

(3) Yn fersiwn Gymraeg y datganiad ar y llestr neu'r awyren yn yr Atodlen—

(a) yn lle "Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru" rhodder "asiantaethau iechyd y cyhoedd y DU";

(b) hepgorer "ar www.gov.uk";

(c) ar ôl "14 o ddiwrnodau ar ôl i chi gyrraedd" mewnosoder ", oni bai eich bod mewn categori esempt. Ewch i gov.uk i weld y rhestr esemptiadau.";

(d) hepgorer y testun o "Wedi cyrraedd," hyd at "www.llyw.cymru/coronafeirws".

(4) Yn fersiwn Saesneg y datganiad ar y llestr neu'r awyren yn yr Atodlen—

(a) yn lle "Welsh Government and Public Health Wales" rhodder "UK's public health agencies";

(b) hepgorer "at www.gov.uk";

(c) ar ôl "14 days after you arrive" mewnosoder ", unless you are in an exempt category. To view the exemptions list, visit gov.uk.";

(d) hepgorer y testun o "When you arrive" hyd at "www.gov.wales/coronavirus".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Newid y cyfnod adolygu**

**11.** Yn Rhan 4 y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (amrywiol), yn rheoliad 9(1) (adolygu'r gofynion), yn lle is-baragraffau (b) ac (c) rhodder—

"(b) erbyn 27 Gorffennaf 2020;

(c) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 28 Gorffennaf 2020;

(d) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 28 o ddiwrnodau."

**Diwygiad amrywiol**

**12.** Yn Rhan 2 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr), yn rheoliad 3(2), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), yn lle "mharagraff (1)(a)" rhodder "mharagraff (1)".

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
*Am 10.20 a.m. ar 9 Gorffennaf 2020*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## YR ATODLEN Rheoliadau 4(8) a 5(2)

## Ychwanegu Atodlenni 3 a 4 newydd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**1.** Ar ôl Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt) mewnosoder—

## "ATODLEN 3 Rheoliad 9(1)

## Gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin

### RHAN 1

### Gwledydd a thiriogaethau

Yr Almaen

Andorra

Antigua a Barbuda

Aruba

Awstralia

Awstria

Y Bahamas

Barbados

Bonaire, Sint Eustatius a Saba

Caledonia Newydd

Croatia

Curaçao

Cyprus

De Korea

Denmarc

Dominica

Yr Eidal

Fiet-nam

Fiji

Y Ffindir

Ffrainc

Grenada

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Guadeloupe

Gwlad Belg

Gwlad Groeg

Gwlad yr Iâ

Gwlad Pwyl

Gwladwriaeth Dinas y Fatican

Hong Kong

Hwngari

Yr Iseldiroedd

Jamaica

Japan

Kalaallit Nunaat (Greenland)

Liechtenstein

Lithiwania

Lwcsembwrg

Macau

Malta

Mauritius

Monaco

Norwy

Polynesia Ffrengig

Reunion

Saint Barthélemy

Saint Kitts a Nevis

Saint Lucia

Saint Pierre a Miquelon

San Marino

Sbaen

Seland Newydd

Serbia

Seychelles

Y Swistir

Taiwan

Trinidad a Tobago

Twrci

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Y Weriniaeth Tsiec

Ynysoedd Ffaröe

## RHAN 2

### Tiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig

Anguilla

Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus

Bermuda

Gibraltar

Montserrat

Saint Helena, Ascension a Tristan da Cunha

Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig

Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India

Ynysoedd Cayman

Ynysoedd De Sandwich a De Georgia

Ynysoedd Falkland

Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno

Ynysoedd Prydeinig y Wyryf

Ynysoedd Turks a Caicos."

**2.** Ar ôl Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (fel y'i mewnosodir gan baragraff 1 o'r Atodlen hon) mewnosoder—

## "ATODLEN 4

Rheoliad 10(4)

### Digwyddiadau chwaraeon penodedig

**1.** Digwyddiad lle y mae unrhyw un neu ragor o'r cyfranogwyr yn cystadlu—

(a) i gymhwyso, neu

(b) fel rhan o broses ddethol,

ar gyfer y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd neu Gemau'r Gymanwlad.

**2.** Criced – gemau prawf.

**3.** Dartiau—

(a) Cyfres Haf y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol;

(b) Betfred World Matchplay Darts.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**4.** Pêl-droed – gornestau Cynghrair Pencampwyr UEFA a Chynghrair Ewropa UEFA.

**5.** Golff—

(a) Pencampwriaeth Meistri Prydain Betfred Cymdeithas y Golffwyr Proffesiynol;

(b) Cylchdaith Golff Ewrop - Pencampwriaeth Agored Lloegr;

(c) Cylchdaith Golff Ewrop - Pencampwriaeth Lloegr;

(d) Cylchdaith Golff Ewrop - Pencampwriaeth y Deyrnas Unedig;

(e) Pencampwriaeth Cymdeithas y Golffwyr Proffesiynol BMW;

(f) Cylchdaith Golff Ewrop - Y Clasur Celtaidd;

(g) Cylchdaith Golff Ewrop - Pencampwriaeth Agored Cymru;

(h) Cylchdaith Golff Ewrop i Fenywod - Pencampwriaeth Agored yr Alban i Fenywod Aberdeen Standard Investments;

(i) Cylchdaith Golff Ewrop i Fenywod - Pencampwriaeth Agored Prydain i Fenywod AIG;

(j) Cylchdaith Golff Ewrop - Pencampwriaeth Lincs Alfred Dunhill;

(k) Cylchdaith Golff Ewrop - Pencampwriaeth Agored yr Alban Aberdeen Standard Investments.

**6.** Rasio ceffylau—

(a) Gŵyl Rasio Ceffylau Gorffennaf Moët & Chandon;

(b) Penwythnos Diemwnt Rasio Ceffylau y Brenin Siôr QIPCO;

(c) Gŵyl Rasio Ceffylau Goodwood Qatar;

(d) Gŵyl Rasio Ceffylau Ebor Swydd Efrog.

**7.** Rasio moduron—

(a) Grand Prix Prydain Fformiwla Un Pirelli;

(b) Grand Prix Dathlu 70 Mlynedd Fformiwla Un Emirates.

**8.** Gornestau Rygbi’r Gynghrair Super League Betfred.

**9.** Rygbi’r Undeb - gornestau rhyngwladol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**10.** Snwcer – Pencampwriaeth Snwcer y Byd Betfred.”

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020.

Vaughan Gething,
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**9 Gorffennaf 2020**

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon); neu pan fu’r teithiwr y tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol, i ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – a hunanynysu am gyfnod o 14 diwrnod.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Teithio er mwyn cyflwyno eithriad i’r gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd penodol. Mae’r rheoliadau hefyd yn diwygio ac yn ymestyn y categorïau o bersonau sydd wedi’u heithrio o’r gofyniad i roi gwybodaeth i deithwyr a/neu i ynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Cyflwynodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Bobl sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020 (“Y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr”) ofynion i weithredwyr gwasanaethau teithwyr awyr a môr rhyngwladol i roi gwybodaeth i’w teithwyr am coronafeirws a gofynion perthnasol (fel y ddyletswydd i hunanynysu ar ôl teithio i Gymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin, yn ogystal â rhoi gwybodaeth iddynt am ganllawiau iechyd y cyhoedd.

Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio cynnwys y datganiad a nodwyd yn yr Atodlen i’r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr, y mae’n rhaid ei roi i deithwyr yn ystod eu taith i Gymru, ac yn dileu unrhyw ofyniad i roi’r datganiad hwnnw ar lafar.

Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Teithio a’r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr i newid y cyfnod adolygu o uchafswm o 21 diwrnod i uchafswm o 28 diwrnod ac i nodi bod angen cynnal yr adolygiad nesaf erbyn 27 Gorffennaf 2020.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y’i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym o fewn cyfnod o lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad gosod, ar 10 Gorffennaf.

Ar 6 Gorffennaf 2020, gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd) (Lloegr) (Diwygio) 2020, gyda rhai darpariaethau’n dod i rym ar 7 Gorffennaf a rhai ar 10 Gorffennaf. Mae rheoliadau diwygiedig hefyd yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod tebyg gan ddiwygio’r gofynion cyfwerth ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull gweithredu ar draws y DU i atal lledaeniad haint neu halogiad Covid-19 drwy unrhyw heintiau a ddygir i Gymru gan deithwyr.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio; mae'r Llywodraeth yn credu eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail eu bod yn ceisio nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Bydd erthyglau 5 (yr hawl i ryddid a diogelwch), 8 (yr hawl i fywyd preifat a theuluol) ac A1P1 (yr hawl i fwynhau meddiannaeth yn heddychlon) o bosib yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio. Mae erthygl 14 (amddiffyn rhag gwahaniaethu) hefyd yn gysylltiedig ag ymyrryd â'r hawliau eraill a nodwyd.

Mae'r rhain oll yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch y cyhoedd neu i ddiogelu iechyd. Mae'n rhaid i'r holl gyfyngiadau a gofynion fod yn gyfiawn ar y sail eu bod yn ceisio nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Ystyriwyd bod pob un o'r Erthyglau hyn yn gysylltiedig â'r Rheoliadau fel y'u gwnaed yn wreiddiol. Nid yw'r newidiadau yn sgil diwygio'r Rheoliadau yn newid y sefyllfa honno.

Mae'r newidiadau a wnaed yn sgil y Rheoliadau diwygiedig hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i sicrhau ymateb priodol i fygythiad coronafeirws â hawliau unigolion a busnesau. Mae'r diwygiadau yn ehangu'r eithriadau i'r gofynion i ynysu ac yn dileu'r gofyniad cyffredinol i ynysu gan osod gofyniad llai cyfyngol ar bersonau sy'n dod i Gymru. Y bobl hynny sy'n manteisio o'r diwygiadau hyn yw'r rhai sydd (i) mewn categori sydd wedi'i eithrio neu (ii) yn cyrraedd o wlad sydd wedi'i heithrio. Mae'r diwygiadau hyn yn parhau i fod yn ymyriad cyfiawn a chymesur ag Erthygl 8.

Ni chredwyd bod y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr fel y'u gwnaed yn wreiddiol, yn ymyrryd ag unrhyw un o hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'r newidiadau o ganlyniad i ddiwygio'r Rheoliadau hyn yn newid y sefyllfa hon.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus neu halogi gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i'w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle ni ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol,

mae Deddf 1984 fel y'i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o'r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 25B a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i'r Gweinidog priodol (a ddiffinnir yn adran 45T fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru) wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu'r personau neu'r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy'n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd o'r enw COVID-19 neu "coronafeirws". Gwnaed y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr ar 15 Mehefin 2020 ac, ar wahân i ddarpariaethau a wnaeth fân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Teithio a ddaeth i rym o ganlyniad, daethant i rym ar 17 Mehefin 2020.

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i adolygu'r angen am y gofynion a osodwyd gan y Rheoliadau Teithio a'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr o leiaf bob 21 o ddiwrnodau, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 29 Mehefin 2020.

Mae'r Rheoliadau Teithio wedi cael eu hadolygu'n barhaus ac, i sicrhau bod y gofynion yn gymesur, mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r gofyniad i hunanynysu fel ei fod ond yn berthnasol i unigolion sy'n cyrraedd Cymru o wlad nad yw wedi'i heithrio. Gwledydd sydd wedi'u heithrio yw'r gwledydd y credir ar hyn o bryd bod lefel dderbyniol o risg yn perthyn iddynt, o safbwynt iechyd y cyhoedd, i deithwyr ddod i'r DU, ac maent wedi'u rhestru yn y Rheoliadau. Mae'r rheoliadau yn gosod Atodlen 3 newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n darparu rhestr o "wledydd a thiriogaethau eithriedig" (lle bydd person sy'n teithio i Gymru wedi'i eithrio o'r gofyniad i hunanynysu yn rheoliadau 7 a 8). Bydd y rhestr yn Atodlen 3 yn cael ei hadolygu'n barhaus i asesu'r risgiau iechyd y cyhoedd yn sgil personau sy'n teithio i Loegr o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud nifer o newidiadau i'r atodlenni presennol i'r Rheoliadau Teithio. Mae'n diwygio Atodlen 1 i wneud newidiadau penodol i'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i deithwyr. Maent hefyd yn diwygio rheoliad 3 a Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2, i wneud newidiadau penodol i'r categorïau o bobl sydd wedi'u heithrio o'r gofyniad yn rheoliadau 4 a 5 y Rheoliadau Teithio i ddarparu gwybodaeth teithwyr a/neu o'r gofyniad yn rheoliadau 7 ac 8 y rheoliadau hynny i hunanynysu.

Ni fydd unrhyw un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio yn effeithio ar y gofynion o dan y rheoliadau ar bersonau sy'n cyrraedd yr ardal deithio gyffredin cyn y daw'r diwygiadau i rym.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr wedi'u diwygio yn Rhan 3 o'r rheoliadau hyn er mwyn gwneud mân newidiadau i gynnwys y datganiad a wneir i deithwyr yn ystod eu taith i Gymru, fel bod y datganiad yn gyson ar draws y DU. Mae'r gofyniad i weithredwyr roi'r datganiad ar lafar hefyd wedi'i ddileu; yn lle hyn bydd rhaid i'r gweithredwyr roi'r datganiad, drwy unrhyw gyfrwng, gan roi gwell hyblygrwydd.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Teithio a'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr i ddarparu y bydd y cyfnod adolygu statudol (ar gyfer rheoliad 19 a [ 9] yn y drefn hon) yn 28 diwrnod yn hytrach na 21 diwrnod, gyda'r adolygiadau nesaf yn cael eu cynnal dim hwyrach na 27 Gorffennaf 2020. Defnyddir yr un dull yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a bydd newid y Rheoliadau ar gyfer Cymru yn sicrhau bod y pwynt adolygu yn gyson yn y pedair gwlad yn y DU ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Yn olaf, gwneir mân ddiwygiadau technegol i'r ddau set o Reoliadau i gywiro gwallau drafftio blaenorol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gofynion a osodir gan y Rheoliadau yn gymesur i'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws ar angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd/Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA-FM-2236-20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Gorffennaf 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Er mwyn atal lledaeniad haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws, cafodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 eu gwneud ar 5 Mehefin, gan ddod i rym ar 8 Mehefin. Yn dilyn adolygiad, mae'r Rheoliadau hyn bellach yn cael eu diwygio er mwyn cyflwyno rhestr o wledydd a thiriogaethau y byddai teithwyr ohonynt i Gymru yn cael eu hesemptio rhag y cyfyngiadau a orfodir gan y Rheoliadau yn ogystal â diwygio ac ymestyn y categorïau o bersonau sydd wedi'u hesemptio rhag y cyfyngiadau hynny.

Mae'r Rheoliadau a wnaed heddiw hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 a wnaed ar 15 Mehefin ac a ddaeth i rym ar 17 Mehefin 2020 (ar wahân i'r mân ddiwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym pan wnaed y rheoliadau hynny). Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod y datganiad ar y llestr neu'r awyren y mae'n rhaid i weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol awyr a môr ei roi i deithwyr yn ystod eu taith i Gymru yn gyson ar draws y DU. Maent hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir rhoi'r datganiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSMFT@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r  confensiwn 21 diwrnod caniateir i'r Rheoliadau ddod i rym ar 10 Gorffennaf 2020. Oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, ystyrir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod llai yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol.

Cafodd Rheoliadau cyfwerth eu gwneud yn Lloegr ar 6 Gorffennaf, a byddant yn dod i rym mewn camau ar 7 a 10 Gorffennaf ac mae amserlenni tebyg yn cael eu dilyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn rhan o ddull o weithredu sy'n cynnwys y pedair gwlad i osgoi lledaenu haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws yn y DU drwy unrhyw heintiau sydd wedi'u cludo i'r wlad gan deithwyr.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ystod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r Rheoliadau hyn.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**DYDDIAD** **9 Gorffennaf 2020**

**GAN** **Y Prif Weinidog**

Llywydd, ar gais Llywodraeth y DU mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddiwygio *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) Cymru 2020* i eithrio teithwyr o restr o wledydd rhag y gofyniad i ynysu a wnaed yn ofynnol yn y rheoliadau. Gwnaed y rheoliadau gwreiddiol ar 5 Mehefin a daethant i rym ar 8 Mehefin; daw'r rheoliadau diwygiedig i rym ar 10 Gorffennaf. O ganlyniad i'r rheoliadau diwygiedig, ni fydd teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o'r gwledydd a restrir isod bellach yn gorfod ynysu am gyfnod.

Mae'r rheoliadau teithio yn ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin, neu deithwyr sydd wedi bod y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf, i ddarparu eu manylion cyswllt a'u gwybodaeth deithio ac i ynysu am gyfnod o 14 diwrnod. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys nifer o eithriadau ar gyfer categorïau penodol o bobl - fel criwiau awyrennau, er enghraifft. Mae'r diwygiadau a gytunwyd yn awr yn eithrio teithwyr o'r gwledydd a restrir.

Rydym hefyd yn cymryd y cyfle i ddiwygio *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020* i roi hyblygrwydd o ran sut y bydd y datganiad iechyd y cyhoedd yn cael ei gyflwyno i deithwyr ar awyrennau. Rydym yn cysoni'r datganiad â'r datganiadau a roddir ar ran gwledydd eraill y DU.

Llywydd, Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb am reoli ffiniau'r DU. Drwy gydol y broses, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio bod yn adeiladol i alluogi Llywodraeth y DU i gyflawni ei hamcanion polisi. Mae Llywodraeth y DU wedi rhannu ei methodoleg gyda ni ac mae'r fethodoleg hon wedi'i hadolygu gan y Prif Swyddog Meddygol.

Isod mae'r rhestr o'r gwledydd esempt sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau.

Yr Almaen
Andorra
Antigua a Barbuda
Aruba

Awstralia
Awstria
Y Bahamas
Barbados
Bonaire, Sint Eustatius a Saba
Caledonia Newydd
Croatia
Curaçao
Cyprus
Denmarc
Dinas y Fatican
Dominica
Yr Eidal
Fiet-nam
Fiji
Y Ffindir
Ffrainc
Grenada
Guadeloupe
Gweriniaeth Korea
Gwlad Belg
Gwlad Groeg
Gwlad yr Iâ
Gwlad Pwyl
Hong Kong
Hwngari
Yr Iseldiroedd
Jamaica
Japan
Kalaallit Nunaat (Greenland)
La Reunion
Liechtenstein
Lithiwania
Lwcsembwrg
Macau
Malta
Mauritius
Monaco
Norwy
Polynesia Ffrengig
Saint Barthélemy
Saint Kitts a Nevis
Saint Lucia
San Marino
Saint Pierre a Miquelon
Sbaen
Seland Newydd

Serbia
Seychelles
Y Swistir
Taiwan
Trinidad a Tobago
Twrci
Y Weriniaeth Tsiec
Ynysoedd Ffaröe

**Tiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig**

Anguilla
Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus
Bermuda
Gibraltar
Montserrat
Saint Helena, Ascension a Tristan da Cunha
Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig
Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India
Ynysoedd Cayman
Ynysoedd De Sandwich a De Georgia
Ynysoedd Falkland
Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno
Ynysoedd Prydeinig y Wyryf
Ynysoedd Turks a Caicos

# SL(5)578 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Mae'r gofynion yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i dynnu Serbia oddi ar restr Atodlen 3 o wledydd a thiriogaethau esempt. Felly, mae gofynion hunanynysu yn cael eu hailgyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o Serbia.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. 21.2(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 1(3) o'r testun Saesneg yn diffinio'r term "International Travel Regulations". Fodd bynnag, mae Rheoliad 2(1) wedyn yn cyfeirio at y "The International Travel Amendments". Nid yw'r anghysondeb hwn yn y testun Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn ar 10 Gorffennaf, a daethant i rym y diwrnod canlynol, sef 11 Gorffennaf 2020. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol 21 diwrnod. Rydym yn nodi'r llythyr a anfonwyd at y Llywydd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ar 10 Gorffennaf 2020. Mae'r wybodaeth hon yn nodi:

*Ysgrifennais atoch ar 9 Gorffennaf i ddweud ein bod wedi gosod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020. Ar ôl i'r Rheoliadau hynny gael eu gwneud bu'n rhaid symud, ar frys, Serbia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd bellach wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod caniateir i'r Rheoliadau diwygio pellach hyn ddod i rym ar y cyfle cyntaf, ac o ystyried y dystiolaeth gyfnewidiol am wledydd sydd mewn perygl mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*

**2. 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daeth Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a oedd yn darparu rhestr esempt o wledydd a thiriogaethau, gan gynnwys Serbia, ond i rym ar 10 Gorffennaf 2020, wrth i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 sy'n cynnwys Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gael eu gosod ar 9 Gorffennaf 2020. Gwnaed y Rheoliadau hyn am 3.45pm ar 10 Gorffennaf, a daethant i rym ar 11 Gorffennaf, gan dynnu Serbia oddi ar y rhestr yn Atodlen 3.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn nodi

> *"Mae'r Rheoliadau teithio'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar ôl i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u esempio gael eu hychwanegu at y Rheoliadau hynny, cafwyd cyngor wedi'i ddiweddaru gan y Cyd-gyngor Bioddiogelwch ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr, sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd o deithio i mewn gan Serbia wedi codi. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailgyflwyno gofynion hunan-arwahanu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o Serbia. Bydd y gofynion yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n mynd i'r ardal deithio gyffredin o Serbia ar neu ar ôl 11 Gorffennaf 2020."*

Mae angen tynnu gwlad neu diriogaeth lle mae teithio oddi yno i Gymru yn cynrychioli risg uwch i iechyd y cyhoedd oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Fodd bynnag, cafodd y Rheoliadau hyn, sy'n tynnu Serbia oddi ar restr Atodlen 3 eu gwneud a'u gosod ar yr un diwrnod ag y daeth y rhestr i esemptio Serbia i rym. O'r herwydd, gallai fod risg o ddryswch i ddarllenwyr y ddeddfwriaeth.

**3. 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

O ran goblygiadau hawliau dynol y Rheoliadau hyn, mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> *Nid yw'r diwygiad yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio; mae'r Llywodraeth yn credu eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail eu bod yn ceisio nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.*

Mae hawliau dynol yn cael eu cynnwys o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid y sefyllfa yn hyn o beth. Mae'r Rheoliadau hyn yn tynnu un o'r gwledydd esempt o'r rhestr

yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy’n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr o Serbia hunanynysu.

**4. 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod hyn i’w briodoli i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a'r angen i ddatblygu ymateb iechyd cyhoeddus brys ac, o'r herwydd, yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 726 (Cy. 163)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Mae'r gofynion yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y rheoliadau diwygio"). Yn rhinwedd y diwygiadau hynny, nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (fel y'i mewnosodwyd gan y rheoliadau diwygio). Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i hepgor Serbia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 726 (Cy. 163)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020

*Gwnaed* *am 3.45 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 6.00 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym* *11 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer "Serbia".

**Personau sy'n gadael Serbia ar 10 Gorffennaf 2020**

**3.**—(1) At ddibenion rheoliad 7(1)(b) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, nid yw person sy'n cyrraedd Cymru wedi i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i'w drin fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt yn ystod y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r person yn cyrraedd Cymru os—

(a) yw'r person yn gadael Serbia ar 10 Gorffennaf 2020, a

(b) nad yw wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth arall nad yw'n esempt yn ystod y cyfnod hwnnw o 14 o ddiwrnodau.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae i "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yr un ystyr ag yn rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.45 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020.

**Vaughan Gething,**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

10 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon);, i ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – a hunan-ynysu am gyfnod o 14 diwrnod.

Mae’r Rheoliadau Teithio wedi eu diwygio gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno eithriad i’r gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach yr Rheoliadau Teithio er mwyn dileu Serbia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y’i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 11 Gorffennaf 2020, sy'n llai nag 21 diwrnod o ddyddiad dodwy.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiad yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio; mae’r Llywodraeth yn credu eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail eu bod yn ceisio nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y’i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu’r cyhoedd rhag bygythiadau sy’n deillio o glefydau heintus neu halogi gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae’n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i’w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle ni ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae Deddf 1984 fel y’i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy’n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o’r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 25B a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i’r Gweinidog priodol (a ddiffinnir yn adran 45T fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru) wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu’r personau neu’r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy’n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy’n achosi’r clefyd o’r enw COVID-19 neu “coronafeirws”. Mae'r Rheoliadau teithio'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar ôl i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u esempio gael eu hychwanegu at y Rheoliadau hynny, cafwyd cyngor wedi'i ddiweddaru gan y Cyd-gyngor Bioddiogelwch ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr, sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd o deithio i mewn gan Serbia wedi codi. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailgyflwyno gofynion hunan-arwahanu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o Serbia. Bydd y gofynion yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n mynd i'r ardal deithio gyffredin o Serbia ar neu ar ôl 11 Gorffennaf 2020.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod ailgyflwyno'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio mewn perthynas â theithwyr o Serbia yn gymesur i’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws ar angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd/Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/2271/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Gorffennaf 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Ysgrifennais atoch ar 9 Gorffennaf i ddweud ein bod wedi gosod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020. Ar ôl i'r Rheoliadau hynny gael eu gwneud bu'n rhaid symud, ar frys, Serbia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd bellach wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod caniateir i'r Rheoliadau diwygio pellach hyn ddod i rym ar y cyfle cyntaf, ac o ystyried y dystiolaeth gyfnewidiol am wledydd sydd mewn perygl mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSMFT@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol")

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac nid oes yn rhaid i bersonau sy'n teithio i Gymru ar ôl bod yn un neu fwy o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio gydymffurfio â'r angen i ynysu.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol:

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Cafodd y ddau bwynt a ganlyn eu nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym y diwrnod cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Dyma achos o dorri'r rheol 21 diwrnod (hynny yw, y rheol sy'n nodi y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y caiff offeryn 'gwnaed negyddol' ei osod gerbron y Senedd a'r dyddiad y mae'r offeryn hwnnw yn dod i rym). Rydym yn nodi'r esboniad a roddwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 27 Gorffennaf 2020, sy'n nodi fel a ganlyn:

> *Bu'n rhaid dileu Sbaen ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil teithio i mewn o Sbaen wedi codi.*
>
> *Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar 8 Mehefin 2020, rhoddodd Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dystiolaeth i ni ar y cyfyngiadau yng Nghymru. Dywedodd y canlynol: "We actually want to have something that helps the public to understand how they can follow the rules, and that's why the guidance is really important as well".

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, caiff defnyddwyr gwefan Llywodraeth Cymru sy'n clicio ar y linc i weld canllawiau ynghylch "*teithio tramor a dychwelyd adref*" eu cyfeirio at wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae gwefan Llywodraeth y DU yn rhoi cyngor ar ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig, cyn cyfeirio'r darllenydd yn ôl at wefan Llywodraeth Cymru i weld canllawiau ar hunan-ynysu yng Nghymru.

Mae tudalen Llywodraeth y DU yn cynnwys linc i ganllawiau Llywodraeth Cymru, "*How to self-isolate when you travel to Wales: coronavirus (COVID-19)*", neu "*Sut i hunanynysu pan fyddwch yn teithio i Gymru: coronavirus (COVID-19)*" ar yr ochr Gymraeg. Hefyd, gellir cael mynediad at y wybodaeth hon yn uniongyrchol drwy wefan Llywodraeth Cymru fel rhan o'r pecyn o wybodaeth sydd â'r teitl "Teithio: coronafeirws". Mae'n nodi fel a ganlyn: *"os byddwch yn cyrraedd y DU a'ch bod wedi bod y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin o fewn y 14 diwrnod diwethaf, yna bydd angen ichi hunanynysu am weddill y cyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau'r o'r adeg pan wnaethoch gyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin".* Cafodd y wybodaeth hon ei diweddaru ar 7 Mehefin 2020. Fodd bynnag, ers 10 Gorffennaf 2020, nid yw'n ofynnol i deithwyr o wledydd sydd wedi'u hesemptio y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin hunan-ynysu.

Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "*Teithwyr sydd wedi eu heithrio rhag hunanynysu: coronafeirws (COVID-19)*", wedi'u diweddaru bellach, gan gynnwys rhestr o wledydd sydd wedi'u hesemptio. Nid yw Sbaen wedi'i chynnwys ar y rhestr hon.

Er y gallai pobl sy'n darllen y canllawiau weithio allan yn y diwedd beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud am ddychwelyd i Gymru o dramor, nid yw'r canllawiau'n glir nac yn rhwydd cael mynediad atynt, ac mae hyn yn debygol o ddrysu rhai darllenwyr.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb i'r ail bwynt adrodd o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 804 (Cy. 177)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i dynnu Sbaen oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol. Mae hyn yn ymwneud â pherson a oedd wedi bod yn Sbaen ddiwethaf o fewn y 14 diwrnod cyn iddo gyrraedd Cymru a chyn i'r diwygiad a wnaed gan reoliad 2 ddod i rym. Os yw'r person hwnnw'n gadael Sbaen yn fuan cyn i'r diwygiad ddod i rym ac yn cyrraedd Cymru wedi hynny mae'r person hwnnw i'w drin (at ddibenion rheoliad 7 (1) (b) ac 8 (1) o'r Rheoliadau teithio rhyngwladol) fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt. Yn yr un modd os yw'r person wedi gadael Sbaen ar unrhyw adeg o fewn y 14 diwrnod cyn i'r diwygiad ddod i rym ac yn cyrraedd Cymru o le arall sydd wedi'i eithrio (neu o rywle arall yn y DU) ar ôl i'r diwygiad ddod i rym, mae'r person hwnnw hefyd i'w drin fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 804 (Cy. 177)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

*Gwnaed* *25 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym* *26 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *27 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160) ac O.S. 2020/726 (Cy. 163).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiad i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mewn perthynas â Sbaen**

**2.** Yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hepgorer "Sbaen".

**Darpariaeth drosiannol**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i berson ("P") a—

(a) cyrhaeddodd Cymru ar ôl i'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 ddod i rym, a

(b) oedd yn Sbaen ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n gorffen ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn i'r diwygiad hwnnw ddod i rym.

(2) I osgoi unrhyw amheuaeth, mae P i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1)(b) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yn Sbaen ddiwethaf.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yr un ystyr ag yn rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
*25 Gorffennaf 2020*

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

**Vaughan Gething,**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

27 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon);, i ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – a hunan-ynysu am gyfnod o 14 diwrnod.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno eithriad i'r gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach yr Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn dileu Sbaen o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd bod y Rheoliadau wedi dod i rym ar 26 Gorffennaf 2020, cyn y dyddiad gosod.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiad yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth yn credu eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail eu bod yn ceisio nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus neu halogi gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i'w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle ni ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae Deddf 1984 fel y'i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o'r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 25B a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i'r Gweinidog priodol (a ddiffinnir yn adran 45T fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru) wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu'r personau neu'r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy'n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd o'r enw COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar ôl i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u esempio gael eu hychwanegu at y Rheoliadau hynny, cafwyd cyngor wedi'i ddiweddaru gan y Cyd-gyngor Bioddiogelwch, sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd o deithio i mewn gan Sbaen wedi codi. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailgyflwyno gofynion hunan-arwahanu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o Sbaen. Bydd y gofynion yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n mynd i'r ardal deithio gyffredin o Sbaen ar neu ar ôl 26 Gorffennaf 2020.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod ailgyflwyno'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mewn perthynas â theithwyr o Sbaen yn gymesur i'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws ar angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd/Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/2431/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd - CF99 1SN

27 Gorffennaf 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym cyn iddo gael ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Bu'n rhaid dileu Sbaen ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil teithio i mewn o Sbaen wedi codi.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSMFT@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

# GAN

# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | Mesurau cwarantin y coronafeirws i deithwyr sy'n cyrraedd yn ôl i Gymru o Sbaen |
| **DYDDIAD** | 25 Gorffennaf 2020 |
| **GAN** | Vaughan Gething AS, Y Gweinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau diweddaraf am deithio rhyngwladol a'r coronafeirws. Os bydd yr Aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau am hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddaf yn fwy na pharod i wneud hynny.

Yn gynharach brynhawn heddiw, fe wnes i fynychu cyfarfod o Weinidogion o bob un o'r 4 gwlad yn y DU i ystyried y risg i iechyd cyhoeddus yn sgil yr achosion cynyddol o COVID-19 mewn rhannau o Sbaen.

Heddiw cytunodd y Grŵp Gweinidogol i ddileu Sbaen, gan gynnwys ei hynysoedd, o'r rhestr o wledydd sydd wedi cael eu heithrio o'n mesurau iechyd ar y ffin, gyda'r gweithredu'n dod i rym ddydd Sul, 26 Gorffennaf 2020.

Felly rwyf wedi gwneud diwygiad brys i'r Rheoliadau Amddiffyn Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, sy'n golygu y bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n teithio o Sbaen (neu sydd wedi bod yn Sbaen yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf) fod mewn cwarantin am 14 diwrnod o yfory ymlaen.

Mae camau tebyg wedi cael eu rhoi ar waith gan Weinidogion yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr.

Eitem 3.5

# SL(5)580 - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth dros dro mewn perthynas â gweinyddu Fforymau Mynediad Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i gyfarfod a gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod o amhariad a achosir gan bandemig y coronafeirws.

Mae'r camau a ddefnyddir i frwydro yn erbyn COVID-19 yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, osgoi teithio nad yw'n hanfodol a'r gofyniad i weithio gartref pan fydd hynny'n bosibl. Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 ar hyn o bryd yn gosod gofynion ar Fforymau Mynediad Lleol i gyfarfod yn bersonol, i sicrhau bod cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac i alluogi'r cyhoedd i archwilio eu hadroddiadau blynyddol yn swyddfeydd eu hawdurdodau llywodraethu perthnasol. Mae hyn yn mynd yn groes i'r camau sydd ar waith ar gyfer COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n darparu hyblygrwydd i alluogi Fforymau Mynediad Lleol i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon drwy, er enghraifft, alluogi y gellir cynnal cyfarfodydd ar sail presenoldeb o bell llawn neu bresenoldeb rhannol, a thrwy wneud darpariaeth o ran cyhoeddi rhai dogfennau yn electronig.

## Y weithdrefn

Penderfyniad negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi, o ystyried y bygythiad difrifol a brys a ddaw yn sgîl y coronafeirws a'r angen am ymateb brys o ran iechyd y cyhoedd, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, ac mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dywed y memorandwm esboniadol fod y camau a gymerwyd yn rhai dros dro ac na fydd y ddeddfwriaeth yn creu unrhyw newidiadau polisi sylweddol.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 723 (Cy. 161)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau nad ydynt yn rhai testunol i Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") er mwyn sicrhau bod Fforymau Mynediad Lleol yn gallu parhau i gyfarfod a gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod o amhariad a achosir gan bandemig y coronafeirws. Ac eithrio rheoliadau 1 a 6, mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar 30 Ebrill 2021. Mae rheoliadau 1 a 6 yn peidio â chael effaith ddwy flynedd ar ôl iddynt ddod i rym.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn galluogi Fforymau Mynediad Lleol i gynnal cyfarfodydd o bell yn hytrach na gorfod eu cynnal mewn un lleoliad ffisegol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodiadau dros dro i Fforymau Mynediad Lleol, drwy roi'r pŵer i'r awdurdodau penodi ddewis peidio ag arfer y gofynion yn rheoliadau 7(a) a (b) mewn perthynas â phenodiadau a wneir yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac yn dod i ben ar ddiwedd 30 Ebrill 2021. Mae hefyd yn darparu na chaniateir gwneud y penodiadau hynny ond am gyfnod o hyd at 9 mis o ddyddiad y penodiad. Diben y ddarpariaeth hon yw caniatáu i unrhyw aelodau o Fforymau Mynediad Lleol y mae cyfnod eu penodiad wedi dod i ben yn ddiweddar gael eu hailbenodi yn gyflym ac mewn modd syml os nad yw'n bosibl cynnal cylch recriwtio llawn ar hyn o bryd.

Mae rheoliad 4 yn caniatáu i bapurau ar gyfer cyfarfodydd gael eu hanfon ar ffurf electronig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 5 yn caniatáu ethol y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd drwy ddull ac eithrio drwy bleidlais gyfrinachol, os nad yw hynny'n opsiwn iddynt, ac yn caniatáu i'r Fforymau Mynediad Lleol benderfynu ar eu gweithdrefn eu hunain.

Mae rheoliad 6 yn caniatáu i'r person sy'n llywyddu wahardd y cyhoedd o eitem benodol o fusnes os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Mae rheoliad 7 yn darparu, at ddiben cyfrifo'r cyfnod o 12 mis pan fydd aelod wedi methu â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyn y caniateir terfynu ei aelodaeth, bod y cyfnod rhwng y diwrnod y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym a sy'n dod i ben â'r diwrnod cyntaf ar ôl Diwrnod Un pan gynhelir cyfarfod o'r fforwm, neu unrhyw bwyllgor o'r fforwm i'w ddiystyru.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau blynyddol a gymeradwyir ar ôl 31 Mawrth 2020 a chyn 30 Ebrill 2021 gael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod penodi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 723 (Cy. 161)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Gorffennaf 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym* | *4 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 94 a 95(5) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**1**).

### Enwi, cymhwyso, cychwyn, dod i ben a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Awst 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 6 a'r rheoliad hwn, yn peidio â chael effaith ar 30 Ebrill 2021.

(3) Mae rheoliad 6 a'r rheoliad hwn yn peidio â chael effaith ddwy flynedd ar ôl dod i rym.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2001" yw Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001(**2**).

### Cyfarfodydd a gynhelir cyn diwedd 30 Ebrill 2021

**2.** Mae Rheoliadau 2001 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl rheoliad 2—

(**1**) 2000 p. 37. Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 94 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2001/4002 (Cy. 330).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"**Mynychu cyfarfodydd o bell**

**2A.**—(1) Caniateir i gyfarfod o fforwm neu bwyllgor o fforwm gael ei gynnal drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle i siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd (pa un a yw'r cyfarpar neu'r cyfleuster hefyd yn galluogi'r personau hynny i weld ei gilydd ai peidio).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at y ffaith bod person yn mynychu cyfarfod neu'n bresennol mewn cyfarfod yn cynnwys, mewn perthynas â chyfarfod a gynhelir drwy'r cyfrwng a ddisgrifir ym mharagraff (1), mynychu drwy ddefnyddio'r cyfrwng hwnnw."

**3.** Mae Rheoliadau 2001 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl rheoliad 7—

**"Darpariaethau ar gyfer penodiadau dros dro**

**7A.**—(1) Mae'r darpariaethau a ganlyn yn ymwneud â phenodiad a wneir yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod daw'r rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben ar ddiwedd 30 Ebrill 2021.

(2) Mae rheoliad 7 wedi ei addasu fel a ganlyn.

(a) Mae rheoliad 7 i'w ddarllen fel pe bai ", rhaid i awdurdod penodi" wedi ei ddileu.

(b) Mae rheoliadau 7(a) i'w ddarllen fel pe bai "caiff awdurdod penodi" wedi ei ychwanegu ar y cychwyn.

(c) Mae rheoliad 7(b) i'w ddarllen fel pe bai "caiff awdurdod penodi roi" wedi ei roi yn lle "rhoi".

(d) Mae rheoliad 7(c) i'w ddarllen fel pe bai "caiff awdurdod penodi wahodd" wedi ei roi yn lle "gwahodd".

(e) Mae rheoliad 7(ch) i'w ddarllen fel pe bai "rhaid i awdurdod penodi gymryd" wedi ei roi yn lle "cymryd".

(f) Mae rheoliad 7(d) i'w ddarllen fel pe bai "rhaid i awdurdod penodi" wedi ei ychwanegu ar y cychwyn.

(g) Mae rheoliad 7(dd) i'w ddarllen fel pe bai "rhaid i awdurdod penodi roi" wedi ei roi yn lle "rhoi".

(3) Os nad yw awdurdod penodi yn arfer y naill neu'r llall o'r pwerau yn rheoliadau 7(a) a (b), neu'r ddau ohonynt, mae rheoliad 4(3) i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "naw mis i ben sy'n dechrau gyda diwrnod cyntaf aelodaeth y

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

person" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "dair blynedd i ben o ddyddiad cyfarfod cyntaf y fforwm". "

**4.** Mae rheoliad 10(2)(c) (papurau ar gyfer cyfarfodydd) i'w ddarllen, mewn perthynas â chyfarfod a gynhelir cyn diwedd 30 Ebrill 2021, fel pe bai'r geiriau "yn cael eu hanfon drwy'r post at bob aelod o'r fforwm yn y cyfeiriad hwnnw a bennir gan aelod at y diben, fel y cyflwynir hwy yn ôl y drefn bostio arferol o leiaf saith diwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod; neu'n cael eu hanfon ar ffurf electronig at bob aelod o leiaf saith diwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau o "yn cael eu cyflwyno" hyd at y diwedd.

**5.** Mae rheoliad 12 (ethol cadeirydd a dirprwy gadeirydd) i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff (2), "gan ddefnyddio unrhyw weithdrefn y mae'r fforwm yn penderfynu arni" wedi ei roi yn lle "drwy bleidlais gyfrinachol";

(b) paragraffau (4) i (6) wedi eu hepgor.

**6.** Mae rheoliad 15 (cynnal cyfarfodydd) i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff (2), y geiriau "ac os yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, caiff y person sy'n llywyddu, os yw eitem benodol o fusnes sydd i'w hystyried yn y cyfarfod yn ei gwneud yn briodol i'r cyhoedd gael ei wahardd pan ystyrir yr eitem fusnes honno, ddyfarnu bod y cyhoedd i'w wahardd" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau o "a rhaid iddynt fod yn agored i'r cyhoedd" hyd at y diwedd;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (2)—

"(2A) Ym mharagraffau (1) a (2), nid yw'r cyfeiriadau at y lle y cynhelir cyfarfodydd wedi eu cyfyngu i un lleoliad ffisegol.";

(c) ym mharagraff (10), ", neu drwy unrhyw ddull pleidleisio arall y mae'r fforwm yn penderfynu arno" wedi ei fewnosod ar ôl "drwy i'r aelodau sy'n bresennol godi llaw";

(d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (10)—

"(11) Os yw'n angenrheidiol cynnal pleidlais ar gwestiwn y dull pleidleisio y mae'r fforwm i'w ddefnyddio, mae'r person sy'n llywyddu i benderfynu ar y dull o bleidleisio ar y cwestiwn hwnnw."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Aelodau yn methu â mynychu cyfarfodydd**

**7.** Mae rheoliad 14 o Reoliadau 2001 (terfynu aelodaeth o fforymau) i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (1)—

"(1A) Mewn perthynas ag unrhyw aelod penodol o fforwm, nid yw'r cyfnod o 12 mis a bennir ym mharagraff (1)(e) i gynnwys y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn dod i rym ("Diwrnod Un"), a

(b) sy'n dod i ben â'r diwrnod cyntaf ar ôl Diwrnod Un pan gynhelir cyfarfod o'r fforwm, neu unrhyw bwyllgor o'r fforwm."

**Adroddiadau blynyddol gan awdurdodau penodi**

**8.** Mae rheoliad 16 o Reoliadau 2001 (adroddiadau blynyddol) i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (3)—

"(3) Rhaid i'r awdurdod penodi gyhoeddi adroddiad blynyddol a gymeradwyir ar ôl 31 Mawrth 2020 a chyn diwedd 30 Ebrill 2021 ar ei wefan."

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
9 Gorffennaf 2020

**Explanatory Memorandum to the Countryside Access (Local Access Forums) (Wales) (Coronavirus) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Housing and Local Government and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Deputy Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Countryside Access (Local Access Forums) (Coronavirus) (Wales) Regulations 2020.

Hannah Blythyn MS
Deputy Minister for Housing and Local Government
13 July 2020

**PART 1**

## 1. Description

The Regulations make temporary provision in relation to the administration of Local Access Forums ("LAFs") to ensure that they are able to continue to meet and take decisions during the period of disruption caused by COVID-19.

The measures employed to combat COVID-19 include social distancing, the avoidance of non-essential travel and the requirement to work from home where possible. The Countryside Access (Local Access Forums) (Wales) Regulations 2001 currently place requirements on LAFs to meet in person, to make meetings open to the public and to enable the public to inspect their annual reports in the offices of their respective governing authority. This runs counter to the measures in place for COVID-19.

The Regulations provide flexibility to enable LAFs to operate safely, effectively and lawfully by, for example, enabling meetings to be conducted on the basis of full or partial remote attendance and by making provision about the electronic publishing of certain documents.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

There are no matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee.

## 3. Legislative background

These Regulations are made using the powers in section 94 and 95(5) of the Countryside and Rights of Way Act 2000. The powers of the Senedd under that Act were transferred to the Welsh Ministers by s.162 and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

Existing legislation requires local authorities and National Park Authorities to have a LAF – an advisory body on public access to land for the purposes of open-air recreation.

These Regulations make non-textual amendments to the Countryside Access (Local Access Forums) (Wales) Regulations 2001 to ensure that Local Access LAFs are able to continue to meet and take decisions during the period of disruption caused by the coronavirus pandemic.

Regulation 1 sets out preliminary matters and defines terms used in the Regulations.

Regulation 2 allows meetings to be held remotely rather than in person to address the travel restrictions and social distancing requirements imposed by the pandemic.

Regulation 3 makes provision about temporary appointments to LAFs. It gives appointing authorities the power to choose not to undertake certain requirements of the recruitment process in regulation 7 of the 2001 Regulations if that would be difficult or impossible for them due to the current restrictions in place. This power is only available for appointments made in the period beginning with the day on which the Regulations come into force and ending with 30 April 2021. Should an appointing authority decide to exercise this power to undertake a simpler recruitment process, then that appointment may only be made of a maximum term of 9 months;

Regulation 4 enables papers to be delivered through electronic means to minimise potential issues with their postal or personal delivery;

Regulation 5 enables the elections of chairs and deputy chairs to be conducted via means other than a secret ballot, which may be difficult in a remote meeting context.

Regulation 6 provide LAFs with the flexibility to exclude the public from consideration of certain items at the meeting as the person presiding may decide.

Regulation 7 modifies the provision requiring automatic disqualification of membership due to failure to attend meetings for a period of 12 months period.

Regulation 8 substitutes the right of the public to inspect the annual reports of LAFs at the offices of their respective authorities with a requirement for the annual report to be published on a website.

**5. Consultation**

Given the serious and imminent threat arising from coronavirus and the need for an urgent public health response, there has been no public consultation in relation to these Regulations.

The Welsh Government has been in regular contact with local authorities and National Resources Wales.

**6. Regulatory Impact Assessment (RIA)**

An RIA has not been prepared further to the Welsh Ministers' regulatory impact assessment code for subordinate legislation and the urgency required to make these Regulations. No significant, impact on the private, voluntarily or public

sector is foreseen. No substantive policy changes will be created by the legislation.

# SL(5)582 – Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (**y Rheoliadau hyn**) yn dod â'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i rym er mwyn:

- diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011;
- diwygio Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011;
- diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011;
- dirymu Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011; a
- diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011.

Diben y rheoliadau hyn, a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael, yw lleihau'r faich ar ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ddim yn gallu cydymffurfio â gofynion adrodd statudol penodol. Gall y gofynion hynny osod baich weinyddol anghymesur ar ysgwyddau'r rhai sy'n gyfrifol.

Cafodd rhanddeiliaid wybod am y newidiadau deddfwriaethol ym mis Mai, a chynhaliwyd ymgynghoriad dair wythnos o hyd ar y newidiadau hyn rhwng 22 Mehefin a 10 Gorffennaf 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Cafodd y pwynt a ganlyn ei nodi fel pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn**

1. Mae Rheoliad 6 o Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 (**y Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad**) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gyflwyno i Weinidogion Cymru y wybodaeth a ragnodir yn y Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad heb fod yn hwyrach nag 20 diwrnod cyn diwedd pob tymor yr haf. Nid oes dyddiad cau cyfatebol wedi'i nodi ar gyfer cydymffurfio â'r dyletswyddau yn rheoliadau 5 ac 8 o'r Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad.

   Oherwydd bod tymor yr haf bellach wedi dod i ben, ymddengys mai effaith datgymhwyso rheoliad 6 mewn perthynas a'r flwyddyn ysgol 2019-20 yw rhyddhau awdurdodau lleol sydd heb gydymffurfio â'u dyletswydd rhag ymddwyn yn groes i'r ddyletswydd honno. Ymddengys bod yr effaith hon yn ôl-weithredol oherwydd mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gan awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru eisoes wedi mynd heibio.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

2. Yn nhroednodyn (1), ar dudalen 4 o'r Rheoliadau hyn, sy'n trafod Deddf Addysg 1996, dylai'r cyfeiriad at "*gan Atodlen 30 a pharagraff 67 o Atodlen 31*" gyfeirio at "*gan baragraff 67 o Atodlen 30 ac Atodlen 31*" yn lle. Mae'r un camgymeriad yn ymddangos yn fersiwn Saesneg y Rheoliadau hyn – hynny yw, dylai "*by Schedule 30 and paragraph 67 of Schedule 31 to the Schools Standards and Framework Act 1998*" gyfeirio at "*by paragraph 67 of Schedule 30 and Schedule 30*" yn lle.

3. Yn nhroednodyn (4), ar dudalen 5 o'r Rheoliadau hyn, sy'n trafod Deddf Addysg 2002, dywedir y caiff adran 210(7) o Ddeddf 2002 ei diwygio gan adran 21(1)(3)(c)(i) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Nid yw adran 21(1)(3)(c)(i) yn bodoli – mae'n ymddangos i'r Pwyllgor y dylai'r cyfeiriad fod at adran 21(1) a (3)(c)(i). Mae'r un camgymeriad yn ymddangos yn fersiwn Saesneg y Rheoliadau hyn – hynny yw, dylai *"section 21(1)(3)(c)(i)*" gyfeirio at "*section 21(1) and (3)(c)(i)*" yn lle.

*4.* Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y cafodd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ynghylch cynnal Asesiadau o'r Effaith Rheoleiddiol ei ystyried mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yn rhaid rhoi'r Rheoliadau hyn yn eu lle yn gyflym, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi ym mrawddeg gyntaf paragraff 18 nad ystyrir ei bod yn angenrheidiol cynnal Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol *"oherwydd y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn*". Nid yw'r ail sail honno yn eithriad a gydnabyddir gan Gòd Gweinidogion Cymru, er bod yr angen i roi Rheoliadau yn eu lle yn gyflym yn eithriad.

**Rheol Sefydlog 21.3(v) - nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith**

5. O dan Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 (**y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol**), mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol sicrhau bod rhieni a chyflogeion yn cael copi (am ddim) o adroddiad y llywodraethwyr. Mae Rheoliad 5(2) o'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol yn datgymhwyso'r ddyletswydd hon lle bo'r corff llywodraethu yn cymryd camau rhesymol ymarferol i sicrhau bod copi o wybodaeth benodol yn yr adroddiad, gan gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl paragraffau 6 a 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol, yn cael ei ddarparu am ddim yn lle.

   Mae gweithredu rheoliad 5(2) o'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol felly'n ei wneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ddarparu'r wybodaeth a ragnodir gan baragraffau 6 a 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol os oedd y corff yn dymuno dibynnu ar reoliad 5(2), er na fyddai'r wybodaeth honno am y flwyddyn ysgol 2019-20 wedi'i chynnwys yn adroddiad y llywodraethwyr.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ynghylch pwyntiau 1 a 5.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 729 (Cy. 164)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio nifer o reoliadau er mwyn llacio nifer o ofynion ar ysgolion o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol") yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid i gorff llywodraethu ysgol ei chyhoeddi mewn adroddiad blynyddol. Felly, mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd yn y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol ac effaith hynny yw nad yw'n ofynnol cyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019-2020 mewn unrhyw adroddiad blynyddol llywodraethwyr—

(a) paragraff 6 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (y crynodeb o berfformiad yr ysgol uwchradd),

(b) paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (nifer absenoldebau awdurdodedig disgyblion a nifer absenoldebau anawdurdodedig disgyblion), ac

(c) paragraff 8(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (gwybodaeth bellach sy'n ymwneud ag absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig disgyblion).

Mae Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adrodd") yn gwneud darpariaeth o ran yr adroddiad y mae'n ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ei anfon at rieni a disgyblion sy'n oedolion bob blwyddyn ysgol a'r wybodaeth ychwanegol y caiff rhiant ofyn i'r pennaeth amdani. Nid yw pob plentyn yn mynychu'r ysgol ac mae llawer o ddisgyblion ac

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

athrawon yn gweithio ac yn astudio o bell. Mae hyn yn peri heriau i athrawon mewn cysylltiad â darparu'r adroddiad i rieni a disgyblion sy'n oedolion. Felly, mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaeth newydd yn y Rheoliadau Adrodd ac effaith hynny yw diwygio'r rhwymedigaethau ar y penaethiaid fel eu bod yn rhwymedig i wneud ymdrechion rhesymol i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion") yn rhagnodi'r wybodaeth ysgol y mae rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion ei chyhoeddi mewn prosbectws ysgol. Nid yw pob plentyn yn mynychu'r ysgol ac mae llawer o ddisgyblion ac athrawon yn gweithio ac yn astudio o bell. Mae'n debygol y bydd hynny yn cael effaith negyddol ar ansawdd rhywfaint o'r data a reoleiddir gan y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion. Ystyrir yr effeithir yn benodol ar y data ynghylch absenoldebau disgyblion ac felly ni ddylid eu cyhoeddi mewn prosbectws ysgol. Felly, mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaeth yn y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion ac effaith hynny yw datgymhwyso'r rhwymedigaeth ar gorff llywodraethu ysgol i gynnwys mewn unrhyw brosbectws ysgol y data a nodir ym mharagraff 30 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny (data sy'n ymwneud ag absenoldebau disgyblion) mewn cysylltiad â'r flwyddyn ysgol 2019-2020.

Mae Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Targedau Ysgol") yn nodi'r targedau perfformiad ysgol y mae rhaid i gorff llywodraethu ysgol eu gosod. Gosodir y targedau am gyfnod o 3 blynedd ac mae'r targedau diwygiedig yn darparu'r sail ar gyfer targedau am y flwyddyn ganlynol. Bydd y ffaith nad yw llawer o ddisgyblion a phlant yn mynychu ysgolion a'u bod yn hytrach yn gweithio o bell yn effeithio'n andwyol y data a fydd yn sail i'r targedau hynny. Mae hyn yn peri problem benodol o ran gosod targedau am flwyddyn ysgol a sut y bydd hynny yn gweithio o ystyried y cylch 3 blynedd o dargedau ac adolygu'r targedau hynny. Felly, mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r Rheoliadau Targedau Ysgol. Disgwylir y caiff set newydd o'r Rheoliadau hyn ei gwneud ar ôl i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd gael eu cyflwyno o 2022 ymlaen.

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformiad Ysgolion") yn rheoleiddio trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad addysgol disgyblion o benaethiaid i gyrff llywodraethu ysgolion, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Fel y'i nodir uchod, nid yw pob plentyn yn mynychu'r ysgol ac mae llawer o ddisgyblion ac athrawon yn gweithio ac yn astudio o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

bell. Mae'n debygol y bydd hynny yn cael effaith negyddol ar ansawdd rhywfaint o'r data a reoleiddir gan y Rheoliadau Perfformiad Ysgolion. Ni fydd llawer o ysgolion wedi cwblhau asesiadau'r cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol ac ni fydd Gweinidogion Cymru, drwy awdurdodau lleol, yn casglu'r data hyn am y flwyddyn ysgol 2019-2020. Felly, mae rheoliad 6(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaeth yn y Rheoliadau Perfformiad Ysgolion ac effaith hynny yw datgymhwyso'r rhwymedigaethau ar ysgol i gyflenwi'r wybodaeth ragnodedig sy'n ymwneud â'r flwyddyn ysgol 2019-2020 i awdurdodau lleol, ac ar awdurdodau lleol i gyflenwi'r wybodaeth honno i Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 729 (Cy. 164)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

*Gwnaed* *13 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *15 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym* *7 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 29(3) a (5), 408(1), 537(1), (4) a (7), 537A(1), (2) a (3) a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), adrannau 19(1) a

(**1**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 29(3) gan Atodlen 30 a pharagraff 67 o Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Diwygiwyd pennawd adran 29 ac is-adrannau (1), (3) a (5) gan O.S. 2010/1158. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 408(1) gan baragraff 30(a) o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), paragraff 106(a) o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraffau 1 a 57(1) a (2) o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), paragraff 46(1) a (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), paragraffau 9 ac 11(1) a (2) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), paragraffau 5 a 7 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21), paragraff 1(1) a (2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5) a chan O.S. 2010/1158. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 537(1) gan baragraff 152(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan baragraff 9(1) a (15) o Atodlen 13 i Ddeddf Addysg 2011 a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd is-adran (4) gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997. Diwygiwyd is-adran (7) gan baragraff 152(b) o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan baragraffau 1 a 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gan baragraff 6(1) a (5) o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 2002 a chan O.S. 2010/1158. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997, fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158 a chan O.S. 2012/976. Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8(1) a (5) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Am y

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

54(3) o Ddeddf Addysg 1997(**1**) ac adrannau 63(1) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**), a thrwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 30(1) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos yn ddymunol i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Awst 2020.

**Diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 1 mewnosoder—

---

diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

(**1**) 1997 p. 44. Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 19 o Ddeddf Addysg 1997 gan baragraff 213 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diddymwyd adran 19 o ran Lloegr gan adran 66(1) ac mae diwygiadau eraill wedi eu gwneud i is-adran (1) gan adran 66(1) a (2) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20). Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 56(1) o Ddeddf Addysg 1997.

(**2**) 1998 p. 31. Diwygiwyd is-adrannau (1), (3) a (4) o adran 63 gan adran 53(1) i (4) a Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002, a mewnosodwyd is-adran (3A) gan adran 53(1) a (3) o Ddeddf Addysg 2002. Diwygiwyd is-adran (7) gan baragraff 3(1) a (4) o Atodlen 17 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40). Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**4**) 2002 p. 32. Diwygiwyd is-adrannau (1), (2) a (3) o adran 30 gan adran 103(1)(a) a (b) o Ddeddf Addysg 2005 (p. 18). Diwygiwyd is-adran (7) gan adran 21(1)(3)(c)(i) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 o Ddeddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002.

(**5**) O.S. 2011/1939 (Cy. 207), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2013/1561 (Cy. 142), O.S. 2014/2677 (Cy. 265) ac O.S. 2018/766 (Cy. 153).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

“**Datgymhwyso gofynion penodol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019-2020**

**1A.** Ni chaniateir i’r wybodaeth a bennir ym mharagraffau 6, 7 ac 8(b) o Atodlen 2 ac sy’n ymwneud â’r flwyddyn ysgol 2019-2020(**1**) gael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad llywodraethwyr.”

(3) Mae paragraff 10 o Atodlen 2 wedi ei ddirymu.

**Diwygio Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy’n Oedolion (Cymru) 2011**

**3.** Ar ôl rheoliad 1 o Reoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy’n Oedolion (Cymru) 2011(**2**) mewnosoder—

“**Addasu dyletswyddau ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019-2020**

**1A.** Mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar bennaeth gan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â’r flwyddyn ysgol 2019-2020(**3**), ac eithrio’r ddyletswydd yn rheoliad 5(1), i’w thrin fel pe bai wedi ei chyflawni os yw’r pennaeth wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyflawni’r ddyletswydd.”

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**

**4.** Ar ôl rheoliad 1 o Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**4**) mewnosoder—

“**Datgymhwyso dyletswyddau penodol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019-2020**

**1A.** Ni chaniateir i’r wybodaeth a bennir ym mharagraff 30 o Atodlen 3 ac sy’n ymwneud â’r flwyddyn ysgol 2019-2020(**5**) gael ei chynnwys mewn unrhyw brosbectws ysgol.”

---

(**1**) Am y diffiniad o “school year” gweler adran 579 o Ddeddf Addysg 1996. Mewnosodwyd y diffiniad gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.

(**2**) O.S. 2011/1943 (Cy. 210), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2014/1998 (Cy. 199), O.S. 2016/236 (Cy. 88), O.S. 2016/837 (Cy. 211) ac O.S. 2018/766 (Cy. 153).

(**3**) Am y diffiniad o “school year” gweler adran 579 o Ddeddf Addysg 1996. Mewnosodwyd y diffiniad gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.

(**4**) O.S. 2011/1944 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2016/211 (Cy. 84) ac O.S. 2018/766 (Cy. 153).

(**5**) Am y diffiniad o “school year” gweler adran 579 o Ddeddf Addysg 1996. Mewnosodwyd y diffiniad gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dirymu Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011**

**5.** Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011(**1**),

(b) rheoliad 13 o Reoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016(**2**),

(c) rheoliad 6 o Reoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018(**3**), a

(d) Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) (Diwygio) 2019(**4**).

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 1 mewnosoder—

> "**Datgymhwyso dyletswyddau penodol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019-2020**
>
> **1A.** Ni chaiff yr wybodaeth a ddarperir yn unol â rheoliadau 5, 6 ac 8 gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r flwyddyn ysgol 2019-2020(**6**)."

(3) Yn rheoliadau 4, 5 a 6, ar ôl "bob blwyddyn" mewnosoder "ysgol".

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
13 Gorffennaf 2020

(**1**) O.S. 2011/1945 (Cy. 212).
(**2**) O.S. 2016/236 (Cy. 88).
(**3**) O.S. 2018/766 (Cy. 153).
(**4**) O.S. 2019/993 (Cy. 174).
(**5**) O.S. 2011/1963 (Cy. 217), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2016/236 (Cy. 88) ac O.S. 2016/837 (Cy. 211).
(**6**) Am y diffiniad o "school year" gweler adran 579 o Ddeddf Addysg 1996. Mewnosodwyd y diffiniad gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg

15 Gorffennaf 2020

**Disgrifiad**

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio nifer o ofynion adrodd presennol ysgolion mewn ymateb i effaith y coronafeirws ar ysgolion.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2. Dim

**Y cefndir deddfwriaethol**

3. Y pwerau cyfreithiol dros wneud y Rheoliadau arfaethedig yw adrannau 29(3) a (5), 408(1), 537(1), (4) a (7), 537A(1), (2) a (3) a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996, adrannau 19(1) a 54(3) o Ddeddf Addysg 1997, adrannau 63(1) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac adrannau 30(1) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002. Rhoddwyd y swyddogaethau uchod sydd yn Neddf Addysg 1996, Deddf Addysg 1997 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r Ysgrifennydd Gwladol ac fe'u trosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1998. Rhoddwyd y swyddogaethau uchod sydd yn Neddf Addysg 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r holl swyddogaethau uchod yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Mae'r adrannau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu gwybodaeth gan awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir ac mewn perthynas â disgyblion unigol, yn y drefn honno.

5. Gwneir y Rheoliadau o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

6. Ar adeg pan fo pob un ohonom yn ymateb i bandemig y coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn gallu cydymffurfio â rhai gofynion adrodd statudol. Gallant hefyd osod baich gweinyddol anghymesur ar y sawl sy'n gyfrifol.

7. Mae Rheoliadau Llacio Gofynion Adrodd Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn dod â'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i rym sydd:

   - Yn dirymu **Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011**.

   - Yn diwygio **Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011**.

   - Yn diwygio **Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**.

- Yn diwygio **Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011**.

- Yn diwygio **Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**.

***Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Targed")***

8. Mae'r Rheoliadau Targed yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion bennu a chyhoeddi targedau y cytunwyd arnynt gan awdurdodau lleol. O ganlyniad i'r ffaith bod ysgolion wedi'u cau a'r amharu ar asesiadau, profion ac arholiadau, bydd manylion cyrhaeddiad a phresenoldeb eleni naill ai ddim ar gael neu ni ellir cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol. Mae'n amhriodol i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion adrodd yn erbyn targedau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 na phennu targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn seiliedig ar y canlyniadau hyn. Mae angen dirymu'r Rheoliadau Targed er mwyn sicrhau y gall ysgolion ymgymryd â'u gwaith o hunanwerthuso a blaen-gynllunio ar gyfer 2020/21 yn briodol ac yn effeithiol, o ystyried yr amgylchiadau presennol. Mae'r cylch pennu targedau, fel y'i rhagnodir gan y Rheoliadau Targed, yn digwydd dros gyfnod o dair blynedd. Mae goblygiadau'r amharu presennol ar ddata perfformiad ac absenoldeb yn effeithio ar adolygu, cadarnhau ac adrodd yn erbyn targedau a bennwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â'r broses o osod, adolygu a chadarnhau targedau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cyflwyno problem benodol o ran diwygio gofynion sy'n bodoli eisoes; ystyrir mai diddymu'r Rheoliadau Targed yw'r unig ateb hyfyw ac ymarferol. Mae trefniadau gwerthuso a gwella yn cael eu datblygu er mwyn cydweddu â'r cwricwlwm newydd a byddant yn pennu'r dull gweithredu o ran blaenoriaethau gwella ysgolion, yn dilyn ymgynghoriad pellach.

***Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adrodd")***

9. Mae'r Rheoliadau Adrodd yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid lunio adroddiad ar gyflawniadau addysgol disgyblion, bob blwyddyn ysgol, a sicrhau ei fod ar gael i bob rhiant neu ddisgybl sy'n oedolyn. Ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20, bydd rhywfaint o'r wybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, naill ai ddim ar gael, ddim yn ystyrlon neu'n cael ei hystyried yn amhriodol. Gall hefyd fod yn anodd i benaethiaid lunio adroddiadau cyn diwedd y flwyddyn academaidd, neu wneud hynny'n ysgrifenedig. Cynigir y caiff y Rheoliadau Adrodd eu diwygio ar sail "ymdrechion rhesymol". Mae hyn yn golygu y dylid ystyried bod angen trin unrhyw ddyletswyddau y mae'r Rheoliadau Adrodd yn eu gosod ar benaethiaid o ran adroddiadau sy'n ymwneud â blwyddyn ysgol 2019/20 fel rhai wedi'u cyflawni, os yw'r pennaeth wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd. Yr eithriad i'r "ymdrechion rhesymol" yw rheoliad 5(1) o'r Rheoliadau Adrodd, sef **y gofyniad i ddarparu adroddiad i**

**ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol, sy'n parhau'n ddyletswydd absoliwt**, fel nad yw'r cohort hwn o ddysgwyr o dan anfantais eleni. Blwyddyn ysgol ("school year") yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl mis Gorffennaf ac sy'n dod i ben â dechrau'r tymor cyntaf o'r fath i ddechrau ar ôl y mis Gorffennaf canlynol (adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996).

***Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion")***

10. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi prosbectws ysgolion cyfansawdd ac i ysgolion gyhoeddi eu prosbectws unigol eu hunain, ac mae'n nodi'r wybodaeth sydd angen i'r ysgolion ei chynnwys. Cynigir y gwneir darpariaeth i beidio â chyhoeddi data ar absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig mewn perthynas â blwyddyn ysgol 2019/2020 mewn unrhyw brosbectws ysgol.

***Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol")***

11. Mae'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion lunio adroddiad blynyddol, yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yr ysgol yn erbyn targedau a gyhoeddir. Er y bydd cyrff llywodraethu yn gallu llunio adroddiad o hyd, byddai'n amhriodol i adroddiadau gynnwys data mewn perthynas â blwyddyn ysgol 2019/20 a chynnwys data perfformiad a phresenoldeb, am na ellir eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Cynigir y caiff y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol eu diwygio er mwyn addasu cynnwys yr adroddiadau a luniwyd mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2019/20 fel nad yw'r wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad gan lywodraethwyr yr ysgol. **Bydd dyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu i lunio adroddiad yn parhau.**

12. Gwybodaeth i'w datgymhwyso/ei heithrio mewn perthynas â'r ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20:
    - y Crynodeb diweddaraf o Berfformiad Ysgol Uwchradd;
    - nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol;
    - unrhyw wybodaeth mewn perthynas â thargedau perfformiad ac absenoldeb, gan gynnwys gwelliannau sydd wedi'u pennu gan y corff llywodraethu mewn perthynas â pherfformiad dysgwyr, neu ar gyfer gostwng lefelau absenoldeb.

***Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformiad")***

13. Mae'r Rheoliadau Perfformiad yn darparu ar gyfer adrodd ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac arholiadau (o ysgolion a chyrff llywodraethu i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru). Gwelwyd cryn dipyn o amharu ar y gwaith o ymgymryd ag asesiadau athrawon y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol yn ystod tymor yr haf 2019/20, gan fod ysgolion wedi cau, a

chafodd y dasg o gasglu data statudol cysylltiedig Llywodraeth Cymru ei ganslo. Felly, argymhellir y caiff diwygiadau eu gwneud er mwyn dileu'r dyletswyddau ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ddarparu data, y naill i awdurdodau lleol, a'r llall i Weinidogion Cymru, ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac absenoldebau awdurdodedig neu anawdurdodedig ar gyfer data mewn perthynas â blwyddyn ysgol 2019/20. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar fesurau perfformiad ysgolion 2019/20, ac ni fydd yn eu cynnwys yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ('pecynnau data') na'u cyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol. Fodd bynnag, bydd angen i ni gadw'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gael canlyniadau cymwysterau a gymeradwywyd, at ddibenion eraill nad ydynt yn gysylltiedig â pherfformiad ysgol nac atebolrwydd yr ysgol.

14. Cafodd diben y newidiadau deddfwriaethol hyn, a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael, eu cyfleu i randdeiliaid ym mis Mai, i roi cyngor amserol cyn ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd.

**Ymgynghori**

15. Cynhaliwyd ymgynghoriad tair wythnos ar y newidiadau deddfwriaethol rhwng 22 Mehefin a 10 Gorffennaf 2020. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, llywodraethwyr ysgolion a'r undebau athrawon.

16. Cafwyd 50 o ymatebion ac roedd mwyafrif clir yn cytuno â'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Nid ystyriwyd bod angen unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau drafft. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/llacior-gofynion-adrodd-mewn-ysgolion.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

17. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r diwygiadau hyn.

18. Oherwydd y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae angen rhoi'r Rheoliadau ar waith yn gyflym er mwyn cael gwared â beichiau amhriodol neu anymarferol ar ysgolion ac awdurdodau lleol mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

# SL(5)585 – The Coronavirus Act 2020 (Assured Tenancies and Assured Shorthold Tenancies, Extension of Notice Periods) (Amendment) (Wales) Regulations 2020

## Background and Purpose

These Regulations temporarily extend from three months to six months the notice periods that landlords must give tenants under section 8(4A) or (4B) of the Housing Act 1998 ("the 1998 Act") (notice of proceedings for possession: assured tenancies), and under section 21(1) or (4) of the 1998 Act (recovery of possession on expiry of assured shorthold tenancy). These notice periods had already been extended to three months by Schedule 29 to the Coronavirus Act 2020.

## Procedure

Negative.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following three points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

We note the breach of the 21-day rule (i.e. the rule that 21 days should pass between the date a "made negative" instrument is laid before the Senedd and the date the instrument comes into force), and the explanation for the breach provided by Rebecca Evans MS, Minister for Finance and Trefnydd, in a letter to the Llywydd dated 23 July 2020 that:

> *There is an urgent need to ensure that the number of tenants under threat of eviction from their homes is kept as low as possible, so as to continue with the containment of Coronavirus, ease the burden on frontline staff, and ensure tenants are provided with appropriate support. The Regulations make an important contribution to meeting that urgent need and therefore come into force on the day after the day on which they are made.*

Whilst we recognise that a number of measures have had to be put in place urgently during the Coronavirus pandemic, we are not clear why these Regulations in particular had to come into force so urgently as to breach the 21-day rule when the Welsh Ministers have had the power to make such regulations since 25 March 2020 (when the Coronavirus Act 2020 was passed).

**2. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

These Regulations engage a landlord's rights under Article 1 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights ("A1P1"). A1P1 states:

*Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.*

*The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.*

The Regulations increase, in certain cases, the notice period that a landlord must give a tenant from three months to six months. The effect of the amendments therefore is to restrict a landlord's use and enjoyment of their property for an additional three months. A1P1 is a qualified right and so controlling the landlord's use of their property is permitted if it is deemed necessary in the general interest.

In considering whether an interference is justified, the State must show that the regulations have a legitimate aim sufficient to justify the limitation of landlords' rights, that the regulations are rationally connected to that aim, that a less intrusive measure couldn't be used, and that there is a reasonable relationship of proportionality between the means employed to achieve that aim, and the aim pursued.

It is concerning that there is no analysis in the Explanatory Memorandum ("EM") of landlords' A1P1 rights and how interference with these rights is justifed. In the absence of such justification these Regulations run the real risk of breaching A1P1 rights. The timing of the introduction of these Regulations, coupled with the fact that restrictions are being eased in other parts of the housing sector is a real concern. Whilst the aims behind these Regulations can be ascertained from the EM (containing and slowing the virus, easing the burden on frontline staff and supporting people), the Welsh Government is asked to justify how these Regulations are proportionate to achieving those aims.

In particular, how does the Welsh Government justify interfering with landlords' A1P1 rights when:

1. they have had the power to put these measures in place since 25 March 2020, but did not do so when the incidence and spread of coronavirus was much higher;
2. other restrictions that were put in place to deal with the Coronavirus pandemic are being eased; and
3. restrictions are being lifted in the housing market allowing estate agents to open and for house viewings and house sales to take place, which seems at odds with the policy pursued in these Regulations?

**3. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

Whilst the Welsh Government have not been able to carry out a quantified regulatory impact assessment, the EM provides an assessment of the likely qualitative impacts of the Regulations. However, these Regulations were laid late on 23 July 2020 and came into force on 24 July 2020 giving landlords only a matter of hours notice of this substantive change to the law and their rights. The Committee are concerned that the lack of consultation and the absence of a quantified regulatory impact assessment further undermines any justification that these Regulations represent a proportionate response by the Welsh Government.

## Implications arising from exiting the European Union

No implications are identified for reporting.

## Government Response

A Welsh Government response is required to the three merits points raised.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**30 July 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 778 (Cy. 172)

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf") mewn cysylltiad â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr yng Nghymru. Maent yn diwygio paragraff 6(c) a (d) a pharagraff 7(a) a (b) o Atodlen 29 i'r Ddeddf er mwyn estyn y cyfnod hysbysu y mae rhaid i landlord ei roi i denant o dan adran 8(4A) neu (4B) ac adran 21(1) neu (4) o Ddeddf Tai 1988 ("Deddf 1988").

Yn rhinwedd paragraffau 6 a 7 o Atodlen 29 i'r Ddeddf, mae'r cyfnodau hysbysu estynedig yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae "relevant period" wedi ei ddiffinio ym mharagraff 1 o Atodlen 29 i'r Ddeddf a chaniateir i Weinidogion Cymru ei ddiwygio o ran Cymru.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r cyfnodau a nodir ym mharagraff 6(c) a (d) a pharagraff 7(a) a (b) o Atodlen 29 i'r Ddeddf fel bod y cyfnod hysbysu y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 8(4A) neu (4B) ac adran 21(1) neu (4) o Ddeddf 1988 wedi ei estyn o dri mis i chwe mis. Mae'r cyfnod hysbysu estynedig yn gymwys i hysbysiadau a roddir o dan adran 8(4A) neu (4B) ac adran 21(1) neu (4) o Ddeddf 1988 ar y dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym neu wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r cyfnodau hysbysu a nodir ym mharagraff 11(a) a (b) o Atodlen 29 i'r Ddeddf. Effaith hyn yw ei gwneud yn ofynnol i'r cyfeiriadau perthnasol yn Ffurflen 3 yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol (Ffurflenni) 1997, a ddefnyddir wrth

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gyflwyno hysbysiad o dan adran 8 o Ddeddf 1988, gael eu darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at 6 mis.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 778 (Cy. 172)

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Gorffennaf 2020* |
| *Gosodwyd gerbron* | |
| *Senedd Cymru* | *23 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym* | *24 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 13(1) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020**

**2.**—(1) Mae Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 6, yn is-baragraffau (c) a (d), ar ôl ""three months"" mewnosoder "in relation to a dwelling-house in England and "six months" in relation to a dwelling-house in Wales".

(3) Ym mharagraff 7—

(**1**) 2020 p. 7. Cyflwynir Atodlen 29 gan adran 81 o'r Ddeddf. Yn rhinwedd paragraff 1(3)(b) o Atodlen 29, Gweinidogion Cymru yw'r "relevant national authority" o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "“three months’”" mewnosoder “in relation to a dwelling-house in England and “six months’” in relation to a dwelling-house in Wales”;

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl "“three months”" mewnosoder “in relation to a dwelling-house in England and “six months” in relation to a dwelling-house in Wales”.

(4) Ym mharagraff 11—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "“3 months”" rhodder "“6 months”";

(b) yn is-baragraff (b)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "“3 months”" rhodder "“6 months”", a

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "“three months”" rhodder "“six months”".

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
*21 Gorffennaf 2020*

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
23 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn, dros dro, y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi i denantiaid o dan adran 8(4A) neu (4B) o Ddeddf Tai 1988, ac o dan adran 21(1) neu (4) o’r Ddeddf honno, a hynny o dri mis i chwe mis.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Mae angen dybryd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bobl dan fygythiad uniongyrchol o gael eu troi allan o'u cartrefi, er mwyn cyfrannu at y mesurau sydd eisoes ar waith i ymateb i’r feirws. Felly, daw'r Rheoliadau i rym drannoeth y diwrnod y cânt eu gwneud ac nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai Rheoliadau ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl eu gosod. Bydd hyn yn lleihau nifer yr hysbysiadau adennill meddiant â chyfnod hysbysu o ddim ond tri mis y gellir eu cyflwyno, ac felly bydd yn helpu i leihau'r risg o ragor o bobl yn cael eu troi allan yn ystod y pandemig.

2.2 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y’i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006), hysbyswyd y Llywydd y daw’r Rheoliadau i rym lai nag 21 diwrnod o’r diwrnod y cânt eu gwneud.

2.3 Er bod y Rheoliadau’n gymwys yn y dyfodol (h.y. ar y dyddiad y daw’r newidiadau i rym, neu ar ôl hynny) mae elfen ôl-weithredol yn perthyn i’r Rheoliadau drwy’r ffaith bod y cyfnodau hysbysu mewn tenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr presennol yn cael eu newid dros dro. Fodd bynnag, bydd y cyfnod hysbysu estynedig yn berthnasol i hysbysiadau a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, neu ar ôl hynny.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan baragraff 13(1) Atodlen 29 Deddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020").

3.2 Mae Adran 81 ac Atodlen 29 Deddf 2020 yn oedi pa bryd y caiff landlordiaid droi tenantiaid allan, naill ai drwy ddiwygio'r cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei gyflwyno i denant i 3 mis o leiaf neu, mewn rhai achosion, creu gofyniad hysbysu o dri mis lle nad oes gofyniad o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Mae hysbysiadau a gyflwynir mewn cysylltiad â thenantiaethau gwarchodedig, tenantiaethau statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau sicr, tenantiaethau byrddaliadol sicr, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd yn ystod y “cyfnod perthnasol” yn ddarostyngedig i gyfnod hysbysu estynedig. Mae'r cyfnod perthnasol yn

dod i ben ar 30 Medi 2020, ond gellir ei ymestyn gan yr "awdurdod cenedlaethol perthnasol" (sef Gweinidogion Cymru yng nghyswllt Cymru).

3.3 Mae Atodlen 29 yn berthnasol i bob landlord sydd wedi rhoi tenantiaeth o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 ac 1996. O ran hysbysiadau a gyflwynir mewn cysylltiad â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau sicr, tenantiaethau byrddaliadol sicr, tenantiaethau rhagarweiniol ac isradd, rhaid i'r cyfnod hysbysu fod yn dri mis o leiaf.

3.4 Mae'r mwyafrif helaeth o denantiaethau cyfredol a roddir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid preifat yn dod o dan Ddeddf Tai 1988 ("Deddf 1988"). O ran Deddf 1988, mae hysbysiadau cymryd meddiant y mae darpariaethau Atodlen 29 Deddf 2020 yn berthnasol iddynt yn cynnwys y rheini a gyhoeddir o dan adran 8 ac adran 21.

3.5 Mae paragraff 13 yn Atodlen 29 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid cyfeiriad at dri mis yn Atodlen 29 i gyfeiriad at chwe mis neu i gyfeiriad at unrhyw gyfnod penodol arall sy'n llai na chwe mis, neu i newid cyfeiriad sydd wedi cael ei newid yn rhinwedd paragraff (a) neu (b) ond nid os yw hynny'n golygu y cyfeirir at gyfnod penodol o fwy na chwe mis (paragraff 13(1)(b)). Ni fwriedir i'r diwygiadau yn Atodlen 29 fod yn newidiadau parhaol a bydd y broses yn dychwelyd i'r sefyllfa bresennol pan fydd y cyfnod penodedig wedi dod i ben. Mae'r cyfnod a bennir yn dod i ben ar 30 Medi, fodd bynnag, gellir pennu dyddiad diweddarach.

3.6 Mae paragraff 14(1)(b) yn Atodlen 29 yn datgan y caiff rheoliadau dan Atodlen 29... “gael eu harfer er mwyn gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu i ardaloedd gwahanol,..”. Mae paragraff 14(3) yn datgan bod offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau Gweinidogion Cymru o dan baragraff 13 yn ddarostyngedig i’w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (h.y. y weithdrefn penderfyniad negyddol).

3.7 Bydd y cyfnod hysbysu chwe mis yn berthnasol i hysbysiadau adennill a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, neu ar ôl hynny.

## 4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae’r Rheoliadau’n diwygio’r cyfnodau hysbysu a nodir ym mharagraff 6(c) a (d) a pharagraff 7(a) a (b) o Atodlen 29 i Ddeddf 2020 fel bod y cyfnod hysbysu y mae’n rhaid ei roi o dan adran 8(4A) neu (4B) ac adran 21(1) neu (4) o'r Ddeddf Tai yn cael ei ymestyn o dri mis i chwe mis.

4.2 Yn y cyfnod ers cychwyn Deddf y Coronafeirws 2020, mae wedi dod i'r amlwg bod yr argyfwng iechyd y cyhoedd a'i effeithiau yn debygol o bara am fisoedd lawer ac y bydd cyfyngiadau parhaus ar nifer o agweddau ar fywyd arferol.  Bwriad ymestyn, ar sail dros dro i chwe mis, y cyfnod

hysbysu y mae'n rhaid ei roi mewn cysylltiad â hysbysiadau a gyhoeddir o dan adran 21(1) neu (4) o Ddeddf Tai 1988, a hysbysiadau a gyhoeddir dan adran 8 (gan fanylu unrhyw un o'r seiliau o dan isadrannau (4A) neu (4B)) o'r Ddeddf honno, yw cefnogi tri o nodau cyffredinol Deddf y Coronafeirws, sef:

- cyfyngu ac arafu'r feirws
- lleihau'r baich ar staff rheng flaen; a,
- chefnogi pobl.

4.3 Bydd yr estyniad dros dro yn cefnogi'r tri nod hyn drwy wneud y canlynol:

- **Llai o bobl yn symud tŷ -** Byddai angen i lai o bobl symud tŷ, a byddai llai o bobl yn cael eu troi allan o'u cartrefi yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus. Mae chwilio am dŷ newydd a symud iddo yn debygol o gynnwys mwy nag un rhyngweithiad â phobl o'r tu allan i aelwyd uniongyrchol person, sy'n golygu bod risg uwch o drosglwyddo'r feirws. Gallai hefyd drosglwyddo'r feirws rhwng ardaloedd, oherwydd mae'n bosib y bydd yn rhaid i bobl deithio y tu allan i'w ardal leol er mwyn dod o hyd i dŷ newydd a symud iddo. Os daw person yn ddigartref, mae posibilrwydd uwch y bydd yn dod i gysylltiad â'r feirws ac yn ei ledaenu (*"cyfyngu ac arafu'r feirws"*). Hyd yn oed pan nad ydy hynny'n digwydd, mae agweddau ar ddigartrefedd yn peri risg i iechyd y cyhoedd, ac mae rhinweddau'n perthyn i unrhyw gamau i wrthsefyll y risg honno.

- **Llai o bwysau ar wasanaethau -** Byddai llai o bobl yn cael eu troi allan i ddigartrefedd, neu mewn perygl o gael eu troi allan i ddigartrefedd, ar adeg pan mae awdurdodau lleol yn llai tebygol o allu ymateb i'r sefyllfaoedd hyn o ganlyniad i'r pwysau mae'r coronafeirws wedi'i roi ar wasanaethau gan gynnwys dod o hyd i gartrefi addas i'r rhai sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Bydd tynnu adnoddau i ffwrdd o agweddau hollbwysig eraill ar ymateb awdurdodau lleol i risg Covid-19 i iechyd y cyhoedd, yn lleihau effeithiolrwydd yr ymateb hwnnw o bosibl ("*lleihau'r baich ar staff rheng flaen*");

- **Mwy o ddiogelwch a llai o bryder -** Bydd y rhai sy'n rhentu eu cartrefi dan fathau penodol o denantiaethau llai diogel yn elwa ar gael gwybod na fyddant yn wynebu bygythiad cael eu troi allan ar fyr rybudd. Yn ogystal â mwy o ddiogelwch, bydd hyn yn lleihau lefelau gorbryder ymysg tenantiaid sydd mewn sawl achos yn cael eu heffeithio'n barod mewn ffyrdd eraill gan ansicrwydd parhaus y coronafeirws ("*cefnogi pobl*"). Mae mantais amlwg i iechyd y cyhoedd drwy leihau pryder yn y boblogaeth gyffredinol, ac mae'n lleihau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ("*lleihau''r baich ar staff rheng flaen"*); a,

- **Mwy o le i gefnogi unigolion sydd mewn perygl o gael eu troi allan -** Byddai ymestyn y cyfnodau hysbysu i chwe mis hefyd yn rhoi amser ychwanegol i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda'i gilydd i bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent a allai gronni o ganlyniad i'r coronafeirws ("cefnogi pobl").

**Cyfyngiadau**

4.4 Byddai sicrhau'r buddiannau gorau posibl o ymestyn cyfnodau hysbysu yn golygu ymestyn **pob** cyfnod hysbysu sydd yn Atodlen 29 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 i chwe mis. Fodd bynnag, yn yr achosion lle mae tenantiaid yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol mae manteision gwneud hynny yn llai am eu bod yn effeithio ar iechyd a lles y bobl o'u cwmpas, hynny yw, y gymuned leol. Mae'r effaith niweidiol honno'n debygol o roi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn ddiweddarach, er enghraifft, drwy landlordiaid awdurdod lleol yn gorfod cymryd camau i ailgartrefu cymdogion y rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

4.5 O ystyried y ffaith y byddai ymddygiad o'r fath a'r niwed mae'n ei achosi'n tanseilio tri nod cyffredinol Deddf y Coronafeirws fel y nodir uchod, byddai'n amhriodol ymestyn cyfnodau hybysu ymhellach mewn achosion lle mae ymddygiad o'r fath yn sail dros feddiannu eiddo.

4.6 Yn achos tenantiaethau diogel, gwarchodedig a statudol, nid yw'n bosibl gwahanu'r seiliau ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w gwneud yn ddarostyngedig i gyfnod hysbysu gwahanol. Yn achos tenantiaethau isradd a rhagarweiniol, gall hysbysiadau heb fanylu'r seiliau gael eu cyflwyno er hynny oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol tenant. O ystyried y niwed posibl a achosir wrth ymestyn cyfnodau hysbysu sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, bydd y cyfnodau hysbysu ar gyfer y tenantiaethau hyn yn aros yr un fath.

4.7 Mewn perthynas â thenantiaethau sicr, nid yw'r rheoliadau'n diwygio paragraffau 6(a) a (b) o Atodlen 29 i Ddeddf 2020 sy'n ymwneud â Seiliau 7A a 14 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 (y seiliau gorfodol ar gyfer tramgwyddau difrifol/ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r seiliau niwsans ac annifyrrwch) ac mae'r cyfnod hysbysu yn parhau i fod yn dri mis pan fydd y seiliau hyn yn cael eu nodi.

4.8 Mewn perthynas â thenantiaethau byrddaliadol sicr, nid yw'r hysbysiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r landlord ddangos unrhyw fai ar ran y tenant ar ôl chwe mis – felly ni fyddai unrhyw sail ymddygiad gwrthgymdeithasol benodol (oni cheisir meddiant ar y sail honno o fewn y cyfnod penodol) i'w hystyried - a byddai ymestyn y cyfnod hysbysu yn cyfrannu'n uniongyrchol at fanteision ymestyn hysbysiadau fel y nodwyd yn rhif 3 uchod.

4.9 Gan ystyried yr uchod i gyd, bydd y Rheoliadau'n ymestyn y cyfnod hysbysu o dri mis i chwe mis ar gyfer tenantiaethau sicr lle bydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno o dan adran 8 o dan y seiliau yn isadrannau (4A) neu (4B), hynny yw lle mae'r seiliau canlynol yn cael eu nodi:

Sail 1 - Mae'r landlord yn berchen-feddiannydd blaenorol neu angen defnyddio'r eiddo fel cartref

Sail 2 - Tenantiaeth yn ddarostyngedig i Sail 1 a'r benthyciwr yn meddiannu

Sail 2A - Mae'r benthyciwr yn gymdeithas tai cwbl gydfeddiannol

Sail 3 - Mae'r eiddo yn llety gwyliau y tu allan i'r tymor

Sail 4 - Mae'r eiddo yn llety myfyrwyr sy'n cael ei osod i bobl sydd ddim yn fyfyrwyr

Sail 5 - Llety ar gyfer Gweinidog yr Efengyl

Sail 6 - Mae'r landlord yn dymuno dymchwel neu ailadeiladu'r eiddo

Sail 7 - Mae'r tenant yn marw ac nid oes hawl i olynu

Sail 8 - Sail ôl-ddyledion rhent gorfodol

Sail 9 - Mae llety arall ar gael

Sail 10 - Ôl-ddyledion rhent

Sail 11 - Oedi parhaus wrth dalu rhent

Sail 12 - Torri cytundeb tenantiaeth mewn ffordd arall

Sail 13 - Mae'r tenant wedi peri difrod i'r eiddo

Sail 14A - Mae trais domestig wedi arwain at y partner yn gadael yr eiddo

Sail 15 - Mae'r tenant wedi peri dirywiad i'r dodrefn

Sail 16 - Llety yn gysylltiedig â chyflogaeth

Sail 17 - Rhoddwyd y denantiaeth ar sail datganiad ffug

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ymestyn y cyfnod hysbysu ar gyfer tenantiaethau byrddaliadol sicr pan fydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno o dan adran 21(1) neu (4) o Ddeddf Tai 1988.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 O ganlyniad i'r argyfwng, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statudol i wneud hynny.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae argyfwng COVID-19 a'r brys i baratoi'r Rheoliadau hyn yn golygu nad oedd hi'n bosibl paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol meintioledig. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn darparu disgrifiad ansoddol o'r effeithiau tebygol.

**Opsiynau**

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud Dim – ac os felly byddai'r holl gyfnodau hysbysu a nodir yn Atodlen 29 Deddf y Coronafeirws fel tri mis yn parhau i fod yn dri mis ar gyfer hysbysiadau a gyflwynir yn ystod y "cyfnod perthnasol" sef y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Medi 2020.

Opsiwn 2: Cynyddu'r cyfnodau hysbysu ar gyfer pob tenantiaeth i chwe mis – ac os felly byddai'r rheoliadau'n ymestyn i chwe mis y cyfnodau hysbysu ar gyfer pob tenantiaeth yn Atodlen 29, sy'n ymestyn y cyfnodau hysbysu i dri mis.

Opsiwn 3: 2020: Cynyddu'r cyfnodau hysbysu ar gyfer tenantiaethau ac eithrio'r rhai a fyddai'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu a allai ymwneud â hynny.

**Costau a Manteision**

**Opsiwn 1: Gwneud Dim**

Nid oes costau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Opsiwn 2: Cynyddu'r cyfnodau hysbysu ar gyfer pob tenantiaeth i chwe mis**

Disgwylir mai bach iawn fydd y costau gweinyddol a phontio i landlordiaid yn sgil ymestyn y cyfnod hysbysu byrraf ar gyfer hysbysiadau o dri mis i chwe mis. Pan fydd landlord yn ceisio meddiant eiddo ar sail ôl-ddyledion rhent, fodd bynnag, mae costau ychwanegol o bosibl yn deillio o'r oedi o dri mis ychwanegol cyn y gallai'r landlord gyflwyno hawliad i'r llys a'r ôl-ddyledion a allai gronni yn ystod y cyfnod hwnnw. Ochr yn ochr â hyn yw'r ffaith y bydd yr oedi ychwanegol hwn yn caniatáu mwy o amser i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda'i gilydd i

bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent. Yn ogystal â hynny, efallai y bydd arbedion i awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n rhoi cefnogaeth i unigolion sy'n wynebu cael eu troi allan o’u cartrefi, a hynny ar ffurf lleihad dros dro yn eu llwyth achosion, gan ganiatáu iddynt ailgyfeirio adnoddau.

Byddai costau mwy sylweddol o ganlyniad i gynyddu'r holl gyfnodau hysbysu i chwe mis yn deillio o’r niwed ychwanegol a allai gael ei achosi gan denantiaid sy’n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Fel y disgrifiwyd eisoes, byddai’r effaith y gallai hyn ei chael ar y rhai o'u cwmpas yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, drwy landlordiaid awdurdod lleol yn gorfod cymryd camau i ailgartrefu cymdogion y rhai sy’n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Felly, byddai costau ychwanegol ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus ar adnoddau ariannol yn ogystal â llesiant y gymuned leol. O ganlyniad, nid yw manteision cynyddu’r holl gyfnodau hysbysu i chwe mis yn fwy na’r costau.

**Opsiwn 3: Cynyddu’r cyfnodau hysbysu ar gyfer pob tenantiaeth ac eithrio’r rhai a fyddai’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu a allai ymwneud â hynny**

Yn yr un modd ag opsiwn 2, disgwylir mai bach iawn fydd y costau gweinyddol a phontio i landlordiaid, ond mae costau ychwanegol posibl yn deillio o’r oedi o dri mis ychwanegol cyn y gallai gyflwyno hawliad i’r llys mewn perthynas ag achosion o ôl-ddyledion rhent. Unwaith eto, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei liniaru gan yr amser ychwanegol fydd ar gael i drefniadau i gynorthwyo tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent ac efallai y bydd arbedion i’r rhai sy'n darparu cymorth i unigolion sy'n wynebu cael eu troi allan o’u cartrefi.

Y prif wahaniaeth o’i gymharu ag opsiwn 2, yw nad yw’r effaith negyddol ar lesiant y gymuned yn codi o dan opsiwn 3 ynghyd â’r costau ariannol sy’n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ganlyniad, ystyrir bod manteision gweithredu’r opsiwn hwn yn amlwg yn fwy na’r costau.

**Asesiad o’r Gystadleuaeth**

6.2 Nid yw wedi bod yn bosibl cyflawni asesiad llawn o'r gystadleuaeth mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae’r newidiadau yn gymwys i bob landlord sy'n rhentu eiddo fel cartref. Yn sgil gweithredu’n gyffredinol fel hyn, ni ddisgwylir y bydd yn arwain at unrhyw newidiadau i strwythur cyffredinol na maint y sector rhentu preifat. Yn ogystal â hynny, ni ddisgwylir unrhyw newid o ran cystadleurwydd busnesau, y sector gwirfoddol ac elusennau. O’r herwydd, nid oes unrhyw risg o effaith andwyol ar gystadleuaeth.

**Profion ar gyfer Effeithiau Penodol**

6.3 *Cyfleoedd cyfartal*

Nid yw'r darpariaethau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n rhannu unrhyw rhai o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl y bydd ymestyn cyfnodau hysbysu'r adran i chwe mis yn arbennig o fuddiol i unigolion agored i niwed a allai, fel arall, fod mewn perygl o gael eu troi allan pan nad ydynt wedi torri telerau eu tenantiaeth ac yn gorfod dod o hyd i lety arall ar fyr rybudd yn ystod yr argyfwng iechyd y cyhoedd presennol. Mae’r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn debygol o gael cynrychiolaeth anghyfrannol ymysg y rhai sy’n byw yn y sector rhentu preifat ac felly'n agored i gael eu troi allan o’u cartrefi, e.e. rhai grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

6.4 *Hawliau plant*

Nid nodwyd unrhyw wrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes disgwyl i unrhyw effeithiau andwyol ar blant a phobl ifanc godi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Ac ystyried bod cyfran sylweddol o'r aelwydydd yn y sector rhentu yn deuluoedd â phlant dibynnol, mae'n bosibl y bydd cyfnod hysbysu o chwe mis yn hytrach na thri mis yn helpu i leihau'r amhariad ar blant yn sgil symud tŷ – gan gynnwys gorfod newid ysgol o bosibl – drwy roi rhagor o amser i rieni ddod o hyd i lety arall addas gerllaw, neu ddigon o amser i wneud trefniadau ar gyfer symud yn bellach i ffwrdd lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol.

6.5 *Y Gymraeg*

Ni ddylai'r Rheoliadau hyn achosi unrhyw effeithiau andwyol o ran llesiant diwylliannol neu'r Gymraeg.

6.6 *Llywodraeth Leol*

Mae'n bosibl y caiff y Rheoliadau hyn effaith gadarnhaol gyfyngedig ar awdurdodau lleol os bydd y galw ar wasanaethau digartrefedd mewn argyfwng yn lleihau oherwydd bod llai o hysbysiadau adennill meddiant yn cael eu cyflwyno, a hefyd oherwydd dylai cyfnod hysbysu hwy roi rhagor o amser i'r rheini sy'n cael hysbysiad adennill meddiant ddod o hyd i lety arall eu hunain heb droi at wasanaethau digartrefedd.

6.7 *Effeithiau economaidd*

Fel yr amlinellir uchod, bydd landlordiaid yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd tenant yn peidio â thalu rhent neu'n torri telerau ei denantiaeth fel arall, a bydd benthycwyr yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd y landlord yn peidio â thalu'r morgais, ond mae costau ychwanegol posibl iddynt yn deillio o’r oedi o dri mis ychwanegol. Fodd bynnag, gallai’r amser ychwanegol i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda’i gilydd i bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent wrthbwyso’r effaith ariannol. Felly, dylai unrhyw effaith economaidd negyddol fod yn fach iawn. Mewn termau economaidd mwy cyffredinol, efallai y bydd y sicrwydd deiliadaeth uwch a ddarperir yn sgil y cyfnodau hysbysu

estynedig yn cael effeithiau buddiol. Er enghraifft, gallai sicrhau bod tenantiaid mewn amgylchiadau mwy sefydlog, a gwella eu gallu i gael gwaith neu i ddal gafael arno.

6.8 *Effaith ar Breifatrwydd*
Nid yw'r Rheoliadau hyn yn creu unrhyw ofynion newydd mewn cysylltiad â phreifatrwydd neu rannu gwybodaeth.

6.9 *Prawfesur gwledig*
Bydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i gartrefi sy'n cael eu rhentu gan bobl mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. O ganlyniad, ni fydd yr effeithiau – na'r manteision – yn wahanol i ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol.

6.10 *Iechyd a llesiant*
Yn ogystal â'r manteision ehangach i iechyd y cyhoedd a fyddai'n codi o leihad yn nifer yr aelwydydd sy'n gorfod adleoli yn ystod y pandemig, cydnabyddir yn eang bod tai diogel o ansawdd da yn benderfynydd arwyddocaol o iechyd a llesiant cyffredinol unigolion. Felly, dylai'r Rheoliadau hyn gefnogi iechyd a llesiant tenantiaid unigol drwy roi sicrwydd na fyddant yn cael eu troi allan ar fyr rybudd yn ystod y pandemig.

6.11 *Effaith ar y System Gyfiawnder*
Disgwylir i effaith net y newidiadau sy'n deillio o’r ddeddfwriaeth hon, ochr yn ochr â pholisi Llywodraeth Cymru ar leihau hawliadau meddiant landlordiaid cymdeithasol, fod yn niwtral neu hyd yn oed yn bositif ar y sail y byddai caniatáu mwy o amser i denantiaid ddatrys problemau ariannol yn arwain at lai o achosion ôl-ddyledion rhent yn mynd i’r llys.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-JJ-2224-20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rydw i'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod cyflwyno gerbron. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau wedi'i atodi er gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio paragraffau 6, 7 a 11 o Atodlen 29 Deddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") mewn perthynas â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr. Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn cynnwys diwygio'r cyfeiriadau at "dri mis" ym mharagraff 6(a) a (b) a pharagraff 7 Atodlen 29 Deddf y Coronafeirws 2020 i gyfeirio at "chwe mis" mewn perthynas â thŷ annedd yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r cyfnodau hysbysu a nodir ym mharagraff 11(a) a (b) o Atodlen 29 sy'n golygu bod yn rhaid i'r cyfeiriadau perthnasol yn Ffurflen 3 yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol (Ffurflenni) 1977, a ddefnyddir wrth gyflwyno hysbysiad o dan adran 8 o Ddeddf 1988, gael eu darllen fel 6 mis.

Effaith y newidiadau hyn fydd ymestyn dros dro'r cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi i'r canlynol o dri mis i chwe mis (os ydy hysbysiad yn cael ei gyflwyno adeg y daw'r Rheoliadau i rym neu ar ôl hynny):

a) tenantiaid sicr wrth gyflwyno hysbysiad cymryd meddiant o dan adran 8 gan nodi unrhyw un o'r seiliau yn adran 8(4A) neu (4B) o Ddeddf Tai 1998 ("Deddf 1988"); a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

b) tenantiaid byrddaliadol sicr wrth gyflwyno hysbysiad cymryd meddiant o dan adran 21(1) neu (4) o Ddeddf 1988.

Mae angen dybryd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid dan fygythiad o gael eu troi allan o'u cartrefi, er mwyn parhau i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at fodloni'r angen dybryd hwnnw, ac felly byddant yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y byddant yn cael eu gwneud.

Oherwydd yr amserlen frys, ni chafwyd cyfle i ymgynghori'n ystyrlon nac ymgymryd ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Serch hynny, paratowyd Memorandwm Esboniadol sydd wedi'i atodi er gwybodaeth. Mae hwn, ynghyd â'r Rheoliadau, wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambrau; Julian Lake, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth a John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Defnyddio pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020: Cynnydd dros dro yn y cyfnodau hysbysu o dri mis i chwe mis y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi i denantiaid o dan adran 8 (seiliau penodol yn unig) ac adran 21 o Ddeddf Tai 1988** |
| **DYDDIAD** | **23 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** |

Fel rhan o'r gwaith i baratoi ar gyfer Covid-19 ac ymateb iddo, daeth y pedair Llywodraeth yn y DU at ei gilydd i lunio deddfwriaeth frys, gyffredinol. Cafodd Deddf y Coronafeirws 2020 ('Deddf 2020') Gydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth ac mae'n cynnwys ystod o bwerau i Weinidogion Cymru ymateb i ledaeniad y feirws, a'i reoli.

Mewn perthynas â chyfraith tai, mae adran 81 ac Atodlen 29 i Ddeddf 2020 yn gohirio pryd y gall landlord droi tenant allan ond nid yw'n rhwystro landlord rhag cyflwyno hysbysiad ceisio meddiant. Mae'r Atodlen yn berthnasol i bob landlord sydd wedi rhoi tenantiaeth o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 ac 1996. O ran hysbysiadau a gyflwynir mewn cysylltiad â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau sicr, tenantiaethau byrddaliadol sicr, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd, rhaid i'r cyfnod hysbysu fod yn dri mis o leiaf.

Mae paragraff 13(1) o Atodlen 29 i Ddeddf 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (fel yr "awdurdod cenedlaethol perthnasol") i ddiwygio Atodlen 29 i newid cyfeiriad at dri mis i gyfeiriad at chwe mis, neu i gyfeiriad at unrhyw gyfnod penodol arall sy'n llai na chwe mis.

Mae Atodlen 29 yn berthnasol i hysbysiadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod perthnasol, sy'n dod i ben ar 30 Medi ar hyn o bryd. Caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y cyfnod perthnasol y tu hwnt i 30 Medi 2020, gan ddefnyddio'r pŵer a nodir ym mharagraff 1(2) yn Atodlen 29.

Yn ystod y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Deddf 2020, a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2020, ymrwymodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu datganiad cyhoeddus ar bob defnydd o'r pwerau o dan y Ddeddf. Gallaf gadarnhau yn awr fy mod, fel Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, wedi gwneud Rheoliadau

o dan baragraff 13(1) yn Atodlen 29 Deddf 2020. Mae'r Rheoliadau yn cynyddu'r cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi i denantiaid sicr o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1988 (ac eithrio hysbysiadau sy'n nodi Seiliau 7A a 14) ac i denantiaid byrddaliadol sicr o dan adran 21 o'r un Ddeddf, a hynny ar sail dros dro o dri mis i chwe mis.

Pwrpas y newidiadau dros dro hyn yw sicrhau bod landlordiaid yn rhoi rhagor o rybudd i denantiaid dan fygythiad o gael eu troi allan o eiddo rhent cyn i landlordiaid allu cychwyn achos adennill meddiant. Yr effaith fydd rhagor o oedi cyn troi tenantiaid allan yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus; bydd llai o bobl yn wynebu cael eu troi allan i ddigartrefedd ar adeg pan mae awdurdodau lleol yn llai tebygol o allu ymateb i'r sefyllfaoedd hyn; bydd y rhai sy'n rhentu eu cartrefi yn elwa ar fwy o ddiogelwch a llai o bryder; a bydd unigolion sydd mewn perygl o gael eu troi allan yn cael mwy o amser i ofyn am gymorth i ddatrys unrhyw broblemau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i hysbysiadau a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, neu ar ôl hynny.  Yn yr achos hwn ni ddilynwyd y confensiwn na ddylai Rheoliadau ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl eu gosod. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen dybryd i ddarparu gwell sicrwydd deiliadaeth yn ystod y cyfnod hwn, gan gyfrannu at y mesurau sydd eisoes ar waith i ymateb i'r feirws.

Gellir gweld copi o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â nhw yma ac yma.

https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13365/sub-ld13365%20-w.pdf
https://senedd.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document

# SL(5)581 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn i'w gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 13(1)(a) a 201(1) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983"). Mae'r Rheoliadau'n pennu dyddiad diwygiedig o 1 Chwefror 2021 ar gyfer diwedd y cyfnod pan fydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau diwygiedig o gofrestrau etholiadol etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, a hynny'n unol ag adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983. Y dyddiad cau presennol yw 1 Rhagfyr 2020.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi, yn adran 1 o Ran 1, y bydd y Rheoliadau'n "*rhoi dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwblhau canfasiad blynyddol 2020 a chyhoeddi eu cofrestr etholiadol ddiwygiedig er mwyn ystyried effaith y pandemig COVID-19 ar awdurdodau lleol*".

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y dyddiad cau diwygiedig ar gyfer cyhoeddi cofrestrau etholwyr llywodraeth leol oddeutu tri mis cyn etholiad nesaf y Senedd nesaf fel y mae wedi'i drefnu (ar 6 Mai 2021). Yn unol ag adran 12(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i berson fod wedi'i gofrestru ar gofrestr berthnasol etholwyr llywodraeth leol er mwyn bod â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Gorffennaf 2020**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2020 Rhif (Cy. )

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu dyddiad diwygiedig ar gyfer diwedd y cyfnod y mae rhaid i fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr etholiadol o etholwyr llywodraeth leol i'r ardaloedd llywodraeth leol sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru ar gyfer 2020 gael ei chyhoeddi ynddo yn unol ag adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983").

Mae rheoliad 2(1) yn gymwys i gyhoeddi gan swyddog cofrestru (gweler adran 8 o Ddeddf 1983) ar gyfer ardal sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru gofrestr ddiwygiedig o etholwyr llywodraeth leol a gynhelir gan y swyddog hwnnw o dan adran 9(1)(b) o Ddeddf 1983.

Mae rheoliad 2(2) yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r gofrestr honno gael ei chyhoeddi yn 1 Chwefror 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn am eu bod yn gweithredu diwygiad technegol arferol nad yw'n cael unrhyw effaith, neu nad yw'n cael unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2020 Rhif (Cy. )

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 13(1)(a) a 201(1) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**) ("Deddf 1983") ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**).

(**1**) 1983 p. 2. Amnewidiwyd adran 13(1) gan adran 5(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2006 (p. 33). *Gweler* adran 202(1) am ystyr "prescribed". Diwygiwyd adran 201(1) gan baragraff 6(1) a (7)(a) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41). Mewnosodwyd adran 201(3) gan baragraffau 1 ac 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2), ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(d) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

(**2**) Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

(**3**) 2000 p. 41.

Gosodwyd drafft o’r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe’i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 201(2)(**1**) o Ddeddf 1983(**2**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi’r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2020.

(3) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “Deddf 1983” yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

### Dyddiad cyhoeddi’r gofrestr ddiwygiedig ar gyfer 2020

**2.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i’r gofyniad o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983 i swyddogion cofrestru gyhoeddi, ar gyfer y flwyddyn 2020, fersiwn ddiwygiedig o’r gofrestr a gynhelir mewn cysylltiad ag ardaloedd llywodraeth leol sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru o dan adran 9(1)(b) o Ddeddf 1983(**3**).

(2) Y dyddiad ar gyfer diwedd y cyfnod a ddisgrifir yn adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983, sef y cyfnod y mae rhaid i’r gofrestr ddiwygiedig gael ei chyhoeddi ynddo, yw 1 Chwefror 2021.

*Enw*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

(**1**) Mae’r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i’w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**2**) Amnewidiwyd adran 201(2) gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) a pharagraff 69 o Atodlen 4 iddi, ac fe’i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(b) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

(**3**) Amnewidiwyd adran 9 gan baragraffau 1 a 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol a Democratiaeth ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
14 Gorffennaf 2020

**RHAN 1**

**1. Disgrifiad**

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu'r dyddiad cyhoeddi terfynol erbyn pryd y mae rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig o etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru yn dilyn canfasiad blynyddol 2020, yn unol ag adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983"). Mae'r rheoliadau'n symud y dyddiad hwnnw o 1 Rhagfyr 2020 i 1 Chwefror 2021. Mae hyn i bob pwrpas yn rhoi dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwblhau canfasiad blynyddol 2020 a chyhoeddi eu cofrestr etholiadol ddiwygiedig er mwyn ystyried effaith y pandemig COVID-19 ar awdurdodau lleol.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Dim.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae'r gofyniad i gynnal canfasiad blynyddol wedi'i nodi yn adran 9A ('Registration officers: duty to take necessary steps') ac adran 9D ('Maintenance of registers: duty to conduct canvass in Great Britain') o Ddeddf 1983.

Mae adran 9D o Ddeddf 1983 yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr i gynnal canfasiad blynyddol yn yr ardal lle maent yn gweithredu. Diben y canfasiad yw cael enwau a chyfeiriadau personau sydd â hawl i gael eu cofrestru a'r rhai sydd wedi'u cofrestru ond nad oes ganddynt hawl i hynny.

Mae adran 9A o Ddeddf 1983 yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gynnal eu cofrestri a sicrhau, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod pob person sydd â hawl i gael ei gofrestru wedi'i gofrestru. Mae cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn cynnwys anfon y ffurflen ganfasio ac ymweld ag aelwydydd unwaith neu ragor.

Mae adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983 yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'u cofrestr etholiadol wedi i'r canfasiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno ddod i ben a dim hwyrach na 1 Rhagfyr ym mhob blwyddyn, neu erbyn dyddiad hwyrach y gellir ei ragnodi drwy reoliadau. Yr unig eithriad, o dan adran 13(1A) o Ddeddf 1983, yw os digwydd i etholiad gael ei gynnal rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr yn ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd y dyddiad cyhoeddi terfynol ar gyfer y gofrestr etholiadol ddiwygiedig yn newid yn awtomatig i 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Gwneir y rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r canfasiad presennol yn casglu gwybodaeth am ychwanegiadau a newidiadau posibl i'r gofrestr etholiadol, a dileadau posibl ohoni. Ers cyflwyno Cofrestru Etholiadol Unigol yn 2014, rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wahodd darpar etholwyr newydd yn unigol i wneud cais i gofrestru i bleidleisio, a gwirio eu hunaniaeth, cyn y gellir eu hychwanegu at y gofrestr etholiadol. Mae'r broses hon yn digwydd ar wahân i'r canfasiad blynyddol ond mae'n gallu digwydd ar yr un pryd, a dyna sy'n digwydd fel arfer.

Mae canfasio blynyddol yn digwydd yn y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr. Mae'n digwydd yn sgil gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi cofrestr etholiadol ddiwygiedig ar gyfer eu hardal erbyn 1 Rhagfyr. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd etholiad yn cael ei gynnal yn eu hardal rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr, pan gaiff y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig ei ymestyn yn awtomatig i 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol. Mae hyn yn rhoi dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwblhau eu canfasiad a llunio eu cofrestr etholiadol ddiwygiedig.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar waith awdurdodau lleol a thimau gwasanaethau democrataidd, gyda rhai aelodau o staff yn cael eu hadleoli i feysydd lle mae angen cymorth a llawer mwy yn gweithio gartref. Gall y trefniadau hyn ei gwneud yn anodd cyflawni swyddogaethau arferol, gan gynnwys argraffu, derbyn ffurflenni, canfasio dros y ffôn etc. Er bod y broses ganfasio flynyddol wedi cael ei moderneiddio yn ddiweddar, mae rhai elfennau yn parhau i gael eu cwblhau ar bapur ac yn dibynnu ar waith staff mewn timau gwasanaethau etholiadol mewn awdurdodau lleol i anfon a derbyn gohebiaeth bapur.

Mae trefniadau cadw pellter cymdeithasol iechyd y cyhoedd sydd ar waith ar hyn o bryd yn achosi ansicrwydd o ran gallu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ganfasio'n llwyddiannus a chofrestru etholwyr. Diben y rheoliadau hyn yw cydnabod yr effaith y mae COVID-19 yn ei chael a darparu hyblygrwydd drwy ymestyn y dyddiad cyhoeddi terfynol ar gyfer cofrestr etholiadol ddiwygiedig 2020. Bydd hyn yn rhoi rhagor o amser i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal gweithgareddau canfasio, os bydd angen, gan eu galluogi i ystyried teilwra'r amserlen ar gyfer canfasio a chyhoeddi cofrestr etholiadol ddiwygiedig 2020 yn unol â'u hamgylchiadau lleol.

Mae rheoliad 2 yn darparu mai 1 Chwefror 2021 yw'r dyddiad terfynol erbyn pryd y mae rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi'r gofrestr llywodraeth leol ddiwygiedig ar gyfer 2020.

## 5. Ymgynghori

Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adrannau 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Ni wnaeth y Comisiwn Etholiadol argymell unrhyw newidiadau i'r polisi. Ymgynghorwyd â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a chytunodd y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol hwn yn cael ei groesawu ac ystyriodd y gallai'r trefniadau iechyd y

cyhoedd presennol atal canfasiad blynyddol 2020 rhag cael ei gwblhau yn unol â’r amserlen arferol.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal gan y bydd gofyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ymgymryd â’r un gweithgareddau ag y byddent yn eu gwneud fel arfer, ond rhoddir dau fis ychwanegol iddynt eu cwblhau os bydd angen. O'r herwydd, nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith o ran costau yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon.

Gallai un effaith fach fod mewn perthynas ag asiantaethau gwirio credyd sy'n defnyddio'r gofrestr etholiadol i ddiweddaru gwybodaeth y maent yn ei chadw ar ffeiliau Gwiriad Credyd unigolion. Er bod cofrestri etholiadol yn cael eu diweddaru a'u cyhoeddi bob mis, nid yw'r diweddariadau misol hyn fel arfer yn cael eu cyhoeddi yn ystod y ddau fis cyn cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig derfynol, a allai olygu yn yr achos hwn efallai na fydd y cofnodion sydd gan asiantaethau gwirio credyd yn cael eu diweddaru ym mis Rhagfyr 2020 nac ym mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, byddai hyn hefyd yn wir pan gynhelir etholiad yn ardal Swyddog Cofrestru Etholiadol rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr (gweler uchod). Nid ydym, felly, yn disgwyl y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar waith asiantaethau gwirio credyd.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2228/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Gorffennaf ynghylch y rheoliadau drafft yr wyf yn bwriadu eu gosod gerbron y Senedd mewn perthynas â'r cofrestr etholiadol 2020. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith craffu arfaethedig ar y rheoliadau, rwyf wedi ateb y cwestiynau a godwyd yn eich llythyr isod.

(i) Beth yw eich asesiad o'r risgiau posibl i'r trefniadau etholiadol ar gyfer etholiadau mis Mai y flwyddyn nesaf os na fydd y swyddogion cofrestru etholiadol yn cyhoeddi'r cofrestrau tan 1 Chwefror 2021?

Nid wyf yn ystyried bod unrhyw risgiau i drefniadau etholiadol ar gyfer 2021 yn codi'n benodol o ymestyn y dyddiad terfynnol ar gyfer cyhoeddi'r cofrestrau. Mae swyddogion cofrestru etholiadol a'u staff yn brofiadol yn cyflawni'r dasg flynyddol hon ac rwy'n hyderus yn eu gallu i lunio cofrestrau cywir cyn etholiad mis Mai. Rydym wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru ac ni chodwyd unrhyw risgiau ganddynt. Rydym hefyd yn deall y bydd swyddogion cofrestru etholiadol yn ceisio bodloni'r dyddiad cyhoeddi 1 Rhagfyr fel arfer ond yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol y mae'r Rheoliadau hyn yn ei ddarparu i sicrhau y gall swyddogion cofrestru etholiadol gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod y gofrestr mor gyflawn a chywir â phosibl.

(ii) Pa ymgyngoriadau yr ydych chi wedi'u gwneud mewn perthynas â'r rheoliadau arfaethedig?

The Electoral Commission was consulted on this in line with Sections 7(1) and (2)(e) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000. The Electoral Commission did not recommend any changes. The Wales Electoral Co-ordination Board were consulted and agreed the additional flexibility provided by these regulations would be welcomed in the event that the current public health arrangements could prevent the completion of the 2020 annual canvass in the usual timeframe.

Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol ar hyn yn unol ag adrannau 7(1) a (2)(e) o Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Nid oedd y Comisiwn Etholiadol yn argymell unrhyw newidiadau. Ymgynghorwyd â Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chytunwyd y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol a ddarperir gan y Rheoliadau hyn yn cael ei groesawu pe bai'r trefniadau iechyd cyhoeddus presennol yn gallu atal cwblhau'r broses ganfasio flynyddol 2020 yn yr amser arferol.

(iii) Pa ddyddiadau cyhoeddi eraill wnaethoch chi ystyried eu pennu a pham yr ystyriwyd mai 1 Chwefror 2021 oedd yr opsiwn gorau?

Fel arfer, cynhelir y cyfnod canfasiad blynyddol o 1 Gorffennaf i 1 Rhagfyr, ac fe'i hysgogir gan ofyniad i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi cofrestr etholwyr ddiwygiedig ar gyfer eu hardal erbyn 1 Rhagfyr. Yr unig eithriad i hyn yw pan gynhelir etholiad yn eu hardal rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr, yna caiff y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig ei ymestyn yn awtomatig i 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol o dan adran 13(1A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae hyn yn rhoi dau fis ychwanegol i swyddogion cofrestru etholiadol gwblhau eu canfasiad a llunio eu cofrestr etholwyr ddiwygiedig.

1 February 2021 was chosen as appropriate date for publication for the purposes of these regulations to ensure an up to date register is published in advance of the scheduled May 2021 elections, but is also already a deadline which EROs are familiar with and have had to work to in other circumstances.

Cafodd 1 Chwefror 2021 ei ddewis fel dyddiad cyhoeddi priodol at ddibenion y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod cofrestr gyfredol yn cael ei chyhoeddi cyn yr etholiadau a drefnwyd ar gyfer 2021 mai, ond mae eisoes yn ddyddiad cau y mae'r swyddogion cofrestru etholiadol yn gyfarwydd âg ef ac wedi gorfod gweithio iddo o dan amgylchiadau eraill. Mae hwn yn gyson â rheoliadau tebyg sy'n cael eu gwneud gan Lywodraethau'r DU a'r Alban.

Gobeithiaf bod y llythyr hwn yn rhoi sylw digonol i'r ymholiadau a godwyd gennych. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rhesymeg a'r bwriadau polisi sy'n sail i'r ddeddfwriaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau. Edrychaf ymlaen at dderbyn sylwadau'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Eitem 3.9

# SL(5)579 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)(Cymru) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Rhif 2) 2020 ("y Rheoliadau") o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau'n dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a'r holl reoliadau sydd wedi'u diwygio (gyda'i gilydd, y "Rheoliadau Gwreiddiol").

Mae'r Rheoliadau:

- yn ailddatgan rhai o ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwreiddiol, megis y gofyniad i gadw rhai busnesau, mangreoedd, cyfleusterau, llwybrau cerdded a thir ar gau, er nad yw'r rhestr o leoedd y mae'n rhaid iddynt aros ar gau mor helaeth â'r hyn sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Gwreiddiol. Mae'r lleoedd y caniateir iddynt agor yn awr yn cynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd i'w fwyta ar fangre awyr agored y busnes, salonau trin gwallt a barbwyr, llety hunangynhwysol; addoldai a sinemâu awyr agored;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r busnesau y caniateir iddynt agor gymryd rhai camau penodol i leihau'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws. Mae'r camau hyn yn cynnwys parhau â'r gofynion i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o ddau fetr rhwng personau yn y fangre, a phan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, fod pellter o ddau fetr yn cael ei gynnal. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno ystod o fesurau rhesymol eraill sy'n ofynnol, sydd â'r nod o leihau cysylltiad pobl â'r feirws, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac sy'n cynnal hylendid. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws y mae'n rhaid i bersonau sy'n gyfrifol am gymryd mesurau rhesymol o dan y Rheoliadau roi sylw iddynt; ac
- yn cyfyngu ar gynulliadau, ond gyda newidiadau i rai o'r cyfyngiadau a nodwyd yn y Rheoliadau Gwreiddiol. Mae'r Rheoliadau hyn bellach yn darparu y caiff unigolion, gan gynnwys aelodau o aelwyd (estynedig neu fel arall), ymgynnull gydag unigolion eraill os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored wedi'i drefnu, ar yr amod na fydd mwy na 30 o unigolion yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r effaith y bwriedir i'r ddarpariaeth hon ei chael yw y caiff pobl ymuno â'i gilydd yn yr awyr agored i gymryd rhan mewn gweithgaredd, er enghraifft chwaraeon neu daith o amgylch atyniad awyr agored, lle bydd trefnydd y digwyddiad wedi cynnal yr asesiadau risg priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol yn ystod y gweithgaredd i leihau'r risg y daw'r cyfranogwyr i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau'n destun adolygiad ar 30 Gorffennaf 2020 neu chyn hynny ac o leiaf bob 21 diwrnod ar ôl hynny. Daw'r Rheoliadau i ben ar 8 Ionawr 2021.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu, neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'u gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(iv): ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn**

Nodir y daw'r Rheoliadau i rym yn unol â rheoliadau 1(3) ac 1(4). Mae rheoliad 1(3) yn nodi rhestr o Reoliadau unigol a ddaeth i rym, yn ôl rheoliad 1(3), ar 11 Gorffennaf 2020. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- Rheoliad 2, sy'n nodi ystyr rhai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau;
- Rheoliad 3, sy'n dirymu'r Rheoliadau Gwreiddiol, ond dim ond i'r graddau y mae'n dirymu'r darpariaethau sy'n ymwneud â chau rhai busnesau, mangreoedd a llety gwyliau a thorri'r darpariaethau hynny;
- Rheoliad 8, sy'n ei gwneud yn ofynnol cau llety gwyliau ac eithrio llety hunangynhwysol, lleiniau i garafannau a rhai busnesau eraill;
- Rheoliad 9, sy'n ymwneud â busnesau sy'n ffurfio rhan o fusnesau eraill, ond dim ond i'r graddau y mae'n berthnasol i Reoliad 8;
- Rheoliad 12 (mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws) a rheoliad 13 (canllawiau ar leihau dod i gysylltiad â'r coronafeirws), i'r graddau y maent yn berthnasol i bobl sy'n gyfrifol am lety gwyliau; a
- Rheoliadau 17 i 22, sy'n ymdrin â gorfodi cyfyngiadau a gofynion, ond dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i Reoliad 8.

Mae rheoliad 1(4) yn nodi y daeth gweddill y Rheoliadau nad ydynt wedi'u rhestru yn rheoliad 1(3) i rym ar 13 Gorffennaf 2020 at bob pwrpas arall.

Nid yw'r rhestr o Reoliadau y mae rheoliad 1(3) yn nodi y byddant yn dod i rym ar 11 Gorffennaf 2020 yn cynnwys rheoliad 1 ei hun. Felly, yn unol â rheoliad 1(4), daeth rheoliad 1 yn ei gyfanrwydd i rym ar 13 Gorffennaf 2020.

Yr effaith yn sgil hynny yw, pan ddaeth rheoliad 1 i rym ar 13 Gorffennaf 2020, fe ddaeth â'r holl Reoliadau a restrir yn rheoliad 1(3) i rym yn ôl-weithredol o 11 Gorffennaf 2020. Nid yw adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn rhoi awdurdod penodol i'r Rheoliadau gael effaith ôl-weithredol.

Yn ogystal â hynny, o dan reoliadau 17 i 22, a ddaeth i rym yn ôl-weithredol i'r graddau y maent yn gymwys i reoliad 8, mae unrhyw fethiant i gydymffurfio â rheoliad 8 yn drosedd y gellir ei chosbi drwy

ddirwy. Mae Erthygl 7 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na chaiff unrhyw un ei farnu'n euog o unrhyw drosedd oherwydd unrhyw weithred neu anweithred nad oedd yn drosedd o dan gyfraith genedlaethol ar adeg ei gyflawni. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu na ddylai cyfraith trosedd ddod i rym yn ôl-weithredol.

Mae angen esboniad gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godir yn y pwynt hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi): ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Nodir y daw'r Rheoliadau i rym yn unol â rheoliadau 1(3) ac 1(4). Mae rheoliad 1(3) yn nodi rhestr o Reoliadau unigol a ddaeth i rym, yn ôl rheoliad 1(3), ar 11 Gorffennaf 2020. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys rheoliad 1 ei hun. Mae rheoliad 1(4) yn nodi y daeth gweddill y Rheoliadau , gan gynnwys rheoliad 1 ei hun, i rym at bob diben arall ar 13 Gorffennaf 2020. Felly, er bod rheoliad 1(3) yn nodi y daw rhai o'r Rheoliadau i rym ar 11 Gorffennaf 2020, ni ddaeth rheoliad 1(3) ei hun i rym tan ar ôl y dyddiad hwnnw ar 13 Gorffennaf 2020. Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru yn egluro'n llawn yr afreoleidd-dra hwn yn y gwaith drafftio.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii): ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**.

a) Mae rhai gwallau teipograffyddol yn y nodyn esboniadol ar ddechrau'r Rheoliadau. Mae'r pumed paragraff yn defnyddio 'pebaent' yn lle 'pe baent', ac mae'r gair 'fynd' wedi ei sillafu yn anghywir yn y chweched paragraff (y gair olaf ond un). Fodd bynnag wedi dweud hynny, o ran geiriau olaf y chweched paragraff, ystyriwn fod y testun Cymraeg "a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd" (fel y'i defnyddiwyd yn OS 2020/353 (Cy. 80)) yn well adlewyrchiad o ystyr "and land accessible by the public", yn hytrach nag "a thir y gall y cyhoedd fynd iddynt".

b) Yn y testun sydd wedi'i italeiddio cyn y Rhagymadrodd yn y testun Cymraeg, mae'r dyddiad y gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd Cymru yn anghyflawn.

c) Mae gwallau teipograffyddol hefyd yng nghorff y Rheoliadau – dylai rheoliad 8(4)(a)(iii) ddweud 'wedi' yn lle 'wed'; ymddengys bod 'y' diangen lle nodir "neu y 8(1)" yn rheoliad 9; a dylai rheoliad 12(3)(d) ddweud 'iddi' yn lle 'iddit'.

d) Mae nifer o groesgyfeiriadau ar goll yn y testun Cymraeg lle nodir yn lle hynny "Error! Reference source not found." Mae hyn yn digwydd yn rheoliadau 9, 12(3)(g), 12(3)(h) ac 20(1)(a).

e) Yn rheoliad 11(2)(a) nid yw'r testun Cymraeg yn adlewyrchu ystyr "to be liable to large numbers of people congregating", yn ein barn ni. Mae'r testun Cymraeg yn nodi "eu bod yn debygol o ddenu niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull" sy'n cyfieithu fel "likely to attract large numbers of people congregating". Byddai'r ystyr yn cael ei adlewyrchu'n well, yn ein barn ni, drwy ddweud, "sydd â thuedd i niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull arnynt" (sef yr hyn a ddywedwyd yn OS 2020/334 (Cy. 76)).

f) Mae'r testun Saesneg ar gyfer rheoliad 12(2)(a)(ii) yn cyfeirio at bersonau sy'n aros i fynd i fangre ac yn dweud, "a distance of 2 metres is maintained **between them**" (ein pwyslais ni) tra bod y testun Cymraeg yn nodi "fod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal".

g) Mae'r testun Cymraeg yn rheoliad 20(6) yn cyfeirio at baragraff 20(1) tra bod y testun Saesneg yn cyfeirio at baragraff (1).

h) Mae'r testun Saesneg ar gyfer rheoliad 20(11) yn sôn am "Partnership **assets**", tra bod rheoliad 20(12) yn cyfeirio at "**funds**" sy'n eiddo i gymdeithas anghorfforedig (ein pwyslais ni). Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio 'cronfeydd' ar gyfer 'assets' a 'funds', ond byddai 'asedau' yn well adlewyrchiad o'r gair Saesneg 'assets' yn ein barn ni.

i) Mae'n ymddangos bod yr eglurhad o ystyr 'hysbysiad cosb benodedig' yn y testun Cymraeg yn rheoliad 21(2) wedi'i ysgrifennu yn y drefn anghywir. Mae'r Gymraeg yn nodi "Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo…" tra bod llif y testun Saesneg yn gwneud mwy o synnwyr, "A fixed penalty notice is a notice offering the person to whom it is issued…" (h.y. Hysbysiad cosb benodedig yw hysbysiad sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo…').

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Hawliau dynol

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at effaith y Rheoliadau ar hawliau dynol. Nodir bod y Rheoliadau yn cynnwys hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i restru'r hawliau y mae'r Rheoliadau'n cyffwrdd â hwy, fel Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo). Mae'r rhain i gyd yn gyfeiriadau at Erthyglau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn") ac ni chyfeirir ymhellach at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn ymhelaethu sut y cyffyrddir â phob un o'r hawliau y soniwyd amdanynt o dan y Confensiwn, ond nodir:

"Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio'r cyfyngiadau drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

Croesewir esboniad o sut y mae'r hawliau hyn yn hawliau amodol a sut y gellir cyfiawnhau ymyrraeth mewn perthynas ag Erthyglau 5, 8, 9 ac 11. Fodd bynnag, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa o ran hawliau dynol, gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu:

a) dadansoddiad mwy penodol o sut y mae'r Rheoliadau yn cyffwrdd ag Erthyglau 5, 8, 9 ac 11 ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn;

b) manylion unrhyw gyfiawnhad am ymyrraeth â diogelu eiddo o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn, gan fod y cyfiawnhad am ymyrryd mewn perthynas â'r hawl hon yn wahanol i'r lleill a nodir yn y Memorandwm Esboniadol – ni chaniateir ymyrraeth o'r fath oni bai ei bod er budd y cyhoedd ac yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol; ac

c) rhagor o wybodaeth am ba hawliau o dan Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yr ystyrir bod y Rheoliadau'n cyffwrdd â hwy, ac ym mha ffordd, a sut y gellir cyfiawnhau ymyrraeth â'r hawliau hynny.

Yn ogystal, cyfeiriwn ymhellach at y mater o ran rhoi effaith i gyfraith trosedd yn ôl-weithredol, fel y cyfeirir ato ym mhwynt adrodd technegol 1. O dan reoliadau 17 i 22, a ddaeth i rym yn ôl-weithredol i'r graddau y maent yn gymwys i reoliad 8, mae unrhyw fethiant i gydymffurfio â rheoliad 8 yn drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy. Mae Erthygl 7 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na chaiff unrhyw un ei farnu'n euog o unrhyw drosedd oherwydd unrhyw weithred neu anweithred nad oedd yn drosedd o dan gyfraith genedlaethol ar adeg ei gyflawni. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu na ddylai cyfraith trosedd ddod i rym yn ôl-weithredol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'n ystyried bod y materion drafftio a nodwyd ynghylch rheoliad 1 yn cyffwrdd ag Erthygl 7 o'r Confensiwn, ac os felly, sut y mae'n bwriadu cywiro hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

<u>Materion trawsffiniol</u>

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at barhau â'r cysyniad o 'aelwydydd estynedig' yn y Rheoliadau, lle caniateir i ddwy aelwyd ffurfio un aelwyd fel y gallant gwrdd dan do a chael cyswllt corfforol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Efallai nad yw'r ddwy aelwyd yn byw yng Nghymru o anghenraid ond yn y sefyllfa honno cânt eu trin fel aelwyd unigol cyn belled ag y mae'r Rheoliadau hyn yn y cwestiwn <u>a phe bai un o'r aelwydydd yn ceisio ffurfio aelwyd estynedig gyda thrydydd aelwyd y tu allan i Gymru na fyddai'n cael ei chaniatáu o dan y Rheoliadau hyn, hyd yn oed pe bai'n cael ei ganiatáu o dan y gyfraith sy'n gymwys yn y diriogaeth arall lle roedd y trydydd aelwyd yn byw.</u>" (ein pwyslais ni)

Gan fod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn nodi bod cyfyngiadau Cymru yn gymwys o ran Cymru, a wnaiff Llywodraeth Cymru roi esboniad ymarferol o sut y mae hyn yn gweithio yng nghyd-destun y geiriau sydd wedi'u tanlinellu yn y paragraff uchod?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 8 yn caniatáu i lety hunangynhwysol agor, cyhyd â'i fod yn cael ei osod i aelodau o'r un aelwyd yn unig (ymhlith gofynion eraill). Mae rheoliad 2(4) yn cadarnhau, at ddibenion y Rheoliadau, fod unrhyw gyfeiriad at "aelwyd" yn cynnwys yr aelwydydd estynedig y caniateir eu creu. Mae methu â chydymffurfio â rheoliad 8 yn drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn y Rheoliadau beth sy'n rhaid i berchennog unrhyw lety hunangynhwysol ei wneud i fodloni ei hun ei fod wir yn gosod yr eiddo i aelodau o'r un aelwyd, p'un a yw'n aelwyd estynedig ai peidio. Er enghraifft, a fydd yn ddigon gofyn i berson ar adeg archebu'r llety a yw'n ei archebu ar gyfer aelodau o'r un aelwyd, neu a fydd angen i'r perchennog ofyn am ryw fath o dystiolaeth er mwyn diogelu ei hun rhag dirwy pe bai'n dod amlwg nad yw'r person(au) sy'n rhentu'r eiddo yn gwneud hynny ar gyfer aelodau o'r un

aelwyd? Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n rhagweld y bydd y gofyniad i osod llety i aelodau o'r un aelwyd, boed yn aelwyd estynedig ai peidio, yn cael ei gymhwyso'n ymarferol gan berchnogion llety hunangynhwysol fel y gallant ddiogelu eu hunain rhag dirwy bosibl.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Anghysondeb rhwng y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol

Mae rheoliad 5(1) yn nodi y daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Ionawr 2021. Nodir ar dudalen 5 o'r Memorandwm Esboniadol y daw'r Rheoliadau i ben ar 9 Ionawr 2021. Er y gallai hyn fod yn wall teipograffyddol, o ystyried difrifoldeb a graddau pellgyrhaeddol y Rheoliadau hyn, mae'r dyddiad dod i ben yn debygol o fod yn bwynt pwysig i lawer o bobl yng Nghymru a rhaid gofalu y caiff ei adlewyrchu'n gywir, yn enwedig mewn dogfennau esboniadol y bwriedir iddynt gynorthwyo pobl i ddeall y Rheoliadau.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Tynnwyd sylw at y pwyntiau hyn mewn nodyn a baratowyd ar gyfer Aelodau o'r Senedd dyddiedig 15 Ebrill 2020 ynglŷn â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i faterion eraill a godwyd yn y nodyn hwnnw ar 28 Ebrill 2020 ond ni ofynnwyd iddi ymateb yn benodol i'r pwyntiau hyn ac felly ni wnaeth hynny. Ni chyfeiriwyd at y pwyntiau dan sylw yn y Rheoliadau hyn ychwaith. Felly, dyma dynnu sylw atynt unwaith eto yng nghyd-destun y Rheoliadau hyn.

Pŵer mynediad

Mae'n ofynnol i berson sy'n arfer pŵer mynediad o dan reoliad 19 o'r Rheoliadau hyn ddarparu tystiolaeth yn dangos pwy ydyw ac amlinellu at ba ddiben y mae'r pŵer yn cael ei arfer. Er y gall hyn awgrymu bod yn rhaid i'r person ddarparu tystiolaeth o'i awdurdod i arfer y pŵer mynediad (yn enwedig pan fydd yn berson a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru, awdurdod lleol, awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru), nid yw'n glir bod y dystiolaeth sy'n dangos pwy ydyw yn cynnwys tystiolaeth o awdurdod i arfer y pŵer yn benodol. Mae gofyniad i ddarparu tystiolaeth o awdurdod yn gyffredin wrth arfer pwerau o'r math hwn.

At hynny, er y gall nodi at ba ddiben yr arferir y pŵer hefyd ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu'r seiliau rhesymol dros dybio bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael ei dorri, wedi ei dorri neu ar fin cael ei dorri ar y fangre, byddai'n rhesymol nodi gofyniad yn benodol i ddarparu'r wybodaeth honno.

Er nad yw hepgor geiriad penodol yn cael effaith andwyol sylweddol ar y Rheoliadau hyn, byddai cynnwys geiriad penodol priodol yn darparu mesurau diogelu ychwanegol, a mwy o eglurder, i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r pŵer mynediad.

Hysbysiad Cosb Benodedig

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwyntiau a ganlyn mewn perthynas â hysbysiadau cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn:

- mae'n rhaid i hysbysiad nodi'r awdurdod lleol, neu'r person a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid talu cosb benodedig iddo, ond mewn perthynas â thorri rheoliad 11(4) o'r

Rheoliadau hyn mewn parc cenedlaethol, nid yw'n glir a fyddai cosb benodedig yn cael ei thalu i'r awdurdod parc cenedlaethol neu'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae'r parc cenedlaethol hwnnw ynddo;

- mae rheoliad 21(9) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi disgresiwn i bob awdurdod gynnig gostyngiad ar gyfer taliad cynnar o dan hysbysiad cosb benodedig – gallai hyn greu anghydraddoldeb rhwng ardaloedd yng Nghymru pan fo rhai awdurdodau'n mabwysiadu'r gostyngiad, ond nid eraill;
- nid yw'n eglur a fydd yn bosibl nodi a yw person eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn at ddibenion gosod cosb benodedig uwch o dan reoliad 21(10) o'r Rheoliadau hyn – gan ei bod yn bosibl i o leiaf 30 o sefydliadau fod yn gweinyddu hysbysiadau cosb benodedig, mae'n bosibl y bydd anghydraddoldeb yn y modd y caiff troseddwyr eu trin ar draws Cymru; ac
- yr unig ddull o dalu hysbysiad cosb benodedig sy'n ofynnol yn benodol o dan y Rheoliadau yw taliad drwy'r post wedi'i gyfeirio i'r awdurdod lleol dan sylw, er bod gan lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru nifer gyfyngedig o staff yn gweithio yn eu swyddfeydd – er y gall awdurdodau gynnig talu dros y ffôn neu ar-lein, ac y gwnânt hynny yn ôl pob tebyg, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio'n benodol at yr opsiynau hynny yn y Rheoliadau hyn.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cydraddoldeb

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith y rhoddwyd ystyriaeth i'w sylwadau blaenorol ynglŷn â'r methiant i fynd i'r afael â chydraddoldeb yn unrhyw un o'r Memoranda Esboniadol i'r Rheoliadau Gwreiddiol. Croesewir y ffaith bod y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn cynnwys crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob pwynt ac eithrio'r pwynt olaf o ran rhinweddau (rhif 6).

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 725 (Cy. 162)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion a chyfyngiadau ar unigolion, busnesau ac eraill.

Mae'r Rheoliadau yn disodli Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/353 (Cy. 80)) fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2020/399 (Cy. 88), O.S. 2020/452 (Cy. 102), O.S. 2020/497 (Cy. 118), O.S. 2020/529 (Cy. 124), O.S. 2020/557 (Cy. 129), O.S. 2020/619 (Cy. 141) ac O.S. 2020/686 (Cy. 153).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae **Rhan 1** yn cynnwys termau wedi'u diffinio (rheoliad 2); yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu cymesuredd y cyfyngiadau a'r gofynion, a'r angen amdanynt, o leiaf unwaith bob 21 o ddiwrnodau (rheoliad 4); ac yn darparu y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 8 Ionawr 2021 (rheoliad 5). Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n addasu'r cyfyngiadau niferus ar unigolion yn y Rheoliadau sy'n cyfyngu ar y rhyngweithio ag unrhyw un nad yw'n aelod o'r un aelwyd. Mae hyn yn caniatáu i aelodau o ddwy aelwyd gytuno i ffurfio un aelwyd (estynedig), sy'n golygu y gall aelodau'r aelwydydd hynny ryngweithio â'i gilydd fel pebaent yn aelodau o un aelwyd.

Mae **Rhan 2** yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau a mangreoedd penodol gau. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn Atodlen 1 (mangreoedd sy'n gwerthu bwyd a diod), Atodlen 2 (cyfleusterau hamdden neu ddiwylliant dan do a gwasanaethau harddwch yn gyffredinol) ac Atodlen 3 (llety gwyliau). Mae'r gofynion i gau, fodd bynnag, yn ddarostyngedig i eithriadau niferus. Mae'r rhain yn cynnwys darparu bwyd a diod i fynd â hwy i ffwrdd a bwyta ac yfed mewn mangreoedd sydd yn yr awyr agored (rheoliad 6); caniatáu i fangreoedd gael eu defnyddio at ddibenion penodol wedi eu rhestri (rheoliad 7); caniatáu i lety hunangynhwysol mewn gwestai a safleoedd gwyliau fod ar agor, a chaniatáu i fathau eraill o lety o'r fath agor ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol (rheoliad 8). Mae rheoliad 10 yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch amlosgfeydd a chanolfannau cymunedol y mae rhaid iddynt gau yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, ac mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gau rhai llwybrau cyhoeddus a thir y gall y cyhoedd fydn iddynt.

Mae **Rhan 3** yn gosod rhwymedigaethau ar bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd, neu ar waith sy'n cael ei wneud mewn unrhyw fangre, at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws yn y fangre. Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod: (1) pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre; (2) unrhyw fesurau rhesymol eraill yn cael eu cymryd, er enghraifft, i gyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb a chynnal hylendid; a (3) gwybodaeth yn cael ei darparu i'r rhai sy'n mynd i mewn i fangre neu'n gweithio ynddi ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws. Mae rheoliad 13 yn darparu ar gyfer dyroddi canllawiau ynghylch cymhwyso'r gofynion a osodir gan reoliad 12 yn ymarferol, a rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r gofynion roi sylw i'r canllawiau hynny. At y dibenion hyn mae mangreoedd yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cynnwys cerbydau a ddefnyddir fel tacsis ac ar gyfer trafnidiaeth cyhoeddus.

Mae **Rhan 4** yn gosod terfynau ar ymgynnull gyda phobl eraill. Mae'r rhain yn darparu (yn rheoliad 14) mai dim ond os oes ganddo esgus rhesymol dros wneud hynny (y mae enghreifftiau ohonynt wedi eu rhestru) y caiff person ymgynull dan do gyda rhywun ac eithrio aelod o'i aelwyd neu ei ofalwr, neu'r person y mae'n gofalu amdano. Mae'r un rheol yn berthnasol i ymgynnull yn yr awyr agored ac eithrio bod ymgynnull gydag aelodau un aelwyd arall yn cael ei ganiatáu hefyd. Mae rheoliad 15 yn darparu eithriad i'r rheol yn rheoliad 14 ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored sydd wedi eu trefnu, nad ydynt yn cynnwys mwy na 30 o bobol. Mae rheoliad 16 yn darparu bod rhaid i berson sy'n gweithio neu'n darparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol wneud hynny o'i gartref, os yw'n rhesymol ymarferol iddo wneud hynny.

Mae **Rhan 5** yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion. Mae rheoliad 17 yn gwneud darpariaeth ynghylch y rhai a all gymryd camau gorfodi, tra bo rheoliad 18 yn ymwneud â'r camau gweithredu eu hunain. Mae rheoliad 19 yn cynnwys pŵer i fynd i fangre. Mae rheoliad 20 yn darparu bod person sydd, heb esgus rhesymol, yn mynd yn groes i'r gofynion (rhestredig) yn y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd. Gellir cosbi'r drosedd honno drwy ddirwy ddiderfyn. Mae rheoliad 21 yn caniatáu i droseddau gael eu cosbi drwy hysbysiad cosb benodedig (y mae ei swm yn dyblu ar ail hysbysiad cosb person a phob un o'i hysbysiadau cosb a ddilyn, hyd at uchafswm o £1920) ac mae rheoliad 22 yn ymwneud ag erlyn troseddau o dan y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 725 (Cy. 162)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

*Gwnaed am 3.40 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 6.00 p.m. ar Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**) .

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

## RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn yn y Rheoliadau hyn i rym ar 11 Gorffennaf 2020—

(a) rheoliad 2;

(b) rheoliad 8;

(c) rheoliad 9 i'r graddau y mae'n gymwys i ofyniad o dan reoliad 8(1);

(d) rheoliadau 12 ac 13 i'r graddau y maent yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre busnes a restrir yn Atodlen 3;

(e) rheoliadau 17 i 22 i'r graddau y maent yn gymwys i dorri (neu achos honedig o dorri) rheoliad 8(1);

(f) rheoliad 3 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau a ganlyn yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**)—

(i) paragraffau (4) i (6) o reoliad 4 i'r graddau y maent yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1;

(ii) rheoliad 5;

(iii) rheoliad 7A i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan reoliad 4(5B) neu 5(3C) ar berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1;

(iv) rheoliadau 10 i 14 i'r graddau y maent yn gymwys i dorri (neu achos honedig o dorri) rheoliad 4(4) neu 5(3C) gan berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1.

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/399 (Cy. 88), O.S. 2020/452 (Cy. 102), O.S. 2020/497 (Cy. 118), O.S. 2020/529 (Cy. 124), O.S. 2020/557 (Cy. 129), O.S. 2020/619 (Cy. 141) ac O.S. 2020/686 (Cy. 153).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) Daw'r Rheoliadau hyn i rym at bob diben arall ar 13 Gorffennaf 2020.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae "claddu" yn cynnwys rhoi lludw person marw yn y ddaear;

(b) ystyr "gofalwr" yw person sy'n darparu gofal ar gyfer y person a gynorthwyir pan—

(i) bo hawlogaeth gan y gofalwr i asesiad o dan adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**),

(ii) bo'r gofal yn rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymunedol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu

(iii) bo'r gofal wedi ei ddarparu gan ddarparwr gofal sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**);

(c) mae "mynwent" yn cynnwys claddfa ac unrhyw fan arall sydd yn cael ei ddefnyddio i gladdu'r meirw;

(d) ystyr "coronafeirws" yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

(e) ystyr "athletwr elît" yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru;

(f) ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(g) mae i "mangre agored" yr ystyr a roddir gan reoliad 12(3);

(h) mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr un ysytr a roddir yn Neddf Plant 1989(**3**);

(i) mae "person sy'n gyfrifol am gynnal busnes" yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw;

(j) mae "mangre" yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;

(k) mae "person hyglwyf" yn cynnwys—

(i) unrhyw berson sy'n 70 oed neu'n hŷn;

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) 2016 dccc 2.
(**3**) 1989 p. 41. Gweler Rhan 1 y Ddeddf, lle y gwnaed amryw ddiwygiadau, gan gynnwys gan y Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (p. 22) ac O.S. 2019/1458.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) unrhyw berson o dan 70 oed sydd â chyflwr iechyd isorweddol;

(iii) unrhyw berson sy'n feichiog;

(iv) unrhyw blentyn;

(v) unrhyw berson sy'n oedolyn hyglwyf o fewn yr ystyr a roddir i "vulnerable adult" gan adran 60(1) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**).

(2) At ddibenion y diffiniad o "athletwr elît" ym mharagraff (1)—

(a) nid yw unigolyn wedi ei ddynodi gan Gyngor Chwaraeon Cymru onid yw'r unigolyn wedi ei enwebu am ddynodiad gan gorff camp perthnasol a bod y Cyngor wedi derbyn yr enwebiad, a

(b) ystyr "corff camp perthnasol" yw corff llywodraethu cenedlaethol camp a gaiff enwebu athletwyr i gynrychioli—

(i) Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn y Gemau Olympaidd neu'r Gemau Paralympaidd, neu

(ii) Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) mae cynulliad pan fydd dau neu ragor o bobl yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd, a

(b) mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(**2**).

(4) Os yw dwy aelwyd yn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig) at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio ym mharagraffau (5) a (7)) at "aelwyd" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y ddwy aelwyd.

(5) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd rhaid i bob oedolyn yn y ddwy aelwyd gytuno.

(6) Ond—

(a) dim ond gydag un aelwyd arall y caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd, a

(b) os yw'r ddwy aelwyd yn peidio â chytuno i gael eu trin fel un aelwyd, ni chaiff y naill aelwyd na'r llall gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd o dan baragraff (4) gydag unrhyw aelwyd arall.

(7) Os yw dwy aelwyd wedi cytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig) at ddibenion Rheoliadau Diogelu

(**1**) 2006 c. 47, fel a ddiwygiwyd gan adran 65 o Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).
(**2**) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 maent i'w trin fel pe baent hefyd wedi cytuno i hynny at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Dirymu**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**);

(b) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020(**2**);

(c) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020(**3**);

(d) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020(**4**);

(e) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020(**5**);

(f) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020(**6**);

(g) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020(**7**);

(h) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020(**8**).

(2) Er gwaethaf dirymu'r Rheoliadau hynny, maent yn parhau mewn grym mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

**Adolygu**

**4.** Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) erbyn 30 Gorffennaf 2020;

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80).
(**2**) O.S. 2020/399 (Cy. 88).
(**3**) O.S. 2020/452 (Cy. 102).
(**4**) O.S. 2020/497 (Cy. 118).
(**5**) O.S. 2020/529 (Cy. 124).
(**6**) O.S. 2020/557 (Cy. 129).
(**7**) O.S. 2020/619 (Cy. 141).
(**8**) O.S. 2020/686 (Cy. 153).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 31 Gorffennaf;

(c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

**Dod i ben**

**5.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Ionawr 2021.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

## RHAN 2

### Cau busnesau a mangreoedd

**Cau bariau a bwytai dan do etc.**

**6.**—(1) —Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir yn Atodlen 1 gau unrhyw ran o'i fangre sydd o dan do ac a ddefnyddir ar gyfer bwyta bwyd neu yfed diod.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn atal darparu gwasanaeth ystafell mewn gwesty neu lety arall.

(3) Ac mae paragraff (1) yn gymwys, yn ddarostyngedig i'r angen i wneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a gwaith arall i sicrhau bod y fangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw paragraff (1) yn gymwys mwyach i'r busnes.

(4) At ddibenion paragraff (1), mae ardal o dan do sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddau yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel rhan o fangre'r busnes hwnnw.

**Cau busnesau a gwasanaethau eraill**

**7.**—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Atodlen 2 beidio â chynnal y busnes hwnnw neu ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn atal y defnydd—

(a) o fangre a ddefnyddir ar gyfer y busnesau neu'r gwasanaethau a restrir ym mharagraff 1, 2, 4, 5, 6 neu 12 o Atodlen 2 i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (boed dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu);

(b) o fangre at unrhyw ddiben y caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol ofyn amdano;

(c) o fangre ar gyfer hyfforddi athletwyr elît;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) o fangre a ddefnyddir fel amgueddfa neu oriel, neu at ddiben darparu gwasanaethau archif, ar gyfer darparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post.

(3) Ac mae paragraff (1) yn gymwys, yn ddarostyngedig i'r angen i wneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a gwaith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw paragraff (1) yn gymwys mwyach i'r busnes neu'r gwasanaeth.

**Cau llety gwyliau**

**8.**—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir yn Atodlen 3 beidio â chynnal y busnes hwnnw.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn atal y defnydd o fangre—

(a) ar gyfer darparu llety hunangynhwysol,

(b) ar gyfer darparu lleiniau i garafannau hunangynhwysol mewn safleoedd gwyliau neu feysydd pebyll,

(c) at ddibenion busnes a restrir yn Atodlen 1 (ond gweler rheoliad 6), neu

(d) at unrhyw ddiben y caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol ofyn amdano.

(3) Ac mae paragraff (1) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes yn ddarostyngedig i'r angen—

(a) i ddarparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac—

(i) nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w prif breswylfa, neu

(ii) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa;

(b) i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post;

(c) i wneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a gwaith arall i sicrhau bod mangre'n addas

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

i'w defnyddio pan nad yw paragraff (1) yn gymwys mwyach i'r busnes.

(4) At ddibenion paragraff (2)—

(a) mae llety yn hunangynhwysol—

(i) os y'i darperir i bersonau sy'n aelodau o'r un aelwyd,

(ii) os yw toiledau a chyfleusterau ymolchi wedi eu darparu mewn cysylltiad â'r llety nad ydynt yn cael eu rhannu ag unrhyw un sy'n aelod o aelwyd arall, a

(iii) os yw cyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd neu ddiod, neu fwyta bwyd neu yfed diod wed eu darparu mewn cysylltiad â'r llety ac nid ydynt yn cael eu rhannu ag unrhyw un sy'n aelod o aelwyd arall;

(b) mae carafán yn hunangynhwysol—

(i) os yw'r personau sy'n meddiannu'r garafán yn aelodau o'r un aelwyd,

(ii) os yw'r garafán yn cynnwys ei thoiled a'i chyfleusterau ymolchi ei hun, ac

(iii) os nad yw'r personau sy'n meddiannu'r garafán yn rhannu cyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd neu ddiod, neu fwyta bwyd neu yfed diod ar y safle gwyliau neu'r maes pebyll gydag unrhyw un sy'n aelod o aelwyd arall;

(c) mae i "carafán" yr un ystyr â "caravan" yn Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960(**1**).

(5) Yn y rheoliad hwn ac yn Atodlen 3, ystyr "safle gwyliau" yw unrhyw dir yng Nghymru lle y gosodir cartref symudol neu garafán at ddibenion byw gan bobl (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â'r tir hwnnw), y mae'r caniatâd cynllunio perthnasol neu'r drwydded safle ar gyfer y tir mewn cysylltiad ag ef—

(a) wedi ei fynegi i'w roi neu wedi ei mynegi i'w rhoi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o'r flwyddyn pan na chaniateir gosod unrhyw gartref symudol neu garafán ar y safle i bobl fyw ynddo neu ynddi.

(6) At ddibenion penderfynu a yw safle yn safle gwyliau ai peidio, mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn y drwydded safle sy'n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i'w hanwybyddu os yw wedi ei hawdurdodi i'r canlynol feddiannu'r cartref symudol —

(**1**) 1960 p. 62. Gweler adran 29(1) (dehongli Rhan 1)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) y person sy'n berchennog ar y safle, neu

(b) person sydd wedi ei gyflogi gan y person hwnnw ond nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(**1**) yn gymwys iddo.

**Busnesau sy'n ffurfio rhan o fusnes mwy**

**9.** Pan—

(a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A"), yn rhinwedd rheoliad **Error! Reference source not found.**, 7(1) neu 8(1), beidio â chynnal busnes A, a

(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y rheoliad **Error! Reference source not found.**, 7(1) neu y 8(1) os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A.

**Cau amlosgfeydd a chanolfannau cymunedol**

**10.**—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am amlosgfa sicrhau bod yr amlosgfa ar gau i aelodau'r cyhoedd, ac eithrio ar gyfer y defnydd a ganiateir gan baragraff (2).

(2) Caniateir i'r amlosgfa fod yn agored i aelodau'r cyhoedd ar gyfer angladdau neu gladdu (a darlledu angladd neu gladdu boed dros y rhyngrwyd neu fel arall).

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i'r tir o amgylch amlosgfa, gan gynnwys unrhyw gladdfa neu ardd goffa.

(4) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am ganolfan gymunedol sicrhau bod y ganolfan gymunedol ar gau ac eithrio pan fo'n cael ei defnyddio i ddarparu—

(a) gwasanaethau gwirfoddol hanfodol, neu

(b) gwasanaethau cyhoeddus ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

**Cau rhai llwybrau cyhoeddus a thir mynediad**

**11.**—(1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys i lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol —

(a) cau'r llwybr cyhoeddus neu'r tir mynediad, a

(b) ei gadw ar gau tan yr adeg pan fydd yr awdurdod yn ystyried nad yw'r cau yn angenrheidiol mwyach i atal, i ddiogelu rhag, i reoli neu i ddarparu ymateb iechyd y

(**1**) 2013 dccc 6, fel a'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint â'r coronafeirws yn ei ardal.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r llwybrau cyhoeddus a'r tir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol y mae'n ystyried —

(a) eu bod yn debygol o ddenu niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull neu'n dod yn agos i'w gilydd, neu

(b) bod eu defnydd fel arall yn peri risg uchel i fynychder neu ledaeniad haint yn ei ardal â'r coronafeirws.

(3) Pan fo llwybr cyhoeddus wedi ei gau o dan—

(a) rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020(**1**), neu

(b) rheoliad 9 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**2**),

mae'r llwybr i'w drin fel pe bai wedi ei gau o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

(4) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio llwybr cyhoeddus neu dir mynediad sydd ar gau yn rhinwedd paragraff (1) oni bai ei fod wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod perthnasol.

(5) Rhaid i'r awdurdod perthnasol—

(a) cyhoeddi rhestr o lwybrau cyhoeddus neu dir mynediad sydd ar gau yn ei ardal ar wefan;

(b) codi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod llwybr cyhoeddus neu dir mynediad ar gau.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn cynnwys rhannau o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad.

(7) Yn y rheoliad hwn —

(a) ystyr "awdurdod perthnasol" yw —

(i) awdurdod lleol,

(ii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru,

(iii) Cyfoeth Naturiol Cymru, neu

(iv) yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

(b) ystyr "llwybr cyhoeddus" yw llwybr troed, llwybr ceffylau, cilffordd, cilffordd gyfyngedig neu lwybr beiciau ac—

(i) mae i "llwybr troed", "llwybr ceffylau" a "llwybr beiciau" yr un ystyr ag â roddir i "footpath", "bridleway" a "cycle track"

(**1**) O.S. 2020/334 (Cy. 76).
(**2**) O.S. 2020/353 (Cy. 80).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**);

(ii) ystyr "cilffordd" yw cilffordd sydd ar agor i bob traffig o fewn yr ystyr a roddir i "byway open to all traffic" gan adran 66(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**2**);

(iii) mae i "cilffordd gyfyngedig" yr ystyr a roddir i "restricted byway" gan adran 48(4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**3**);

(c) mae "tir mynediad" yn cynnwys tir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo yn rhinwedd ei berchnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond fel arall mae iddo yr un ystyr ag "access land" yn adran 1(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**4**).

## RHAN 3

### Lleihau'r risg dod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd agored ac wrth weithio

**Mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws**

**12.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am—

(a) mangre agored, neu

(b) gwaith a wneir mewn unrhyw fangre arall lle y mae person yn gweithio.

(2) At ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre, rhaid i'r person—

(a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(i) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr);

(ii) pan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, fod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),

---

(**1**) 1980 p.66. Diwygiwyd adran 329 gan adran 1 Deddf Llwybrau Beiciau 1984 (p. 38) a pharagraff 21 o Atodlen 3 i Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988 (p. 54).

(**2**) 1981 p. 69.

(**3**) 2000 p. 37.

(**4**) 2000 p. 37. Diwygiwyd adran 1(1) gan adran 302(2)(a) o Ddeddf **y** Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) cymryd unrhyw fesurau rhesymol eraill at y diben hwnnw, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac sy'n cynnal hylendid megis—

(i) newid trefn y fangre gan gynnwys lleoliad y dodrefn a'r gweithfannau;

(ii) rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau;

(iii) rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir megis toiledau a cheginau;

(iv) fel arall rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r fangre neu fynediad iddi;

(v) gosod rhwystrau neu sgriniau;

(vi) darparu, neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio, cyfarpar diogelu personol, ac

(c) darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n dod i mewn neu'n gweithio yn y fangre ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "mangre agored" yw—

(a) mangre busnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 4;

(b) addoldai;

(c) mynwentydd;

(d) mangre busnes a restrir yn Atodlen 1 nad yw'n ofynnol iddit gau yn unol â rheoliad 6;

(e) mangre busnes a restrir yn Atodlen 2 y caniateir iddi fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 7(2);

(f) mangre busnes a restrir yn Atodlen 3 y caniateir iddi fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 8(2) neu (3);

(g) amlosgfeydd y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad **Error! Reference source not found.**;

(h) canolfannau cymunedol y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad **Error! Reference source not found.**.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn mae "mangre" hefyd yn cynnwys cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, rheilffyrdd, tramffordd, awyr neu fôr .

**Canllawiau ar leihau dod i gysylltiad â'r coronafeirws**

**13.**—(1) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo gymryd mesurau rhesymol o dan reoliad 12 roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y mesurau hynny.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a

(b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).

# RHAN 4

## Ymgynnull gyda phobl eraill

### Cyfyngiadau ar gynulliadau

**14.**—(1)Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

(a) ymgynnull yn yr awyr agored gydag unrhyw berson arall oni bai am—

(i) aelodau o'i aelwyd neu aelodau o ddim mwy nag un aelwyd arall,

(ii) gofalwr iddo, neu

(iii) person y mae'n darparu gofal iddo;

(b) ymgynnull mewn mangre o dan do gydag unrhyw berson arall oni bai am—

(i) aelodau o'i aelwyd,

(ii) gofalwr iddo, neu

(iii) person y mae'n darparu gofal iddo.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—

(a) cael cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 o Atodlen 4 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(b) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006([1]), pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(c) darparu neu gael cynhorthwy brys;

(d) rhoi gwaed;

(e) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

---

([1]) 2006 p. 47. Mewnosodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(f) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi neu gystadlu;

(g) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—

(i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,

(ii) os caiff ei wahodd i fynychu, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil;

(h) mynd i angladd—

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(i) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(j) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —

(i) gofal plant neu wasanaethau addysgol;

(ii) gwasanaethau cymdeithasol;

(iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;

(iv) gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr (megis dioddefwyr trosedd neu drais domestig);

(k) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(l) symud cartref;

(m) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;

(n) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—

(i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;

(ii) gweld eiddo o'r fath;

(o) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson sy'n ddigartref.

(4) At ddibenion paragraff (2)(n), nid yw eiddo wedi ei feddiannu os nad yw unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa.

**Eithriad ar gyfer gweithgareddau awyr agored wedi eu trefnu**

**15.**—(1) Er gwaethaf yr ystyr a roddir i "cynulliad" gan reoliad 2(3)(a), nid yw rheoliad 14(1) yn gymwys i unrhyw weithgaredd awyr agored wedi ei drefnu sy'n cynnwys dim mwy na 30 o bersonau.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae gweithgaredd yn "weithgaredd awyr agored wedi ei drefnu"—

(a) os yw'n digwydd yn yr awyr agored,

(b) os yw wedi ei drefnu gan—

(i) busnes,

(ii) corff cyhoeddus, neu sefydliad elusennol, llesiannol neu ddyngarol,

(iii) clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu

(iv) corff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall, ac

(c) os yw'r person sydd yn ei drefnu wedi—

(i) cynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(**1**) pa un a yw'r person yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ai peidio, a

(ii) cydymffurfio â gofynion rheoliadau 12(2) ac 13(1).

(3) At ddibenion paragraff (2)(c)—

(a) mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gymwys fel pe bai'r gweithgaredd yn ymgymeriad a wneir gan y person sy'n ei drefnu;

(b) mae rheoliad 12(2) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r man lle y cynhelir y weithgaredd yn digwydd mewn mangre agored y mae'r person sy'n trefnu'r weithgaredd yn gyfrifol amdani.

**Gofyniad i barhau i weithio gartref pan fo'n ymarferol**

**16.**—(1) O dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), ni chaiff unrhyw berson adael y man lle y mae'n byw, neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw, at

(**1**) O.S. 1999/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddibenion gwaith neu i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol.

(2) Yr amgylchiadau yw ei bod yn rhesymol ymarferol i'r person weithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol o'r man lle y mae'n byw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r man lle y mae person yn byw yn cynnwys y fangre lle y mae'n byw ynghyd ag unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, garej, tŷ allan neu unrhyw atodyn i fangre o'r fath.

## RHAN 5

## Gorfodi

### Swyddogion gorfodaeth

**17.**—(1) At ddibenion rheoliadau 18 i 21, ystyr "swyddog gorfodaeth" yw—

(a) cwnstabl,

(b) swyddog cymorth cymunedol yr heddlu,

(c) person wedi i ddynodi gan—

(i) Gweinidogion Cymeru,

(ii) awdurdod lleol,

(iii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu

(iv) Cyfoeth Naturiol Cymru,

at ddibenion rheoliadau 18 i 21 (ond gweler paragraffau (2) a (3)), neu

(d) person wedi ei ddynodi o dan reoliad 10(11)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) fel person perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan y rheoliad hwnnw) gan—

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) awdurdod lleol,

(iii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu

(iv) Cyfoeth Naturiol Cymru,

(ond gweler paragraffau (2) a (3)).

(2) Ni chaiff person a ddynodir gan awdurdod lleol arfer swyddogaethau swyddog gorfodaeth ond mewn perthynas â thramgwydd (neu dramgwydd honedig) yn groes i ofyniad yn rheoliad 6(1), 7(1), 8(1), 10(1) neu (4), 11(4) neu 12(2).

(3) Ni chaiff person a ddynodir gan awdurdod Parc Cenedlaethol neu Gyfoeth Naturiol Cymru arfer swyddogaethau swyddog gorfodaeth ond mewn

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

perthynas â thramgwydd (neu dramgwydd honedig) yn groes i'r gofyniad yn rheoliad 11(4).

**Camau gorfodi**

**18.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth roi hysbysiad cydymffurfio i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod y person yn torri gofyniad yn rheoliad 6(1), 7(1), 8(1), 10(1) neu (4) neu 12(2).

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio bennu mesurau y mae rhaid i'r person y rhoddir ef iddo eu cymryd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn atal y person hwnnw rhag parhau i dorri'r gofyniad.

(3) Os oes gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 11(4), caiff y swyddog gorfodaeth dynnu P o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 11(7)) sydd ar gau (neu sy'n cael ei gau) yn rhinwedd rheoliad 11(1), a chaiff ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, i wneud hynny.

(4) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod pobl yn ymgynnull yn groes i reoliad 14(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo'r cynulliad i wasgaru;

(b) cyfarwyddo unrhyw berson yn y cynulliad i ddychwelyd i'r man lle y mae'n byw;

(c) mynd ag unrhyw berson yn y cynulliad i'r man lle y mae'n byw.

(5) Caiff swyddog gorfodaeth—

(a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (4), gyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;

(b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (4)(a) neu (c).

(6) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") mewn cynulliad yn groes i reoliad 14(1) a'i fod yn blentyn gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

(a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a

(b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(7) At ddibenion paragraff (6), mae gan U gyfrifoldeb am blentyn os oes gan U—

(a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu

(b) cyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(8) Caiff swyddog gorfodaeth gymryd camau gweithredu eraill i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y rheoliad hwn neu reoliad 19.

(9) Ni chaiff swyddog gorfodaeth ond arfer pŵer dan y rheoliad hwn neu reoliad 19 os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

(10) Yn y rheoliad hwn a rheoliadau 19 ac 20, mae cyfeiriadau at ofyniad yn cynnwys cyfeiriadau at gyfyngiad.

**Pŵer mynd i mewn**

**19.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre—

(a) os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael, wedi cael, neu ar fin cael ei dorri yn y fangre, a

(b) os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw'r gofyniad yn cael, wedi cael neu ar fin cael ei dorri.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

(a) defnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre os yw'n angenrheidiol;

(b) cymryd unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

(a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r swyddog ac amlinellu'r diben yr arferir y pŵer;

(b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, rhaid i'r swyddog adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

**Troseddau a chosbau**

**20.**—(1) Mae person sydd—

(a) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad **Error! Reference source not found.**, 7(1), 8(1), 10**Error! Reference source not found.** neu **Error! Reference source not found.**, 11(4), 12(1) neu 16(1), neu

(b) yn torri gofyniad yn rheoliad 14(1),

yn cyflawni trosedd.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson rhag cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol—

(a) yn torri cyfarwyddyd a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 18(4), (5)(a) neu (6), neu

(b) yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 18(1),

yn cyflawni trosedd.

(4) Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.

(5) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(**1**) yn gymwys mewn perthynas â throsedd o dan y rheoliad hwn fel petai'r rhesymau yn is-adran (5) yn cynnwys—

(a) i gynnal iechyd y cyhoedd;

(b) i gynnal trefn gyhoeddus.

(6) Os profir bod trosedd o dan baragraff 20(1) wedi ei chyflawni gan gorff corfforedig—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff hwnnw, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y swyddog hwnnw,

mae'r swyddog (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn, i gael achos yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

(8) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid.

(9) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r corff yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'i aelodau ac, at ddibenion unrhyw achos o'r fath, mae unrhyw reolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r corff hwnnw yn gorff corfforedig.

(10) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**2**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**3**) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir

---

(**1**) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15).
(**2**) 1925 p. 86.
(**3**) 1980 p. 43.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth fel y maent yn gymwys i gorff corfforedig.

(11) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y bartneriaeth.

(12) Mae dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y gymdeithas.

**Hysbysiadau cosb benodedig**

**21.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol—

(a) ei fod wedi cyflawni trosedd dan y Rheoliadau hyn, a

(b) ei fod yn 18 oed neu drosodd.

(2) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

(a) awdurdod lleol, neu

(b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn,

fel y caiff yr hysbysiad ei bennu.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru eu dynodi hwy eu hunain o dan baragraff (2)(b).

(4) Caiff person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan reoliad 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) ei drin fel pe bai wedi ei ddynodi at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(5) Pan fo awdurdod lleol wedi ei bennu yn yr hysbysiad rhaid iddo fod yn awdurdod (neu yn ôl y digwydd, unrhyw un o'r awdurdodau) yr ardal yr honnir bod y drosedd wedi ei chyflawni ynddi.

(6) Pan ddyroddir hysbysiad i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

(a) ni chaniateir dwyn achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod 28 o ddiwrnodau yn dilyn dyddiad dyroddi'r hysbysiad;

(b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(7) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80). Diwygiwyd rheoliad 13 gan O.S. 2020/399 (Cy. 88) ac O.S. 2020/529 (Cy. 124).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) rhoi manylion rhesymol fanwl am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn creu'r drosedd;

(b) datgan y cyfnod pryd (oherwydd paragraff (6)(a)) na ddygir achos am y drosedd;

(c) pennu swm y gosb benodedig;

(d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo;

(e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(8) Rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (7)(c) fod yn £60 (yn ddarostyngedig i baragraffau (9) ac (10)).

(9) Caiff hysbysiad cosb benodedig bennu, os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau yn dilyn dyddiad yr hysbysiad, mai dyna yw swm y gosb benodedig.

(10) Os yw'r person y dyroddir hysbysiad cosb benodedig iddo eisoes wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn—

(a) nid yw paragraff (9) yn gymwys, a

(b) rhaid i'r swm a bennir fel y gosb benodedig fod—

(i) yn £120 yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(ii) yn £240 yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(iii) yn £480 yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(iv) yn £960 yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(v) yn £1920 yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig olynol.

(11) Wrth gyfrifo nifer yr hysbysiadau cosb penodedig y mae person wedi eu cael, mae hysbysiadau cosb penodedig a ddyroddir i'r person hwnnw o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) i'w cymryd i ystyriaeth.

(12) Beth bynnag y bo unrhyw ddull arall a bennir o dan baragraff (7)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy dalu ymlaen llaw a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y nodir ei enw o dan baragraff (7)(d) i'r cyfeiriad a nodir.

(13) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel a grybwyllir ym mharagraff (12), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfon yn nhrefn arferol y post.

(14) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y person sydd â chyfrifoldeb am faterion ariannol—

(i) yr awdurdod lleol, neu

(ii) y person a ddynodir o dan baragraff (2)(b),

a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a

(b) sy'n datgan bod y taliad am y gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y tystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

(15) Pan ddyroddir cosb benodedig mewn perthynas â'r drosedd honedig o dorri'r gofyniad yn rheoliad 11(4), mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at "awdurdod lleol" i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

**Erlyn**

**22.**—(1) Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 14 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) ei drin fel pe bai wedi ei ddynodi o dan y rheoliad hwn.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.40 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 1

Rheoliad 6

## Mangreoedd sy'n gwerthu bwyd a diod i'w bwyta ac i'w hyfed yn y fangre

**1.**—(1) Bwytai, gan gynnwys bwytai ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau ac ym mangreoedd busnesau a restrir yn Atodlen 3.

**2.**—(1) Caffis, gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle (yn ddarostyngedig i is-baragraff (2)), a chaffis ym mangreoedd busnesau a restrir yn Atodlen 3, ond heb gynnwys—

(a) caffis neu ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal neu ysgol;

(b) ffreuturau mewn carchar neu sefydliad y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn;

(c) gwasanaethau sy'n darparu bwyd neu ddiod i'r digartref.

(2) Caiff ffreuturau yn y gweithle aros ar agor—

(a) pan na fo dewis arall ymarferol i staff yn y gweithle hwnnw i gael bwyd; a

(b) pan gymerir pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng unrhyw berson sy'n defnyddio'r ffreutur.

**3.** Bariau, gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau neu ym mangreoedd busnesau a restrir yn Atodlen 3.

**4.** Tafarndai.

# ATODLEN 2

Rheoliad 7

## Y busnesau a'r gwasanaethau y mae'n ofynnol eu cau

**1.** Sinemâu dan do.

**2.** Theatrau.

**3.** Clybiau nos.

**4.** Neuaddau bingo.

**5.** Neuaddau cyngerdd.

**6.** Casinos.

**7.** Parlyrau tylino.

**8.**Salonau ewinedd a harddwch.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**9.** Sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu’r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo.

**10.** Canolfannau sglefrio.

**11.** Pyllau nofio.

**12.** Stiwdios ffitrwydd dan do, campfeydd, sbaon, neu ganolfannau neu gyfleusterau hamdden dan do eraill.

**13.** Alïau bowlio, arcedau diddanu a mannau chwarae dan do.

**14.**Amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau.

**15.** Unrhyw ran o atyniad i ymwelwyr sydd o dan y ddaear (ond heb gynnwys unrhyw ran o atyniad nad yw ond o dan ddaear yn rhinwedd y ffaith bod y rhan honno yn islawr neu’n rhan arall o adeilad sydd o dan lefel y ddaear.

**16.** Ffeiriau pleser (boed yn yr awyr agored neu dan do).

**17.**Meysydd chwarae a champfeydd awyr agored.

**18.** Tai arwerthiant (ac eithrio arwerthiannau da byw).

## ATODLEN 3 — Rheoliad 8

## Llety gwyliau

**1.** Safleoedd gwyliau.

**2.** Safleoedd gwersylla.

**3.** Gwestai a llety gwely a brecwast.

**4.** Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

## ATODLEN 4 — Rheoliad 12

## Busnesau a gwasanaethau a gaiff agor yn amodol ar fesurau diogelu

**1.** Unrhyw fusnes sy’n gwerthu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu hurio mewn siop.

**2.** Fferyllfeydd (yn cynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn darparu cyffuriau ar bresgripsiwn) a siopau cemist.

**3.** Gorsafoedd petrol.

**4.** Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.

**5.** Busnesau tacsi neu logi cerbydau.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**6.** Banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, darparwyr benthyciadau tymor byr, clybiau cynilo, peiriannau arian parod ac ymgymeriadau sydd, o ran eu busnes, yn gweithredu swyddfeydd cyfnewid arian cyfred, yn trawsyrru arian (neu unrhyw gynrychiolaeth o arian) drwy unrhyw ddull neu sieciau arian parod sydd wedi eu gwneud yn daladwy i gwsmeriaid.

**7.** Swyddfeydd post.

**8.** Trefnwyr angladdau.

**9.** Golchdai a siopau glanhau dillad.

**10.** Gwasanaethau deintyddol, optegwyr, gwasanaethau awdioleg, trin traed, ceiropractyddion, osteopathiaid a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

**11.** Milfeddygon a siopau anifeiliaid anwes.

**12.** Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.

**13.** Cyfleusterau storio a dosbarthu, gan gynnwys mannau gollwng danfoniadau.

**14.** Meysydd parcio.

**15.** Toiledau cyhoeddus.

**16.** Llyfrgelloedd.

**17.** Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

**18.** Delwriaethau ceir.

**19.** Marchnadoedd awyr agored.

**20.** Siopau betio.

**21.** Canolfannau siopa ac arcedau siopa o dan do.

**22.** Sinemâu awyr agored.

**23.** Salonau gwallt a barbwyr.

**24.** Atyniadau i ymwelwyr (ond dim ond i'r graddau nad yw paragraff 15 o Atodlen 2 yn gymwys).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

10 Gorffennaf 2020

**1. Disgrifiad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y Reoliadau gwreiddiol”) a'r holl Reoliadau sydd wedi diwygio'r Rheoliadau gwreiddiol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth newydd am y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n angenrheidiol i ddiogelu yn erbyn y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o coronafeirws.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y

Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig llacio'r cyfyngiadau a geir yn wreiddiol yn y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau bellach wedi'i penodi yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cynnwys hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae’r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio’r cyfyngiadau drwy’r Rheoliadau

gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal
Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Reoliadau yma yn gwneud darpariaeth mewn tri maes allweddol c:

a) ei gwneud yn ofynnol i rai busnesau ac adeiladau gau;

b) ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ac mewn mangreoedd sy'n cael agor, leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws;

c) chyfyngu crynoadau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn.

Er bod y Rheoliadau hyn yn dirymu'r Rheoliadau gwreiddiol maent hefyd yn adfer (gyda rhywfaint o lacio – gweler isod) gofynion ar gyfer cau busnesau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod, llety gwyliau, a busnesau eraill, i ddiogelu yn erbyn y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o coronafeirws. Maent hefyd yn parhau â'r ddyletswydd

ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, adnoddau Cenedlaethol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed neu gael mynediad i dir er mwyn atal niferoedd mawr o bobl rhag ymgasglu neu fod yn agos at ei gilydd, a chyhoeddi rhestr o'r rhai sydd yn cau ar eu gwefannau.

Yn wreiddiol, dim ond os oedd y bwyd a'r ddiod i'w fwyta oddi ar y safle y gallai busnesau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod agor i'r diben hwnnw. Mae hyn yn parhau i fod yn wir yn y Rheoliadau hyn, ond yn ogystal gall busnesau hefyd yn awr werthu bwyd i'w fwyta ar unrhyw ran o'u mangreoedd sydd yn yr awyr agored.

Drwy newid hefyd y rhestr o fusnesau sy'n gorfod cau, yr effaith yw y gall salonau gwallt a barbwyr, a llety hunangynhwysol bellach ailagor. Gall addoldai hefyd agor yn amodol ar fesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws y rhai sydd ar y safle. Gall sinemâu yn yr awyr agored agor (ond rhaid i sinemâu dan do aros ar gau).

Mae pryderon o hyd bod fwy o risg i'r firws gael ei drosglwyddo mewn mathau penodol o fusnes a/neu safleoedd. Mae hyn yn arbennig o wir lle y gallai fod yn anodd sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu pellhau'n gorfforol gan adeiladau lle mae'r awyru yn wael neu lle cyfyng sy'n anodd eu tramwyo, a/neu amgylchedd gwaelodol sy'n llaith ac yn swnllyd, a'r rhai sydd â llawer o arwynebau arwyneb sy'n cael eu cyffwrdd yn aml. Felly, rhaid i'r busnesau a'r safleoedd hyn aros ar gau am y tro.

Pan fo busnesau neu fangreoedd yn gallu agor, neu lle mae pobl yn gweithio, mae rhan 3 o'r Rheoliadau yn nodi mesurau rhesymol y mae'n rhaid eu cymryd i leihau amlygiad i coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hyn yn parhau â'r gofynion a sefydlwyd yn y Rheoliadau gwreiddiol bod yn rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng personau ar y fangre, a phan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i mewn i'r fangre, bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau bellach yn gofyn am ystod o fesurau rhesymol eraill gyda'r bwriad o leihau amlygiad i'r firws, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb a chynnal hylendid.

Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar gymryd camau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws y mae'n rhaid i bersonau sy'n gyfrifol am gymryd mesurau rhesymol o dan y rheoliadau roi sylw iddynt.

Mae rhan 4 o'r Rheoliadau yn cwmpasu crynoadau â phersonau eraill – naill ai mewn gwaith neu mewn cyd-destun cymdeithasol. Fel yn y Rheoliadau gwreiddiol, mae'n rhaid i unigolyn barhau i weithio o'i gartref lle mae'n ymarferol iddo wneud hynny. Rhaid i berson barhau i ymgynnull dan do gyda rhywun heblaw aelod o'i aelwyd neu ei ofalwr, neu'r sawl y mae'n gofalu amdano, os oes ganddo esgus rhesymol dros wneud hynny (Mae enghreifftiau o hyn wedi'u nodi yn y Rheoliadau). Mae'r un rheol yn berthnasol i gasglu yn yr awyr agored ac eithrio bod crynhoad gydag aelodau un aelwyd arall yn cael ei ganiatáu hefyd. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn parhau â'r cysyniad o ' aelwydydd estynedig ' sydd wedi'u caniatáu yng Nghymru o 6 Gorffennaf 2020. I bob pwrpas, gall pobl mewn dau gartref gytuno i ddod yn rhan o un aelwyd a mwynhau'r un rhyddid cyfreithiol sydd gan yr aelwyd –

byddant yn gallu cwrdd dan do a chael cyswllt corfforol. Os yw dwy aelwyd wedi gwneud y cytundeb hwnnw o dan y rheoliadau gwreiddiol, byddant yn cael eu trin fel cartref unigol o dan y Rheoliadau hyn (sy'n golygu na allant sefydlu aelwyd estynedig wahanol). Efallai nad yw'r ddwy aelwyd yn byw yng Nghymru o anghenraid ond yn y sefyllfa honno cânt eu trin fel aelwyd unigol cyn belled ag y mae'r Rheoliadau hyn yn y cwestiwn a phe bai un o'r aelwydydd yn ceisio ffurfio aelwyd estynedig gyda thrydydd aelwyd y tu allan i Gymru na fyddai'n cael ei chaniatáu o dan y Rheoliadau hyn, hyd yn oed pe bai'n cael ei ganiatáu o dan y gyfraith sy'n gymwys yn y diriogaeth arall lle roedd y trydydd aelwyd yn byw.

Mae'r Rheoliadau hyn bellach yn darparu hefyd y caiff unigolion, gan gynnwys aelodau o'r cartref (wedi'i estyn neu fel arall), ymgynnull gydag unigolion eraill os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd yn yr awyr agored a drefnwyd, ar yr amod nad oes mwy na 30 o unigolion yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwnnw.

Yr effaith y bwriedir i'r ddarpariaeth hon ei chael yw y caiff pobl ymuno â'i gilydd y tu allan i gymryd rhan mewn gweithgaredd, er enghraifft chwaraeon neu daith o amgylch atyniad awyr agored efallai, lle mae trefnydd y digwyddiad sydd wedi cynnal asesiadau risg priodol ac yn ystod y gweithgaredd yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws y cyfranogwyr.

Mae'r drefn orfodi (gan gynnwys lefelau dirwy) a sefydlwyd yn y Rheoliadau gwreiddiol wedi'i pharhau yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, gall swyddogion gorfodi (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel ' personau perthnasol ') bellach gyhoeddi 'hysbysiadau cydymffurfio '. Gallai hysbysiadau o'r fath, er enghraifft, nodi'r mathau o fesurau rhesymol y dylai busnes ac ati eu mabwysiadu er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws ac felly fod yn cydymffurfio â'r gofyniad yn Rheoliad 12.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau arbed angenrheidiol yng ngoleuni dirymu'r Rheoliadau gwreiddiol a'u diwygiadau dilynol.

Bydd y Reoliadau newydd yn dod i ben ar 9 Ionawr 2021. Wrth i'r bygythiad o coronafeirws barhau, credir ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur rhoi'r Rheoliadau hyn yn eu lle am 6 mis. Yn benodol, mae hyn yn rhoi sicrwydd i weithwyr a'r cyhoedd y bydd yn ofynnol i fangreoedd sy'n agored iddynt barhau i gymryd camau rhesymol i leihau eu risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae gafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Reoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau gwreiddiol hynny.
Mae'r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill wedi nodi drwy nifer o gynadleddau a datganiadau i'r wasg ers 19 Mehefin y bwriad i gyflawni'r newidiadau a gyflawnwyd yn y Rheoliadau a wnaed heddiw, os byddai amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn eu hadrodd yn eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau'n cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 10 Gorffennaf.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried bod nifer o'r sectorau dan asesiad wedi cau mewn grwpiau sydd dan anfantais anghymesur. Mae lliniaru'r amcanion a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl PDDLLE neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai ailagor cynlluniau hefyd roi cyfrif am anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, fel hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol ar ddechrau 11 Gorffennaf 2020, gyda'r darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym ar 13 Gorffennaf 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 1 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol.

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, a'r Rheoliadau diwygio dilynol sydd wedi'u gwneud. Bydd hyn yn golygu na fydd angen cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 na Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 bellach. Bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn tynnu'r cynigion a oedd i fod i gael eu hystyried at 15 Gorffennaf yn eu hôl a bydd diwygiadau priodol yn cael eu gwneud i'r Datganiad Busnes.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **10 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (‘y Rheoliadau’) yn gorfodi cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau, ar symudiadau pobl, ac ar weithrediaeth busnesau, gan gynnwys cau busnesau. Maent hefyd yn gorfodi gofynion ar fusnesau sydd ar agor i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unigolion yn cadw pellter corfforol oddi wrth ei gilydd. Gwnaed hyn er mwyn diogelu pawb rhag lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

O dan reoliad 3(2), mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu’r angen am ofynion a chyfyngiadau yn y rheoliadau, a’u cymesuredd, bob 21 o ddiwrnodau. Cynhaliwyd y pumed adolygiad o’r rheoliadau hyn yr wythnos hon.

Mae’r cyngor gwyddonol a meddygol yn dangos bod y coronafeirws yn parhau i leihau yng Nghymru. Mae nifer yr achosion newydd sydd wedi’u cadarnhau wedi gostwng, yn dilyn cynnydd yn ddiweddar yn sgil achosion mewn ffatrïoedd prosesu cig a bwyd yn Wrecsam ac Ynys Môn a digwyddiad ym Merthyr Tudful.

Mae ein system Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio'n dda – mae’r system hon wedi chwarae rhan hanfodol yn ein hymateb i’r pandemig coronafeirws ers ei lansio a bydd yn allweddol wrth inni barhau i lacio’r cyfyngiadau.

Fel yr wyf eisoes wedi amlinellu, mae Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau y DU (SAGE) a Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru yn dweud bod pob newid i fesurau’r cyfyngiadau yn cael effaith gronnol. Dylid felly gyflwyno’r newidiadau fesul cam a'u monitro'n ofalus.

Rydym eisoes wedi gwneud llawer o newidiadau sylweddol i'r cyfyngiadau yng Nghymru mewn cylchoedd adolygu diweddar, gan gynnwys codi'r gofyniad i aros yn lleol a chyflwyno aelwydydd estynedig yn yr wythnos diwethaf.

Byddwn yn parhau i weithredu fesul cam i alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ailddechrau mwy o wasanaethau hanfodol – mae gan bob disgybl nawr y cyfle i ddychwelyd i'r ysgol i ailgydio a dal i fyny cyn gwyliau'r haf, er enghraifft.

Byddwn hefyd yn defnyddio peth o'r hyblygrwydd sydd gennym i alluogi'r GIG i ddarparu mwy o ofal a thriniaeth hanfodol – mae gwasanaethau sgrinio am ganser wedi ailddechrau; mae gwasanaethau deintyddol ac optometreg wedi symud i'r cam oren ac mae gan fyrddau iechyd nawr gynlluniau chwarter dau. Diolch i dechnoleg ymgynghori dros fideo, roedd modd i filoedd o bobl gael gofal sylfaenol ac eilaidd pan oedd y pandemig ar ei anterth, ac rydym yn cyflwyno'r dechnoleg hon i bractisau deintyddol, optometryddion a fferyllfeydd cymunedol, fel y gall pobl gael gofal iechyd yn gyflym ac yn ddiogel.

Ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth a dangosyddion, mae'r amodau yn cefnogi camau graddol i lacio'r cyfyngiadau ar draws nifer o feysydd.

Byddwn eto yn gweithredu o wythnos i wythnos o ran codi'r cyfyngiadau ymhellach yng Nghymru.

Yn yr wythnos gyntaf, bydd llety gwyliau hunangynhwysol heb gyfleusterau a rennir yn ailagor o ddydd Sadwrn 11 Gorffennaf ymlaen.

O ddydd Llun 13 Gorffennaf ymlaen, bydd y sectorau a'r busnesau canlynol yn gallu agor, ar yr amod eu bod yn dilyn y canllawiau ar ffyrdd diogel o weithredu o ran y coronafeirws.

- Salon trin gwallt a barbwr, gan gynnwys pobl trin gwallt symudol.
- Tafarndai, bariau, bwytai a chaffis awyr agored.
- Sinemâu awyr agored.
- Atyniadau dan do i ymwelwyr, ac eithrio nifer bach o atyniadau tanddaearol a fydd yn gorfod parhau i fod ar gau am y tro oherwydd y risg uwch yn gysylltiedig â'r amgylchiadau hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r atyniadau hyn tuag at eu hailagor yn ddiogel.
- Mannau addoli. Gall arweinwyr ffydd ddechrau ail-gynnal gwasanaethau eto yn raddol pan fyddant yn teimlo'n ddiogel i wneud hynny.

Rydym yn gwneud newidiadau i’r rheoliadau i ganiatáu cynulliadau mwy yn yr awyr agored o hyd at 30 o bobl, pan fyddant wedi'u trefnu ac yn cael eu goruchwylio gan berson cyfrifol. Bydd hyn yn caniatáu i weithgareddau chwaraeon a hamdden, megis dosbarthiadau ffitrwydd a dawnsio gael eu cynnal yn yr awyr agored, yn ogystal ag addoli ar y cyd. Bydd hyn yn cynnwys elusennau, busnesau a chlybiau chwaraeon a bydd angen cynnal asesiad risg.

Yn yr ail wythnos, o 20 Gorffennaf ymlaen, byddwn yn cael gwared ar y cyfyngiadau presennol ar feysydd chwarae a champfeydd awyr agored. Bydd y rhain yn ailagor yn raddol dros yr wythnosau nesaf pan fydd gwiriadau diogelwch a mesurau eraill yn cael eu rhoi ar waith. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i helpu canolfannau cymunedol i ailddechrau mwy o wasanaethau cyhoeddus yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol. Bydd hyn yn eu galluogi i weithredu mewn ffordd sy'n ddiogel o ran y coronafeirws.

Dylai hyn gael effaith gadarnhaol drwy ehangu gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr yn y gymuned, gan gynnwys cefnogi ymdrechion diogelu i ymateb i nifer o'r problemau sydd o bosibl wedi cael eu cuddio, neu wedi gwaethygu yn ystod y cyfyngiadau, yn anffodus. Ymysg y gwasanaethau hanfodol hynny y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid a ddarperir gan sefydliadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol. Rydym yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc a'r sector i ddatblygu canllawiau penodol i'w helpu i ailagor yn ehangach, a bydd hyn yn dilyn yn fuan wedi hynny. Bydd ailagor canolfannau cymunedol hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gynnal cynlluniau chwarae a gofal plant dros yr haf.

Yn y drydedd wythnos, byddwn yn edrych eto ar y cyngor a'r dystiolaeth iechyd ddiweddaraf ac yn ystyried ailagor y meysydd canlynol o 27 Gorffennaf ymlaen. Bydd penderfyniad terfynol yn dibynnu ar y sefyllfa iechyd ar y pryd a bydd angen i’r paratoadau angenrheidiol fod wedi cael eu rhoi ar waith:

- Gwasanaethau cyswllt agos, gan gynnwys salonau ewinedd a harddwch a busnesau sy'n darparu gwasanaethau tywyllu'r croen, tylino, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo.

- Pob math o lety i dwristiaid sy'n weddill, sydd wedi bod ar gau yn sgil risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhannu cyfleusterau, megis meysydd pebyll. Byddai’r rhain yn agor o 25 Gorffennaf ymlaen.

- Sinemâu, amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau dan do.

- Ailagor y farchnad dai yn llawn i ganiatáu ymweliadau ag eiddo wedi’i feddiannu.

Cynhelir yr adolygiad ffurfiol nesaf o'r Rheoliadau ar 30 Gorffennaf. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau manwl gyda diwydiant am sut y gall busnesau lletygarwch

weithredu dan do mewn ffordd sy'n ddiogel o ran y coronafeirws. Rydym yn ystyried ailagor y maes hwn o 3 Awst ymlaen, gan ddibynnu ar yr amodau a chyhyd â bod mesurau wedi'u rhoi ar waith.

Cyn yr adolygiad nesaf, byddwn hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr eraill i ddeall sut y gall campfeydd, canolfannau hamdden, stiwdios ffitrwydd a phyllau nofio gymryd camau lliniaru er mwyn gallu agor yn y dyfodol. Rwyf wedi gofyn i waith penodol gael ei wneud ynglŷn â phyllau nofio a'r coronafeirws.

Rydym hefyd wedi adolygu'r dystiolaeth ar y gofyniad 2 fetr, a nodir yn ein Rheoliadau.

Y cyngor yr ydym wedi'i gael gan Brif Swyddog Meddygol Cymru yw bod y dystiolaeth dros gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn glir o ran yr effaith uniongyrchol ar iechyd: mae cadw 2 fetr o bellter yn rhoi mwy o ddiogelwch nag 1 metr – tua dwy i bum gwaith y diogelwch yn absenoldeb unrhyw fesurau eraill i ddiogelu unigolyn.

Fodd bynnag, gellir cymryd nifer o gamau i leihau'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws pan nad yw cadw pellter o 2 fetr bob amser yn ymarferol, megis ar drafnidiaeth gyhoeddus neu pan nad oes modd cynnal busnes a chadw pellter o 2 fetr.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau yr wythnos nesaf ar y camau lliniaru ychwanegol hyn, er mwyn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan bobl mewn amgylchiadau eithriadol pan nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Rhaid cadw at y canllawiau hyn, ac fe gyfeirir atynt yn y Rheoliadau.

Rwy'n ddiolchgar iawn i randdeiliaid a grwpiau cynrychioladol ledled Cymru o'r sectorau amrywiol am weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y misoedd a'r wythnosau diwethaf i baratoi at y camau llacio pwysig hyn, gan gynnwys y cymorth i lunio canllawiau.

Yn yr un modd, rwy'n ddiolchgar i bobl Cymru am eu hymdrechion a'u cefnogaeth barhaus wrth fynd i'r afael â'r pandemig hwn. Daliwn ati i ddiogelu Cymru gyda'n gilydd.

# SL(5)584 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARSCoV-2) yng Nghymru, sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu'r "coronafeirws".

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- caniatáu ailagor ffeiriau, meysydd chwarae a champfeydd awyr agored (fodd bynnag, rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am y lleoliadau hyn gymryd pob cam rhesymol o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws); a
- nodi'n glir fod gan bobl sy'n mynd i fan addoli esgus resymol i ymgynnull (yn unol â gofynion y prif Reoliadau).

## Gweithdrefn

'Gwnaed' cadarnhaol.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gwneud er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

1. Mae'r troednodyn i reoliad 2(1) yn cyfeirio at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ond ymddengys iddo nodi'r rhif SI anghywir. Rydym yn cymryd y dylai gyfeirio at "S.I. 2020/725 (*W.162*)" [*ein pwyslais ni*], yn lle "S.I. 2020/725 (W.163)".

Rydym yn derbyn nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben cynnwys y troednodyn yw cynorthwyo'r darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r cyfeiriad gael ei ddiweddaru i

gyfeirio at y rheoliadau cywir.

2. Ymddengys bod geiriau ar goll ar ddechrau paragraff cyntaf fersiwn Saesneg y Nodyn Esboniadol, oherwydd ar hyn o bryd mae'r paragraff yn dechrau fel a ganlyn: "sAct 1984". Rydym yn cymryd y dylai'r paragraff ddechrau fel a ganlyn: "Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984..." (fel ag y mae yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau hyn).

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys pedwar cyfeiriad at "y Rheoliadau gwreiddiol". Ni ddiffinnir y term hwn, ond ymddengys ei fod yn cyfeirio at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

O gofio bod y term 'y Rheoliadau gwreiddiol" yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn y Memorandwm Esboniadol i'r Prif Reoliadau, rydym o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r darllenydd os byddai'r un diffiniad yn cael ei ddefnyddio yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 752 (Cy. 169)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n galluogi ffeiriau pleser, meysydd chwarae awyr agored a champfeydd awyr agored i agor, ond rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am y mangreoedd hyn gymryd pob mesur rhesymol o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) sy'n egluro bod gan bersonau sy'n mynd i fan addoli esgus rhesymol dros ymgynnull (unwaith eto yn unol â gofynion rheoliad 12).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  
C Y M R U

# 2020 Rhif 752 (Cy. 169)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

*Gwnaed am 1.55 p.m. ar 17 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 3.30 p.m ar 17 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym 20 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

---

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 20 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14(2), ar ôl paragraff (h) mewnosoder—

"(ha) mynd i fan addoli;"

(3) Yn Atodlen 2 hepgorer paragraffau 16 a 17.

(4) Yn Atodlen 4 mewnosoder—

"**25**. Ffeiriau pleser.

**26**. Meysydd chwarae a champfeydd awyr agored.".

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 1.55 p.m. ar 17 Gorffennaf 2020

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 163).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

17 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y prif Reoliadau”) drwy ganiatáu ailagor ffeiriau, meysydd chwarae a champfeydd awyr agored. Maent hefyd yn diwygio’r prif Reoliadau i nodi’n glir ei bod yn esgus resymol i ymgynnull mewn man addoli, a dyna pam y cyflwynir y geiriad ehangach arfaethedig. Nid oes terfyn rhifiadol ar gasglu mewn mannau addoli ond mae hefyd yn ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am addoldai gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu coronafeirws (ymbellhau cymdeithasol, cyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb, hylendid gwell ac ati).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig llacio'r cyfyngiadau a geir yn wreiddiol yn  y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sydd yn awr wedi’u nodi yn y prif Reoliadau a’u diwygio yn unol â’r Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cynnwys hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio’r cyfyngiadau drwy’r Rheoliadau

gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae’n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny’n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i’r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwneir y Reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae’r Reoliadau hyn yn diwygio’r prif Reoliadau i wneud y canlynol:

- Rhoi eglurder ei bod yn esgus resymol i ymgynnull mewn man addoli;
- Caniatáu ailagor meysydd chwarae a champfeydd awyr agored;
- Caniatáu ailagor ffeiriau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn parhau â'r gofynion a sefydlwyd yn y Rheoliadau gwreiddiol bod yn rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng personau ar y fangre, a phan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i mewn i'r fangre, bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau bellach yn gofyn am ystod o fesurau rhesymol eraill gyda'r bwriad o leihau’r tebybolrwydd o ddod i gysylltiad â’r feirws, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb a chynnal hylendid.

Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar gymryd camau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws y mae'n rhaid i bersonau sy'n gyfrifol am gymryd mesurau rhesymol o dan y rheoliadau roi sylw iddynt.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio'r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fe gafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Reoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau gwreiddiol hynny. Mae'r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill wedi nodi drwy nifer o gynadleddau a datganiadau i'r wasg ers 19 Mehefin y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 10 Gorffennaf.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.
https://llyw.cymru/adolygiadau-21-diwrnod-o-fesurau-i-reoli-covid-19-adolygiad-18-mehefin-asesiad-or-effaith-ar
https://llyw.cymru/asesiad-or-mesurau-ychwanegol-gynigir-i-reoli-covid-19-ung-nghymru-o-6-gorffenaf-asesiad-or-effaith

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb

o ystyried bod cau nifer o'r sectorau a asesir wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae’r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl BAME neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai’r cynlluniau i ailagor hefyd ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, megis hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Gorffennaf 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 8 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 5 Awst.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad Interim Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **17 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (‘y rheoliadau’) yn gorfodi cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau, ar symudiadau pobl, ac ar weithrediaeth busnesau, gan gynnwys cau busnesau. Maent hefyd yn gorfodi gofynion ar fusnesau sydd ar agor i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unigolion yn cadw pellter corfforol oddi wrth ei gilydd. Gwnaed hyn er mwyn diogelu pawb rhag lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

O dan reoliad 4, mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu’r angen am y gofynion a’r cyfyngiadau yn y rheoliadau, a’u cymesuredd, bob 21 o ddiwrnodau. Cynhelir adolygiad 21 diwrnod nesaf y rheoliadau erbyn 30 Gorffennaf.

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 10 Gorffennaf, nodais fy mwriad i edrych ar y rhain fesul wythnos gan ddefnyddio’r hyblygrwydd sydd gennym i lacio’r cyfyngiadau yng Nghymru ymhellach yn ystod y cyfnod o dair wythnos.

Yn ystod yr ail wythnos hon, byddwn yn dileu’r cyfyngiadau presennol ar feysydd chwarae a champfeydd awyr agored. Oherwydd bod y cyngor meddygol a gwyddonol yn dangos bod coronafeirws yn parhau i leihau yng Nghymru, caiff y mannau hyn ddechrau ailagor o 20 Gorffennaf. Mae dileu’r cyfyngiadau yn galluogi’r mannau hyn i ailagor, ond nid oes gorfodaeth arnynt i wneud hynny. Gall yr amserlen benodol ar gyfer ailagor amrywio o le i le wrth i awdurdodau lleol a gweithredwyr eraill sicrhau bod asesiadau risg wedi’u cynnal a bod mesurau ar waith i leihau’r risg o drosglwyddo’r feirws.

Mae ffeiriau – dan do ac awyr agored – wedi cymryd camau priodol i’w galluogi i ailagor. Bydd y rheoliadau’n cael eu diwygio i ddileu’r cyfyngiadau ar ffeiriau o 20 Gorffennaf, yn dilyn ailagor atyniadau dan do ac awyr agored yn yr wythnosau diwethaf.

Byddwn yn ailedrych ar y dystiolaeth eto yr wythnos nesaf i gadarnhau a yw’n bosibl inni ailagor gwasanaethau cysylltiad agos, sinemâu dan do, amgueddfeydd, orielau, gwasanaethau archifau ac ailagor y farchnad dai yn llawn.

Hoffwn unwaith eto, gofnodi fy niolch i bobl Cymru am helpu i ddiogelu Cymru.

https://llyw.cymru/cyngor-y-prif-swyddog-meddygol-ar-gampfeydd-dan-do-safleoedd-chwarae-dan-do-ac-awyr-agored-ffeiriau

# SL(5)587 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif reoliadau”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”) mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn (a ddaeth i rym ar 25 Gorffennaf 2020) yn cynnwys darpariaeth–

- sy’n caniatáu i atyniadau tanddaearol i ymwelwyr agor (bydd yn ofynnol i’r personau sy’n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy’n dileu’r gofyniad i gau llety gwyliau nad yw’n hunangynhwysol (bydd yn ofynnol i’r personau sy’n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy’n dileu’r gofyniad a osodwyd ar unigolion i weithio gartref pan fo’n rhesymol ymarferol; ac
- sy’n egluro y caniateir i esgus rhesymol dros ymgynnull â phersonau eraill gynnwys cael gafael ar unrhyw wasanaethau cyhoeddus a gofal plant, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o dan oruchwyliaeth i blant.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn (a ddaeth i rym ar 27 Gorffennaf 2020) yn cynnwys darpariaeth–

- sy’n caniatáu agor amlosgfeydd (yn llawn), sinemâu dan do, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tylino, sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu’r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo, arcedau diddanu, amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau (bydd yn ofynnol i’r personau sy’n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy’n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy’n teithio ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb (yn ddarostyngedig i rai eithriadau); ac
- sy’n llacio’r cyfyngiad ar gynulliadau i ganiatáu ystod ehangach o weithgareddau sy’n ymwneud â gwerthu a gosod eiddo preswyl, megis gweld eiddo sydd wedi ei feddiannu.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd

wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

1. Mae rheoliad 3(12)(ii) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 20(1)(a) o'r prif Reoliadau fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:

   "(a) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad 6(1), 7(1), 10(4), 11(4) *neu* 12(2) *neu* 12A(1)," *[pwyslais wedi'i ychwanegu]*

   Mae'r diwygiad yn creu polysyndeton (ailadroddir y cysylltiad yn ddiangen). Er nad yw hyn yn arwain at ddrafftio diffygiol, rydym o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r darllenydd pe bai strwythurau brawddegau anarferol yn cael eu hosgoi cyn belled ag y bo modd.

2. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro bod hyn oherwydd yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys, i ymdrin â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 803 (Cy. 176)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Daw'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2 i rym ar 25 Gorffennaf 2020; daw'r rheini a wneir gan reoliad 3 i rym ar 27 Gorffennaf 2020.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2 yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n caniatáu i atyniadau tanddaearol i ymwelwyr agor, ond bydd yn ofynnol i'r personau sy'n gyfrifol am y mangreoedd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd;

(b) sy'n dileu'r gofyniad i gau llety gwyliau nad yw'n hunangynhwysol (ond eto bydd y gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd yn gymwys);

(c) sy'n dileu'r gofyniad a osodwyd ar unigolion i weithio gartref pan fo'n rhesymol ymarferol;

(d) sy'n egluro y caniateir i esgus rhesymol dros ymgynnull â phersonau eraill gynnwys cael gafael ar unrhyw wasanaethau cyhoeddus a gofal plant, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o dan oruchwyliaeth i blant.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n caniatáu agor amlosgfeydd (yn llawn), sinemâu dan do, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tylino, sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo, arcedau diddanu, amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau (ond fel uchod, bydd y gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd yn gymwys);

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy'n teithio ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb, yn ddarostyngedig i eithriadau sydd wedi eu rhestru, ac sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd hon;

(c) sy'n llacio'r cyfyngiad ar gynulliadau i ganiatáu ystod ehangach o weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu a gosod eiddo preswyl, megis gweld eiddo sydd wedi ei feddiannu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

## 2020 Rhif 803 (Cy. 176)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

*Gwnaed am 1.50 p.m. ar 24 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 5.00 p.m. ar 24 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2), (3) a (4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r rheoliad hwn i rym yn union wedi i'r Rheoliadau gael eu gwneud.

(3) Daw rheoliadau 2 a 4 i rym ar 25 Gorffennaf 2020.

(4) Daw rheoliad 3 i rym ar 27 Gorffennaf 2020.

**Diwygiadau sy'n dod i rym ar 25 Gorffennaf 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 8.

(3) Yn rheoliad 9, yn lle ", 7(1) neu 8(1)", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "neu 7(1)".

(4) Yn rheoliad 12(3), hepgorer is-baragraff (f).

(5) Yn rheoliad 14(2)—

(a) yn is-baragraff (j), hepgorer "hanfodol" a'r geiriau o ", gan gynnwys" hyd at y diwedd;

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(ja) cael gafael ar ofal plant neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan oruchwyliaeth i blant;".

(6) Hepgorer rheoliad 16.

(7) Yn rheoliad 17(2), hepgorer "8(1),".

(8) Yn rheoliad 18(1), hepgorer "8(1),".

(9) Yn rheoliad 20(1)(a)—

(a) hepgorer "8(1),"

(b) yn lle ", 12(1) neu 16(1)" rhodder "neu 12(2)".

(10) Yn Atodlen 1, ym mharagraffau 1, 2(1) a 3, yn lle "Atodlen 3" rhodder "Atodlen 4".

(11) Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 15.

(12) Hepgorer Atodlen 3.

(13) Yn Atodlen 4—

---

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ym mharagraff 24, hepgorer y geiriau mewn cromfachau;

(b) ar ôl paragraff 26 mewnosoder—

“**27**.—(1) Safleoedd gwyliau.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr “safle gwyliau” yw unrhyw dir yng Nghymru lle y gosodir cartref symudol neu garafán at ddibenion byw gan bobl (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â’r tir hwnnw), y mae’r caniatâd cynllunio perthnasol neu’r drwydded safle ar gyfer y tir mewn cysylltiad ag ef—

(a) wedi ei fynegi i’w roi neu wedi ei mynegi i’w rhoi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o’r flwyddyn pan na chaniateir gosod unrhyw gartref symudol neu garafán ar y safle i bobl fyw ynddo neu ynddi.

(3) At ddibenion penderfynu a yw safle yn safle gwyliau ai peidio, mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn y drwydded safle sy’n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i’w hanwybyddu os yw wedi ei hawdurdodi i’r canlynol feddiannu’r cartref symudol—

(a) y person sy’n berchennog ar y safle, neu

(b) person sydd wedi ei gyflogi gan y person hwnnw ond nad yw’n meddiannu’r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(**1**) yn gymwys iddo.

**28.** Safleoedd gwersylla.

**29.** Gwestai a llety gwely a brecwast.

**30.** Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).”

**Diwygiadau sy’n dod i rym ar 27 Gorffennaf 2020**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) ar ôl “Cymru” mewnosoder “(sydd, at ddibenion Rhan 3, yn cynnwys y gofod awyr uwchben Cymru)”.

---

(**1**) 2013 dccc 6, fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn rheoliad 2(1), ar ôl is-baragraff (k) mewnosoder—

“(l) ystyr “gorchudd wyneb” yw gorchudd o unrhyw fath sy’n gorchuddio trwyn a cheg person;

(m) ystyr “gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus” yw gwasanaeth a ddarperir ar gyfer cludo teithwyr ar ffordd, ar reilffordd, ar dramffordd, yn yr awyr neu ar y dŵr;

(n) mae “cerbyd” yn cynnwys cerbyd awyr, car cebl, trên, tram a llestr.”

(4) Yn rheoliad 7(2)—

(a) yn is-baragraff (a), hepgorer “1,”;

(b) hepgorer is-baragraff (d).

(5) Yn rheoliad 10—

(a) hepgorer paragraffau (1) i (3);

(b) yn y pennawd, yn lle “amlosgfeydd a chanolfannau” rhodder “canolfannau”.

(6) Yn rheoliad 12—

(a) ym mharagraff (3)(g), hepgorer “y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 10(2)”;

(b) ym mharagraff (4), yn lle “gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, rheilffyrdd, tramffordd, awyr neu fôr” rhodder “gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus”.

(7) Ar ôl rheoliad 12 mewnosoder—

**“Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus**

**12A.**—(1) Rhaid i berson (“P”) sy’n teithio fel teithiwr mewn cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

(a) pan fo esemptiad yn gymwys o dan baragraff (3);

(b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (4).

(3) Mae esemptiad i’r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn gymwys—

(a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;

(b) mewn cerbyd sy’n darparu gwasanaeth cludiant i’r ysgol;

(c) ar fferi—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) pan fo'r rhan o'r fferi sydd ar agor i deithwyr yn yr awyr agored yn gyfan gwbl, neu

(ii) pan ellir cynnal pellter o 2 fetr o leiaf rhwng personau ar y rhan o'r fferi sydd ar agor i deithwyr;

(d) ar long fordeithio;

(e) pan ddyrennir caban, man cysgu neu lety tebyg arall i P yn y cerbyd, ar unrhyw adeg pan yw P yn y llety hwnnw—

(i) ar ei ben ei hunan, neu

(ii) gydag aelodau o aelwyd P neu ofalwr i aelod o'r aelwyd yn unig;

(f) pan—

(i) caniateir i P, neu pan fo'n ofynnol fel arfer i P, fynd i gerbyd ac aros ynddo wrth ddefnyddio'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus,

(ii) na fo'r cerbyd ei hunan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, a

(iii) bo P yn aros yn y cerbyd hwnnw;

(g) ar gerbyd awyr na chychwynnodd o fan yng Nghymru, nac sydd i lanio mewn man yng Nghymru;

(h) ar lestr nad yw'n docio mewn porthladd yng Nghymru.

(4) Mae'r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

(a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i "disability" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**));

(b) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn cyfathrebu â pherson arall sy'n cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â lleferydd, iaith neu fel arall);

(c) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu'r risg o niwed neu anaf, i P ei hunan neu i eraill;

---

(**1**) 2010 p. 15.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) pan fo P yn teithio i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;

(e) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i—

(i) cymryd meddyginiaeth;

(ii) bwyta neu yfed, os caniateir gwneud hyn yn y cerbyd a'i bod yn rhesymol angenrheidiol (er enghraifft oherwydd hyd y daith);

(f) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan—

(i) swyddog gorfodaeth, neu

(ii) gweithredwr y gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr.

(5) Rhaid i weithredwr gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus y mae paragraff (1) yn gymwys iddo ddarparu gwybodaeth i deithwyr am y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb yn ei gerbydau.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "gwasanaeth cludiant i'r ysgol" yw unrhyw wasanaeth cludiant nad yw ond yn cael ei ddarparu at ddiben—

(a) cludo person i'r ysgol ac o'r ysgol neu'r man arall y mae'r person yn cael addysg neu hyfforddiant ynddo, neu

(b) hwyluso fel arall bresenoldeb person mewn ysgol neu fan arall y mae'r person yn cael addysg neu hyfforddiant ynddo."

(8) Yn rheoliad 13—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i weithredwr gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus y mae rheoliad 12A yn gymwys iddo roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch—

(a) y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn unol â pharagraffau (1) i (4) o reoliad 12A a gorfodi'r gofyniad hwnnw o dan reoliad 18;

(b) darparu gwybodaeth i deithwyr yn unol â pharagraff (5) o reoliad 12A.";

(b) ym mharagraff (2)(a) ar ôl "baragraff (1)" mewnosoder "neu (1A)".

(9) Yn rheoliad 14—

(a) ym mharagraff (2), yn lle is-baragraffau (m) ac (n) rhodder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(m) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;";

(b) hepgorer paragraff (4).

(10) Yn rheoliad 17(2), yn lle "10(1) neu (4)" rhodder "10(4)".

(11) Yn rheoliad 18—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "10(1) neu (4) neu 12(2)" rhodder "10(4), 12(2) neu 12A(5)";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Os oes gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 12A(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo P i beidio â mynd i'r cerbyd sy'n darparu'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus o dan sylw;

(b) tynnu P o'r cerbyd, a chaiff ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, i wneud hynny.

(3B) Os oes gan weithredwr gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr, sail resymol dros amau bod person ("P") ar fin torri rheoliad 12A(1), caiff y gweithredwr, y cyflogai neu'r person awdurdodedig gyfarwyddo P i beidio â mynd i'r cerbyd sy'n darparu'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus o dan sylw.";

(c) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros gredu bod plentyn yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn rheoliad 12A(1), caiff y swyddog gyfarwyddo unrhyw unigolyn a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, fod y plentyn yn cydymffurfio â'r gofyniad.";

(d) ym mharagraff (7) ar ôl "paragraff (6)" mewnosoder "a (6A)".

(12) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (1)(a)—

(i) yn lle "10(1) neu (4)" rhodder "10(4)";

(ii) ar ôl "12(2)" mewnosoder "neu 12A(1)";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "reoliad" mewnosoder "18(3A)(a),";

(ii) hepgorer y "neu" ar ôl is-baragraff (a);

(iii) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(aa) yn torri cyfarwyddyd a roddir gan weithredwr gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr, o dan reoliad 18(3B), neu".

(13) Yn Atodlen 2—

(a) hepgorer paragraffau 1, 7, 8 a 9;

(b) ym mharagraff 13, hepgorer ", arcedau diddanu";

(c) hepgorer paragraff 14.

(14) Yn Atodlen 4—

(a) yn lle paragraff 22 rhodder—

"**22.** Sinemâu.";

(b) ar ôl paragraff 30 mewnosoder—

"**31.** Parlyrau tylino.

**32.** Salonau ewinedd a harddwch.

**33.** Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo.

**34.** Arcedau diddanu.

**35.** Amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau."

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**4.** Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 1.50 p.m. ar 24 Gorffennaf 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
24 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y prif Reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, dylid llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif Reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a’r gofynion newydd ynghylch gorchuddion wyneb sydd yn awr wedi’u nodi yn y prif Reoliadau yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cynnwys hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio’r cyfyngiadau a wnaed yn y prif Reoliadau drwy’r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur, fel y mae’r gofyniad newydd i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae’r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i'r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Bydd y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn dod i rym mewn dwy ran. Bydd y set gyntaf o ddiwygiadau yn dod i rym ar ddechrau 25 Gorffennaf, a bydd yn:

- caniatáu ailagor llety gwyliau, gan gynnwys hostelau a llety tebyg i hostelau, gwestai a mathau eraill o lety â gwasanaeth, sydd â chyfleusterau a rennir, megis blociau cawodydd, ond ni chaiff ystafelloedd a rennir ond bod ar agor i aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig ac yn amodol ar ofynion yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol.

- rhoi eglurder y gallai esgus rhesymol i ymgynnull â phobl eraill gynnwys cael at unrhyw wasanaethau cyhoeddus a hamdden plant dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn caniatáu i deuluoedd, er enghraifft, fynd i wersylloedd haf a chlybiau plant yn ystod y gwyliau.

- ailagor atyniadau tanddaearol. Rhaid i weithredwyr atyniadau o'r fath gymryd pob mesur rhesymol i leihau lledaeniad y coronafeirws.

- dileu'r gofyniad i weithio gartref pan fo'n ymarferol. Mae tystiolaeth bod gweithio o swyddfa a lleoliadau eraill i ffwrdd o'r cartref o les i rai pobl ac mae hyn, ynghyd â'r rhwymedigaethau ar gyflogwyr i gymryd pob mesur rhesymol i atal lledaeniad y coronafeirws, yn golygu nad yw cynnal y gofyniad hwn yn gymesur bellach. Serch hynny, mae gweithio gartref hefyd yn cynnig buddion clir felly anogir cyflogwyr i barhau i'w hwyluso.

Bydd yr ail set o ddiwygiadau i'r prif Reoliadau yn dod i rym ar ddechrau 27 Gorffennaf, a bydd yn:

- caniatáu ailagor busnesau megis salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tylino a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo. Mae'r canllawiau ategol yn egluro'r angen i leihau cysylltiad wyneb yn wyneb gymaint â phosibl a'r ddyletswydd i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, gan gynnwys –

    - cynnal hylendid
    - darparu gwybodaeth i bobl ynghylch lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws
    - cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng pobl yn y fangre a rhwng pobl sy'n aros i fynd i mewn i'r fangre.

  Mae'r canllawiau hyn yn ffurfio rhan o set ehangach o ddogfennau ynglŷn â sut i weithio'n ddiogel mewn gwahanol fathau o weithleoedd gwasanaethau cysylltiad agos yng Nghymru.

- caniatáu ailagor amlosgfeydd i'r graddau nad ydynt eisoes ar agor a galluogi sinemâu (dan do) yn ogystal ag amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archif i agor i gwsmeriaid ac ymwelwyr. Bydd y gofynion i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre yn gymwys i weithredwyr y busnesau a'r gwasanaethau hyn.

- caniatáu ailagor arcedau diddanu. Mae'r sector hwn yn cynnwys Canolfannau Adloniant Teuluol sy'n darparu adloniant i deuluoedd mewn lleoliadau glan y môr a mewndirol, a Chanolfannau Gemau Oedolion sy'n darparu peiriannau adloniant diddanu i oedolion. Mae pryderon wedi'u codi ynghylch y risgiau cysylltiedig â nifer y bobl a llif pobl yn y mathau hyn o atyniadau, ynghyd â nifer yr arwynebau a pheiriannau a rennir y byddai ymwelwyr yn eu cyffwrdd. Mae Cymdeithas Fasnach Darparwyr Diddanwch Prydain (BACTA) wedi gweithio gyda'r Llywodraeth i lunio canllawiau i weithredwyr roi cyfres o gamau lliniaru ar waith sy'n benodol i'r busnes er mwyn bod yn barod i ailagor.

- caniatáu cynnal gweithgareddau rhentu a gwerthu tai mewn eiddo sydd wedi'i feddiannu. Ers 22 Mehefin, mae'r sector tai wedi gallu cynnal ymweliadau a gweithgareddau cysylltiedig mewn eiddo gwag. Yn seiliedig ar brofiadau a gasglwyd o'r ailagor cyfyngedig hwn a gwaith a wnaed gyda chyrff diwydiant a llywodraeth leol ar ganllawiau diwygiedig i gynnwys camau i leihau'r risgiau i aelwydydd, gweithwyr proffesiynol ac ymwelwyr ag eiddo, ystyrir nawr ei bod yn gymesur ailagor y sector yn llawn.

- ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys tacsis) wisgo gorchuddion wyneb. Bydd rhai eithriadau penodol i'r gofyniad hwn. Er enghraifft, plant o dan 11 mlwydd oed; fferïau lle mae teithwyr yn yr awyr agored yn llwyr neu lle gellir cadw pellter cymdeithasol;

teithwyr mewn awyren sy’n hedfan dros Gymru (ond nad yw’n cychwyn nac yn glanio yng Nghymru). Mae’n bosibl hefyd y bydd gan unigolion esgus rhesymol i beidio â gwisgo gorchudd wyneb, gan gynnwys oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd; tynnu’r gorchudd i gymryd meddyginiaeth neu pan fo swyddog gorfodi neu weithredwr neu gyflogai’r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn gofyn i berson dynnu’r gorchudd.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio ac addasu’r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i’r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae’r prif Reoliadau’n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â’r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Nododd y Prif Weinidog yn ei gynhadledd i'r wasg ar 9 Gorffennaf y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy’r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 24 Gorffennaf.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried bod cau nifer o'r sectorau a asesir wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae’r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl BAME neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai’r

cynlluniau i ailagor hefyd ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, megis hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol ar 25 Gorffennaf ac yn gyflawn ar 27 Gorffennaf 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 5 Awst.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad Interim o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **24 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau a symudiadau gan bobl, ac ar weithrediad busnesau, gan gynnwys eu cau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau yn y rheoliadau, a pha mor gymesur ydynt, bob 21 diwrnod. Bydd yr adolygiad 21 diwrnod nesaf o'r rheoliadau yn cael ei gynnal erbyn 30 Gorffennaf.

Yn yr adolygiad diwethaf o'r rheoliadau, ar 10 Gorffennaf, gwnaethom benderfynu mynd ati'n raddol i lacio'r cyfyngiadau ar fusnesau hamdden, twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru yn ystod y tair wythnos hyn. Penderfynasom weithredu fel hyn ar yr amod bod lledaeniad y coronafeirws yn dal i fod o dan reolaeth yma, a dyna yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Rydym felly'n cyflwyno diwygiadau i'r rheoliadau er mwyn dileu'r cyfyngiadau ar bob llety sydd â chyfleusterau a rennir, o yfory (25 Gorffennaf) ymlaen. Bydd hyn yn galluogi safleoedd gwersylla i ailagor, ac i hostelau a mathau eraill o lety osod ystafelloedd sydd heb gyfleusterau ystafell ymolchi eu hunain, i bobl o'r un cartref neu aelwyd estynedig.

Byddwn yn dileu'r cyfyngiad ar atyniadau tanddaearol – mae hyn yn golygu y bydd modd i bob atyniad i ymwelwyr yng Nghymru agor o yfory ymlaen ar yr amod eu bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu staff ac ymwelwyr rhag y

coronafeirws.

O ddydd Llun (27 Gorffennaf) ymlaen, byddwn yn dileu'r cyfyngiadau presennol ar sinemâu, amgueddfeydd, archifdai ac orielau dan do. Bydd hyn yn caniatáu i'r llefydd hyn ailagor ond nid yw'n gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Bydd amseriad yr ailagor yn amrywio o le i le, o ystyried amrywiaeth y sector.

Hefyd, bydd arcedau difyrion, sy'n cynnwys canolfannau gemau oedolion a chanolfannau adloniant teuluol, yn cael ailagor o ddydd Llun (27 Gorffennaf) ymlaen.

Byddwn yn codi'r cyfyngiadau i alluogi gwasanaethau lle y daw unigolion i gysylltiad agos â'i gilydd i ailagor. Mae'r rhain yn cynnwys salonau ewinedd, parlyrau tylino, busnesau sy'n cynnig triniaethau harddwch a thriniaethau lles eraill a thatŵs. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, ni ddylent ddarparu unrhyw driniaethau wyneb gan fod cysylltiad wyneb yn wyneb yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sectorau hyn i adolygu'r sefyllfa hon yn rheolaidd.

Rydym yn cyflwyno diwygiadau i ganiatáu ymweliadau ag eiddo heb ei feddiannu. O ganlyniad, bydd y farchnad dai yn gallu ailagor yn llwyr.

Caiff diwygiadau eu gwneud i ddarparu mwy o eglurder a fydd yn sicrhau bod gweithgareddau hamdden o dan oruchwyliaeth i blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu caniatáu.

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn glir y dylai pobl barhau i weithio gartref pan fo'n bosibl. Y cynnydd yn y nifer sy'n gweithio o bell ac yn hyblyg yw un o'r pethau cadarnhaol prin y gallwn ei gymryd o bandemig y coronafeirws ac er iechyd y cyhoedd a rhesymau eraill rwy'n awyddus i hyn barhau – a bydd Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl. Serch hynny, er mwyn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i gynnal y polisi hwn byddwn yn dileu'r gofyniad cyfreithiol i weithio gartref o'r rheoliadau. Bydd canllawiau yn cael eu darparu i sicrhau y bydd gweithio gartref yn parhau'n un o gonglfeini ein gweithgarwch adfer yng Nghymru. Bydd hefyd gyfrifoldebau ar gyflogwyr i gefnogi gweithio gartref.

Yn olaf, byddwn yn diwygio'r rheoliadau i'w gwneud yn orfodol i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, o ddydd Llun (27 Gorffennaf) ymlaen.

Gallwn godi'r cyfyngiadau yn rhannol oherwydd bod busnesau a sefydliadau eraill yn newid ac yn addasu eu heiddo a'u dulliau gweithio er mwyn helpu pobl i gadw 2 fetr ar wahân ac i leihau'r perygl o drosglwyddo'r coronafeirws.

Nid yw coronafeirws wedi diflannu. Mae'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith i'n diogelu ni i gyd ac i atal trosglwyddiad yr haint. Rydym yn adolygu'r pwerau gorfodi

sydd gan awdurdodau lleol ac eraill, ond rwy'n bwriadu cymryd camau a chau unrhyw fusnes neu eiddo sy'n fygythiad i iechyd y cyhoedd.

Wrth i rannau eraill o'n cymdeithas a'n heconomi agor rhaid i bob un ohonom wneud ein rhan i atal ton newydd o'r feirws drwy barhau i gydymffurfio â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Rhaid inni hefyd olchi ein dwylo yn rheolaidd a chydymffurfio â'r dulliau newydd o weithio a gwneud busnes.

Hoffwn ddiolch i'r llawer o fusnesau a sefydliadau sydd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r canllawiau, sydd wedi cefnogi degau o filoedd o fusnesau bach a mawr i agor eu drysau i gwsmeriaid ac ymwelwyr unwaith yn rhagor.

Rwyf hefyd am ddiolch i bawb yng Nghymru am eu hymdrechion parhaus sydd wedi ein helpu i gyrraedd y pwynt hwn. Gyda'n gilydd gallwn gadw Cymru yn ddiogel.

# SL(5)586 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") i ddarparu ar gyfer amrywiad dros dro i'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer treth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl penodol.

Mae rheoliad 2 yn cymhwyso'r amrywiad dros dro i drafodiadau eiddo preswyl sydd â dyddiad cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2021. Pan fo contract wedi ei gyflawni'n sylweddol cyn 1 Ebrill 2021, ond bod y cwblhau yn digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny, ni fydd unrhyw dreth ychwanegol i'w chodi yn rhinwedd adran 10 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf TTT") ar yr amod mai'r unig reswm y mae treth ychwanegol i'w chodi yw oherwydd bod y cwblhau wedi digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny.

Mae trafodiad trethadwy yn drafodiad eiddo preswyl os yw o fewn y disgrifiad a geir yn adran 24(6) o'r Ddeddf TTT.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i'r trafodiadau hynny a bennir gan reoliad 2

Mae Rheoliadau 2018 yn parhau i wneud darpariaeth ar gyfer y cyfraddau treth a'r bandiau treth sy'n gymwys i drafodiadau trethadwy nad ydynt o fewn y disgrifiad o drafodiad eiddo preswyl, neu sy'n digwydd cyn 27 Gorffennaf 2020 neu ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

## Gweithdrefn

Y weithdrefn gadarnhaol 'wnaed'.

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaethpwyd er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn yr esboniad defnyddiol a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "4.2 Effaith y Rheoliadau hyn yw cynyddu'r trothwy rhwng y band cyfradd sero a'r band treth cyntaf sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl. Ar hyn o bryd, mae'r trothwy hwn wedi'i osod ar £180,000, ond, o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, bydd yn cynyddu i £250,000 o 27 Gorffennaf. Mae'r trothwy newydd hwn £70,000 yn uwch na'r trothwy cychwynnol presennol ar gyfer prif gyfraddau trafodiadau eiddo preswyl ac, i bob pwrpas, bydd yn dileu'r hen fand cyntaf, sy'n codi 3.5% ar gydnabyddiaeth sy'n fwy na £180,000 ond nad yw'n fwy na £250,000…
>
> 4.3 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid y bandiau treth na'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i gyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, trafodiadau eiddo dibreswyl neu drafodiadau lle mae'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent. Felly, bydd y cyfraddau uwch a'r trothwyon ar gyfer y rhai sy'n prynu eiddo megis prynu i osod neu fel ail gartref yn aros fel y maent. Mae'r gostyngiad hwn yn y dreth wedi'i dargedu er mwyn cefnogi trethdalwyr sy'n talu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir (yn fras, y rhai sy'n prynu eu cartref) ac sydd efallai angen cymorth ychwanegol wrth iddynt benderfynu prynu eu cartref o ganlyniad i'r ansicrwydd tra'r ydym yn symud o frig y pandemig a thuag at ein hadferiad economaidd."

Hefyd, rydym yn nodi paragraff 3.2 o'r memorandwm esboniadol a'r canlyniadau os byddai'r Senedd yn pleidleisio yn erbyn cadw'r Rheoliadau mewn grym. Deallwn y byddai'r Rheoliadau'n cael eu datgymhwyso ar ddiwedd y diwrnod y cynhaliwyd pleidlais o'r fath, heb effeithio ar unrhyw beth a wnaed o dan y Rheoliadau cyn hynny.

Felly, os byddai person wedi talu llai o dreth yn ystod y cyfnod pan roedd y Rheoliadau mewn grym, byddai'r person hwnnw wedi talu'r dreth gywir am y cyfnod hwnnw. Ni fyddai'r person dan sylw wedi tan-dalu'r dreth, fel yr awgrymir ym mharagraff 3.2.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Legislation**
**24 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

## 2020 Rhif 794 (Cy. 174)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

# Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) ("Rheoliadau 2018") i ddarparu ar gyfer amrywiad dros dro i'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer treth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl penodol.

Mae rheoliad 2 yn cymhwyso'r amrywiad dros dro i drafodiadau eiddo preswyl sydd â dyddiad cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2021. Pan fo contract wedi ei gyflawni'n sylweddol cyn 1 Ebrill 2021, ond bod y cwblhau yn digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny, ni fydd unrhyw dreth ychwanegol i'w chodi yn rhinwedd adran 10 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf TTT") ar yr amod mai'r unig reswm y mae treth ychwanegol i'w chodi yw oherwydd bod y cwblhau wedi digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny.

Mae trafodiad trethadwy yn drafodiad eiddo preswyl os yw o fewn y disgrifiad a geir yn adran 24(6) o'r Ddeddf TTT.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 3 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i'r trafodiadau hynny a bennir gan reoliad 2.

Mae Rheoliadau 2018 yn parhau i wneud darpariaeth ar gyfer y cyfraddau treth a'r bandiau treth sy'n gymwys i drafodiadau trethadwy—

(a) nad ydynt o fewn y disgrifiad o drafodiad eiddo preswyl, neu

(b) sy'n digwydd cyn 27 Gorffennaf 2020 neu ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

Mae'r dreth i'w chyfrifo yn unol ag adrannau 27 ac 28 o'r Ddeddf TTT.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 794 (Cy. 174)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Gorffennaf 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *24 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym* | *27 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 24(1) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 27 Gorffennaf 2020.

(**1**) 2017 dccc 1. Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y Ddeddf TTT” yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

(4) Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir iddynt yn y Ddeddf TTT.

**Cymhwyso**

**2.**—(1) Mae’r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drafodiad trethadwy—

(a) sy’n drafodiad eiddo preswyl, a

(b) sydd â dyddiad cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2021(**1**).

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo—

(a) o ganlyniad i adran 10(4) o’r Ddeddf TTT, y dyddiad y mae’r trafodiad yn cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2021, a

(b) y contract o dan sylw yn cael ei gwblhau drwy drosglwyddiad ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

(3) Pan fo’r paragraff hwn yn gymwys, nid yw adran 10(5)(b) o’r Ddeddf TTT yn gymwys mewn perthynas â’r trosglwyddiad hwnnw os mai’r unig reswm y byddai (oni bai am y rheoliad hwn) wedi bod yn gymwys yw nad yw’r addasiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â’r trosglwyddiad hwnnw.

**Bandiau treth a chyfraddau treth canrannol**

**3.** Mae’r Atodlen i’r Rheoliadau hyn yn pennu’r bandiau treth a’r cyfraddau treth canrannol ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl y mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt at ddibenion adran 24(1) o’r Ddeddf TTT.

**Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) mae’r testun presennol yn dod yn baragraff (1);

---

(**1**) Gweler Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) ynghylch cymhwyso cyfraddau a bandiau i drafodiadau eiddo preswyl sydd â dyddiad cael effaith cyn 27 Gorffennaf 2020 neu ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

(**2**) O.S. 2018/128 (Cy. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ar ddechrau paragraff (1), mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (2),";

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drafodiad trethadwy sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020."

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
22 Gorffennaf 2020

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN Rheoliad 3

**Tabl: Trafodiadau eiddo preswyl**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £250,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 5% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 7.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 10% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £1,500,000 | 12% |

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol. Newid dros dro yw hwn a fydd yn dechrau ar 27 Gorffennaf 2020 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021, pan fydd y cyfraddau a'r bandiau yn mynd yn ôl i'r rhai sydd mewn grym ar hyn o bryd.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**24 Gorffennaf 2020**

## 1. Disgrifiad

1.1 Diben yr offeryn hwn yw pennu amrywiad dros dro i gyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir a fydd yn gymwys i bryniannau trafodiadau eiddo preswyl penodol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r offeryn hwn yn cynnwys rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol dros dro a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Gwneir y Rheoliadau hyn felly heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi. Mae rhagor o fanylion ynghylch y weithdrefn hon ar gael ym mharagraff 3.2 isod.

2.2 Mae'r offeryn hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) o Ddeddf 2017 i wneud darpariaeth bontio mewn perthynas â thrafodiadau penodol pan fo contract wedi ei gyflawni'n sylweddol cyn 1 Ebrill 2021, ond bod y cwblhau yn digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. Mae adran 79(3) o Ddeddf 2017 yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) yn dilyn y weithdrefn negyddol, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y rheoliadau yn cael yr effaith o osod neu gynyddu atebolrwydd i dalu treth. Nid yw'r rheol bontio a wneir o dan adran 78(1) yn cael yr effaith a ddisgrifir yn adran 79(3) gan ei bod yn lleihau faint o dreth a fyddai fel arall yn cael ei chodi ar y trafodiadau penodedig hynny. Serch hynny, o ganlyniad i adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol dros dro.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 24 o Ddeddf 2017 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru amrywio'r cyfraddau treth a'r bandiau treth ar gyfer y dreth trafodiadau tir drwy reoliadau.

3.2 Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol dros dro, sy'n golygu bod y rheoliadau yn cael eu gwneud (eu llofnodi) gan y Gweinidogion ac y gallant ddod i rym ar unwaith. Unwaith y mae'r rheoliadau wedi'u gwneud, rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a bydd ganddynt effaith dros dro hyd nes y bydd y Senedd yn pleidleisio arnynt. Rhaid i'r bleidlais honno ddigwydd o fewn 28 diwrnod calendr ar ôl gwneud y rheoliadau, heb gyfrif diwrnodau pan fo'r Senedd mewn toriad. Os na fydd y bleidlais yn digwydd, neu os bydd yn cael ei cholli, bydd y cyfraddau treth a'r bandiau treth blaenorol yn gymwys ac ni fydd gofyn i unrhyw drethdalwr sydd wedi talu rhy ychydig, gan eu bod wedi talu yn seiliedig ar y rheoliadau a fydd bellach wedi methu, wneud iawn am y tandaliad hwnnw. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cymru, nid trethdalwyr Cymru, fydd yn ysgwyddo'r baich os bydd y Rheoliadau yn methu â sicrhau cymeradwyaeth y Senedd.

3.3 Gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud pan fo'r Senedd mewn toriad, mae'r cyfnod 28 diwrnod yn dechrau ddydd Llun 14 Medi a rhaid i'r bleidlais i gymeradwyo'r Rheoliadau ddigwydd erbyn 11 Hydref.

3.4 Mae'r Rheoliadau yn cael effaith dros dro tan 31 Mawrth 2021.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau hyn yw gwneud amrywiad dros dro i fandiau treth a chyfraddau treth canrannol y dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl penodol sydd â'u dyddiad effeithiol[1] ar neu ar ôl 27 Gorffennaf 2020 a chyn 1 Ebrill 2021, fel y cyhoeddwyd

[1] Y 'dyddiad effeithiol', yn fras, yw dyddiad cwblhau'r contract i brynu'r eiddo.

gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd ar 14 Gorffennaf 2020. Defnyddir hyn i gyfrifo faint o dreth trafodiadau tir sydd i’w chodi ar drafodiadau tir preswyl ac mae wedi’i gyfyngu i’r rhai sy’n talu’r prif gyfraddau yn unig. Ar 1 Ebrill 2021, bydd y bandiau treth a’r cyfraddau treth canrannol sy’n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl yn mynd yn ôl i’r rhai a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020. Dewiswyd y dyddiad pan ddaw’r newidiadau hyn i rym, sef 27 Gorffennaf 2020, i gyd-fynd â’r dyddiad pan fo disgwyl i’r farchnad dai ailagor yn llawn, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 10 Gorffennaf[2].

4.2 Effaith y Rheoliadau hyn yw cynyddu’r trothwy rhwng y band cyfradd sero a’r band treth cyntaf sy’n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl. Ar hyn o bryd, mae’r trothwy hwn wedi’i osod ar £180,000, ond, o ganlyniad i’r Rheoliadau hyn, bydd yn cynyddu i £250,000 o 27 Gorffennaf. Mae’r trothwy newydd hwn £70,000 yn uwch na’r trothwy cychwynnol presennol ar gyfer prif gyfraddau trafodiadau eiddo preswyl ac, i bob pwrpas, bydd yn dileu’r hen fand cyntaf, sy’n codi 3.5% ar gydnabyddiaeth sy’n fwy na £180,000 ond nad yw’n fwy na £250,000. Bydd hefyd yn golygu, o ran pris, mai dim ond tua’r 20% uchaf o’r rhai sy’n agored i dalu prif gyfraddau’r dreth trafodiadau tir fydd yn talu unrhyw dreth o gwbl. Bydd y rhai sy'n prynu eiddo sy'n costio mwy na £250,000 yn arbed £2,450 o'i gymharu â'r hyn y byddent wedi'i dalu yn flaenorol.

4.3 Nid yw’r Rheoliadau hyn yn newid y bandiau treth na’r cyfraddau treth canrannol sy’n gymwys i gyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, trafodiadau eiddo dibreswyl neu drafodiadau lle mae’r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent[3]. Felly, bydd y cyfraddau uwch a'r trothwyon ar gyfer y rhai sy’n prynu eiddo megis prynu i osod neu fel ail gartref yn aros fel y maent. Mae'r gostyngiad hwn yn y dreth wedi'i dargedu er mwyn cefnogi trethdalwyr sy'n talu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir (yn fras, y rhai sy'n prynu eu cartref) ac sydd efallai angen cymorth ychwanegol wrth iddynt benderfynu prynu eu cartref o ganlyniad i’r ansicrwydd tra’r ydym yn symud o frig y pandemig a thuag at ein hadferiad economaidd.

4.4 Bydd prif gyfraddau’r dreth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl sy’n cael eu cwblhau ar neu ar ôl 27 Gorffennaf 2020 tan 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn dros dro:

**Tabl 1: Trafodiadau Eiddo Preswyl** – Cyfraddau a Bandiau rhwng 27 Gorffennaf 2020 ac 31 Mawrth 2021

**Prif gyfraddau trafodiadau eiddo preswyl**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £250,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 5% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 7.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 10% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £1,500,000 | 12% |

[2] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-cymru-2020-0

[3] Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraddau a bandiau’r dreth trafodiadau tir sy’n gymwys i gyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, trafodiadau eiddo dibreswyl a thrafodiadau lle mae’r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar yr offeryn hwn. Cyhoeddwyd y cynnydd i'r band cyfradd sero gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 14 Gorffennaf 2020. Mae'r amseriad yn ystyried galwadau gan rai rhanddeiliaid a threthdalwyr i gyflwyno cyfraddau a bandiau diwygiedig. Serch hynny, nid yw gosod cyfraddau a throthwyon trethi yn faes polisi y cynhelir ymgyngoriadau ynddo, gan fod unrhyw ymgynghoriad o'r fath ar dreth 'fyw' yn debygol iawn o effeithio ar ymddygiad ac, mewn perthynas â threthi trafodiadau, ar amseriad y trafodiadau hynny. Y bwriad yw darparu ysgogiad economaidd dros dro i gefnogi marchnad dai ac economi ehangach Cymru. Daw'r cyfraddau dros dro i rym ar 27 Gorffennaf 2020. Ar y dyddiad hwnnw, y disgwyl yw y bydd y cyfyngiadau, a osodwyd oherwydd pandemig y coronafeirws, ar ymweld ag eiddo preswyl wedi'i feddiannu sydd ar werth yn cael eu codi.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Caiff effaith y newidiadau hyn o ran refeniw ei darparu ochr yn ochr â chyllideb ddrafft nesaf Llywodraeth Cymru. Cytunir ar gostio'r polisi gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac fe'i cynhwysir fel rhan o'i ragolwg o refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) ar gyfer Llywodraeth Cymru.

6.2 Ystyriodd Llywodraeth Cymru nifer o opsiynau ar gyfer newidiadau i gyfraddau a throthwyon y dreth trafodiadau tir. Mae'r asesiad hwn yn cwmpasu opsiwn dim newid a'r polisi o fewn y rheoliadau hyn.

*Dim newid*

6.3 Byddai'r opsiwn dim newid wedi gadael yr holl gyfraddau a throthwyon fel yr oeddent wedi bod ers 1 Ebrill 2018 pan oedd y dreth trafodiadau tir yn gymwys gyntaf yng Nghymru. Mae'r cyfraddau a'r trothwyon hyn yn golygu, mewn perthynas â'r prif gyfraddau preswyl, nad yw 60% o brynwyr cartrefi yn talu unrhyw dreth wrth brynu eu cartref, gan gynnwys y mwyafrif helaeth o brynwyr tro cyntaf .

6.4 Yn dilyn y cynnydd dros dro i £500,000 ar gyfer y trothwy ar gyfer treth dir y dreth stamp a gyflwynwyd o 8 Gorffennaf 2020, byddai peidio â newid LTT yn arwain at rai newidiadau cymharol fawr mewn trethi rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyn yn arbennig o wir am eiddo pris uchel iawn yng Nghymru. Gallai hyn effeithio ar rai marchnadoedd eiddo lleol sydd o boptu i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan aflunio rhywfaint ar y farchnad yn yr ardaloedd hynny. Mae rhyw 20% o eiddo yng Nghymru'n gwerthu am £250,000 neu'n uwch, ar y pris hwnnw byddai'n gwahaniaeth mewn treth rhwng SDLT a LTT yn £2,450. Mae tua 10% yn gwerthu am £300,000 neu'n uwch; ar y pris hwnnw, byddai'r gwahaniaeth mewn treth yn rhyw £5,000. Mae tua 5% yn gwerthu am £380,000 neu'n uwch; ar y pris hwnnw, byddai'r gwahaniaeth mewn treth yn rhyw £9,000. Mae tua 1% yn gwerthu am £600,000 neu'n uwch; ar y pris hwnnw, byddai'r gwahaniaeth mewn treth yn rhyw £20,000.

*Roedd trothwy dros dro o £250,000 yn gymwys i'r prif gyfraddau yn unig*

6.5 Mae'r opsiwn hwn yn gynnydd â therfyn amser i drothwy'r brif gyfradd breswyl o £180,000 to £250,000. Ni fydd y newid hwn yn gymwys, ar y cyfan, i drafodiadau lle mae prynwr eisoes yn berchen ar eiddo preswyl.

6.6 O ganlyniad i'r newid hwn ni fydd rhyw 80% o brynwyr cartrefi yng Nghymru'n talu unrhyw dreth, i fyny o 60% gynt. Yn achos eiddo sy'n costio £250,000 neu'n uwch, sef y 20% uchaf o brynwyr, bydd gostyngiad trethi o £2,450. Mae'r gostyngiad mewn trethi yn llai yn gyfrannol ar gyfer yr eiddo drutaf ac yn uwch ar gyfer y rhai sydd wedi'u prisio'n £250,000. Bydd prynu cartref sy'n costio £200,000 yn gweld arbediad trethi o £700, tra bydd un sy'n costio £240,000 yn gweld arbediad trethi o £2,100

6.7 Nid yw'r opsiwn hwn yn darparu gostyngiad threthi dros dro ar gyfer yr eiddo hynny sy'n ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir. Mae'r cyfraddau preswyl uwch yn gymwys i gwmnïau sy'n prynu unrhyw anheddau ac i unigolion, ar y cyfan, sy'n prynu eiddo preswyl pan fyddant hwy, neu unigolyn y maent yn prynu gydag ef, eisoes yn berchen ar fuddiant mewn annedd arall. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn gymwys i brynu ail gartrefi ac eiddo prynu i osod.

6.8 Mae'r opsiwn hwn yn sicrhau bod buddion arbedion treth yn cael eu cyfyngu i'r rhai sydd â buddiant yn unig yn yr eiddo y maent yn ei gaffael (neu sy'n bodloni'r rheolau ar gyfer prif breswylfa) ac nid y rhai sy'n prynu tai i'w gosod, yn ail gartrefi neu'n dai haf. Mae prynwyr sy'n talu'r cyfraddau preswyl uwch yn cyfrif am tua 25% o'r holl bryniadau preswyl bob blwyddyn, er y gall rhai o'r rhain wedyn gael eu had-dalu'r cyfraddau preswyl uwch ac wedyn fod yn ddarostyngedig i'r prif gyfraddau preswyl

6.9 Yn seiliedig ar ddata 2019-20, ni fydd tua 14,000 o drafodiadau eiddo preswyl sy'n ddarostyngedig yn y lle cyntaf i'r cyfraddau preswyl uwch yn gweld unrhyw newid i'w treth o ganlyniad i gyfyngu ar y cynnydd trothwy yr prif gyfraddau.

6.10 Hefyd, unwaith eto yn seiliedig ar ddata 2019-20, bydd y dewis hwn o fudd i tua 16,000 o drafodiadau yng Nghymru yn ddarostynedig i brif gyfraddau LTT. Mae'n anodd amcangyfrif nifer y trafodiadau a fydd yn elwa ar y gostyngiad hwn mewn trethi gan fod effaith y pandemig ar y farchnad eiddo a'r economi ehangach yn ansicr iawn. Er hynny, disgwylir i'r gostyngiad mewn trethi cynyddu trafodiadau at ei gilydd, o'r hyn a fyddai wedi digwydd fel arall, a hefyd brisiau. Yn ogystal, mae'n debygol y caiff rhai trafodiadau eu dwyn ymlaen o 2021-22 i fanteisio ar y gostyngiad dros dro mewn trethi. Dylai'r effaith achub y blaen hwn hefyd gynyddu nifer y trafodiadau yn 2020-21[4].

6.11 Yn dilyn y newidiadau dros dro a gyflwynwyd i SDLT o 8 Gorffennaf 2020, bydd yr opsiwn o gynyddu trothwy'r dreth trafodiadau tir ar y prif gyfraddau i £250,000 yn arwain at rai gwahaniaethau cymharol fawr mewn treth rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer rhywfaint o eiddo â phris uchel iawn yng Nghymru. Gall hyn effeithio ar rai marchnadoedd eiddo lleol sydd o boptu i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan ystumio rywfaint ar y farchnad eiddo yn yr ardaloedd hynny.

6.12 Gyda'r opsiwn hwn, ni fydd tua 80% o eiddo yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r prif gyfraddau yn talu unrhyw dreth. Dim ond o £250,000 i fyny y bydd gwahaniaethau mewn treth rhwng y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir. Mae tua 10% o eiddo yn gwerthu am £300,000 neu fwy, am y pris hwnnw y gwahaniaeth mewn treth rhwng y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir fydd £2,500. Mae tua 5% yn gwerthu am £380,000 neu'n fwy, am y pris hwnnw y gwahaniaeth mewn treth fydd £6,500. Mae tua 1% yn gwerthu am £600,000 neu'n fwy, am y pris hwnnw y gwahaniaeth mewn treth fydd £17,500. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau'r gwahaniaeth mewn SDLT a LTT o'i gymharu â'r opsiwn dim newid. Felly dylai arwain at lai o ystumio ar y farchnad leol rhwng Cymru a Lloegr na'r opsiwn dim newid

6.13 Mae'r opsiwn hwn, trwy beidio â chymhwyso'r gostyngiad dros dro mewn trethi i'r trafodiadau eiddo cyfradd uwch, yn cynyddu'r gwahaniaeth trethi rhwng gwahanol fathau o bryniadau preswyl yng Nghymru. Gallai'r gostyngiad cymharol mewn treth i brynwyr cartrefi o'i chymharu â phryniadau ail gartrefi a phryniadau prynu i osod hefyd newid cyfansoddiad trafodiadau preswyl. Gallai hyn gynyddu ychydig ar y gyfran o drafodiadau prynwyr cartrefi yng Nghymru.

6.14 Disgwylir i gynyddu trafodiadau eiddo preswyl yn 2020-21, o'r hyn a fyddai wedi digwydd fel arall, gael effaith gadarnhaol ar y farchnad dai ac ar yr economi yn fwy cyffredinol eleni. Mae tystiolaeth y DU yn ystod dirywiad economaidd 2008 i 2009 yn awgrymu bod lleihau trethi trafodiadau eiddo preswyl wedi rhoi hwb i'r farchnad eiddo ac ysgogi'r economi[5]. Er y gallai fod buddion cadarnhaol oherwydd dwyn trafodiadau ymlaen o blynyddoedd y dyfodol, mae ymchwil olynol i Gymru yn awgrymu y gallai'r budd cyffredinol fod yn llai na'r hyn a awgrymir gan dystiolaeth y DU. [6] Er hynny, mae'r dirywiad economaidd presennol yn wahanol iawn i'r un a gafwyd yn 2008 ac mae'r system drethi yng Nghymru hefyd yn wahanol (er enghraifft cafwyd symud o system “slab” i system “tafell” ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl yn 2014. Mae'n anodd felly, gymhwyso'r astudiaethau hynny i'r sefyllfa bresennol. At ei gilydd mae'r opsiwn hwn yn ostyngiad trethi mwy cytbwys yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, yn gyson â'r effaith economaidd wahaniaethol a awgrymwyd gan y dystiolaeth.

6.15 Gallai llesiant unigolion a theuluoedd a allai orfod symud gael ei wella gan y mesur hwn. Gallai hyn fod am nifer o resymau, megis i fod yn agosach at aelodau'r teulu y mae arnynt angen gofal, neu swydd newydd. Disgwylir i'r opsiwn hwn gynhyrchu trafodiadau ychwanegol yn 2020-21, at yr hyn a fyddai wedi digwydd fel arall, y bydd rhai ohonynt wedi'u dwyn ymlaen o 2021-22.

---

[4] I gael rhagor o fanylion ar achub y blaen gweler Forestalling ahead of property tax changes OBR (2016), sydd ar gael yn https://obr.uk/docs/dlm_uploads/Working-paper-No.10-1.pdf

[5] Gweler Best, M. and Kleven, H. (2018) *Housing Market Responses to Transaction Taxes: Evidence from Notches and Stimulus in the UK*, The Review of Economic Studies, 85, t. 157-193

[6] Gweler TARC (2019) An Evaluation of the 2008-2009 Stamp Duty Holiday in Wales sydd ar gael yn https://tarc.exeter.ac.uk/media/universityofexeter/businessschool/documents/centres/tarc/publications/reports/An_Evaluation_of_the_2008-2009_Stamp_Duty_Holiday_in_Wales.pdf

6.16 Ni fydd fawr o gost i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) o ganlyniad i diweddaru ei gyfrinianellau trethi ar-lein ac ymateb i ymholiadau trethdalwyr am y newid. Telir y costau hyn o fewn ei gyllideb bresennol. Mae busnesau sy'n ymwneud â gwahanol gamau o ran prynu cartrefi, yn enwedig asiantwyr ystadau a thrawsgludwyr a chyfreithwyr wedi delio â llawer o newidiadau cyfraddau (a dull cyfrifo) gynt trwy SDLT a chyflwyno LTT yng Nghymru. Caiff y dewis hwn ei gyfyngu i un tabl o gyfraddau trethi. Cafwyd cyfathrebu clir am y newidiadau ac mae ACC wedi darparu cyfrifiannell LTT ddiwygiedig i ganfod atebolrwydd. Dylai'r costau ychwanegol i'r busnesau hyn fod yn fach iawn felly.

## 7. Adolygu ar ôl gweithredu

7.1 Mae adran 77 o Ddeddf 2017 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniant ar gyfer adolygiad annibynnol o'r dreth trafodiadau tir i'w gwblhau cyn pen chwe blynedd i'r diwrnod y cafodd Deddf 2017 y Cydsyniad Brenhinol. Bydd adolygiad o LTT yn cwmpasu'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Deddf 2017.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE- 2337-20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Gorffennaf 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2020 o dan adran 25(2) and 78(1) o'r Gorchymyn Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 1) 2017 a ddaw i rym ar ddydd Llun 27 Gorffennaf. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 25(2) a 78(1) o Ddeddf 2017, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 29 Medi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad , Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)565 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Gwneir Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (“y Rheoliadau”) o dan adrannau 17 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (“Rheoliadau 2005”).

Mae Rheoliadau 2015 yn darparu bod yn rhaid i athrawon newydd gymhwyso (“ANG”) ymgymryd â chyfnod sefydlu statudol sy'n cynnwys tri thymor ysgol, neu 380 sesiwn, mewn ysgol neu, mewn rhai amgylchiadau, sefydliad arall. Gall ANG gyfrif cyfnodau cyflogaeth a wneir ar sail amser llawn neu ran-amser tuag at y gofyniad hwn. Yn sgil ailbwrpasu ysgolion mewn ymateb i bandemig COVID-19, nid yw rhai ANG sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu yn rhan-amser yn gallu bodloni’r gofyniad am 380 sesiwn yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae hyn yn debygol o effeithio ar flwyddyn academaidd 2020-2021 hefyd.

Gan hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 i:

(i) alluogi’r “corff priodol”, sef yr awdurdod lleol, i leihau’r cyfnod sefydlu y mae angen i’r unigolyn ei gwblhau i leiafswm o 110 o sesiynau ysgol cyn belled â bod yr unigolyn yn rhoi cydsyniad (bydd yn dal i fod yn ofynnol i’r unigolyn gyflawni’r safonau gofynnol); a

(ii) chaniatáu i sesiynau dysgu proffesiynol gyfrif tuag at gyfnod sefydlu person, ar yr amod bod y sesiynau hynny yn bodloni amodau penodol. Ni chaiff y sesiynau dysgu proffesiynol hynny fod yn fwy nag 16% o hyd cyfan cyfnod sefydlu

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 7 o’r Rheoliadau yn mewnosod rheoliad 7A newydd yn Rheoliadau 2015. Mae hyn yn nodi y gall sesiwn o ddysgu proffesiynol a wneir gan berson gyfrif tuag at gyfnod sefydlu'r unigolyn hwnnw, ar dri amod. Un o'r amodau yw bod y dysgu'n digwydd rhwng 26 Mawrth 2020 a 31 Awst 2021 ac amod arall yw bod dysgu o'r fath yn cael ei gymeradwyo gan y corff priodol, sef yr awdurdod lleol perthnasol.

Nid yw'n glir o ddrafftio Rheoliad 7A:

(i) Pa safonau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu cymhwyso er mwyn cymeradwyo sesiynau dysgu proffesiynol. Nid yw'r Rheoliadau'n diffinio ystyr “sesiynau dysgu proffesiynol”. Nid ydynt yn manylu ar ffurf neu gynnwys sesiwn ddysgu er mwyn iddo gael ei gymeradwyo, ac nid ydynt yn darparu ar gyfer cyhoeddi unrhyw ganllawiau ar y pwynt hwn. Fel arall, nid yw’r Rheoliadau'n

manylu ynghylch ai disgresiwn llwyr yr awdurdod lleol yw penderfynu ar ffurf neu gynnwys sesiynau er mwyn cael cymeradwyaeth yr awdurdod.

(ii) P'un a yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol fod wedi cymeradwyo unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol cyn i'r sesiynau gael eu cynnal neu a ellir eu cymeradwyo ar ôl iddynt gael eu cynnal. Os oes rhaid cymeradwyo'r sesiynau cyn eu cynnal, yna mae hyn yn golygu na fydd unrhyw sesiynau a gynhaliwyd ar ôl 26 Mawrth 2020 ond cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 15 Gorffennaf 2020 yn gallu cyrraedd statws sesiynau dysgu proffesiynol at ddibenion y Rheoliadau. Fel arall, os caniateir i'r awdurdod lleol gymeradwyo sesiynau yn ôl-weithredol lle cawsant eu cynnal ar ôl 26 Mawrth 2020 ond cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 15 Gorffennaf 2020, dylid cynnwys y pŵer i wneud hynny ar wyneb y Rheoliadau er eglurder .

Nodir bod paragraff 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu gyda rhanddeiliaid cyn y daw Rheoliadau 2020 i rym i sicrhau bod y rhai sy'n rhan o'r broses sefydlu yn gallu deall yn glir y newidiadau a wnaed." Nid oes unrhyw sôn a fydd y canllaw hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y pwynt craffu technegol hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 7 yn mewnosod rheoliad newydd 7A yn Rheoliadau 2015. Mae hyn yn caniatáu i sesiynau o ddysgu proffesiynol gyfrif tuag at gwblhau cyfnod sefydlu'r person hwnnw, ar dri amod. Un o'r amodau yw bod yn rhaid i'r sesiynau fod wedi cael eu cynnal yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn ar 26 Mawrth 2020 ac yn gorffen ar 31 Awst 2021. Mae'r dyddiad cychwyn ar gyfer y cyfnod hwn yn dyddio cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym ar 15 Gorffennaf 2020. Mae ystyriaeth wedi ei rhoi i weld a yw hyn yn rhoi effaith ôl-weithredol i'r Rheoliadau, yn yr ystyr eu bod yn newid cyfraith y gorffennol. Ystyrir nad yw'r Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl-weithredol gan nad ydynt yn newid cyfraith y gorffennol, ond maent yn nodi y bydd unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol a gynhaliwyd ers 26 Mawrth 2020, o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yn cael eu trin fel sesiynau dysgu proffesiynol at ddibenion y trefniadau sefydlu, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn nodi bod y Rheoliadau'n dod i ben ar 31 Awst 2021. Mae Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau yn nodi:

"Credir bod hwn yn ddyddiad terfyn addas oherwydd y dylai ganiatáu digon o amser i'r cohort presennol o athrawon newydd gymhwyso a'r rheini sy'n dechrau ym mis Medi 2020 gwblhau eu cyfnod sefydlu. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Rheoliadau 2020 ar ôl diwedd un tymor ysgol o flwyddyn academaidd 2020/21 i ystyried a ydynt yn dal i fod yn briodol, ac yna'n parhau i'w hadolygu bob tymor wedi hynny."

Bydd y Rheoliadau yn parhau i gael effaith gyfyngedig ar ôl 31 Awst 2021, gan olygu pan fydd person yn cynnal sesiwn o ddysgu proffesiynol sy'n bodloni amodau Rheoliad 7A newydd o Reoliadau 2015 (fel y'u

mewnosodwyd gan y Rheoliadau hyn), yna gall sesiynau o'r fath gyfrif tuag at cyfnod sefydlu'r unigolyn hwnnw fel pe baent yn sesiynau ysgol ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i ben (ar yr amod mai 18 yw'r nifer uchaf o sesiynau o'r fath). Ni fydd terfyn y Rheoliadau ar 31 Awst 2021 yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau cyn y dyddiad hwnnw.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn oherwydd y brys sydd ei angen i gyflwyno'r newid polisi hwn mewn ymateb i sefyllfa COVID-19. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ymhellach bod swyddogion wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac undebau'r gweithlu wrth ddatblygu'r Rheoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddwy ran o'r pwynt craffu technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU: Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/623 (Cy. 143))**

**Pwynt craffu technegol 1:**

Mae'r Pwyllgor wedi codi dau bwynt mewn perthynas â drafftio rheoliad 7A.

(i) Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw 'sesiynau dysgu proffesiynol' wedi cael ei ddiffinio. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen iddo gael ei ddiffinio. Dylid ei ddehongli yn unol â'i ystyr cyffredin.

Defnyddiwyd y term mewn nifer o eitemau o ddeddfwriaeth Cymru heb ddiffiniad. Er enghraifft, Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/766) a ddiwygiodd Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 er mwyn dileu cyfeiriadau at "datblygiad proffesiynol" a "datblygu proffesiynol" a mewnosod cyfeiriadau yn lle hynny at "dysgu proffesiynol". Gwnaed y newid hwnnw er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â'r geiriad a ddefnyddir mewn dogfennau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol ac mae'n fwy cyfarwydd i'r proffesiwn addysgu. Mae hwn yn parhau i fod yn derm sy'n cael ei ddeall yn dda gan y proffesiwn addysgu ac mae'n ymddangos yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ("y Safonau") y mae'n ofynnol i bob ANG sy'n dechrau cyfnod sefydlu o fis Medi 2017 weithio tuag atynt. Yn y cyd-destun hwnnw, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol diffinio ystyr dysgu proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r corff priodol, sef yr awdurdod lleol, gael disgresiwn ynghylch a fyddai sesiwn yn sesiwn dysgu proffesiynol gan fod rhaid iddo wneud hynny eisoes wrth asesu'r sawl sy'n cael ei sefydlu yn ôl y Safonau. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw bydd rhaid i'r corff priodol gydymffurfio â'r egwyddorion cyfraith gyhoeddus arferol a bydd, wrth gwrs, yn cyfeirio at y Safonau wrth wneud hynny.

(ii) Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwyllgor (gweler pwynt rhinweddau 1) nad yw'r Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ôl-weithredol. Dim ond pan fydd y rheoliadau yn dod i rym y gellir cael cymeradwyaeth gan y corff priodol, er bod hynny mewn perthynas â sesiynau a ddigwyddodd cyn i'r rheoliadau ddod i rym. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn glir bod sesiynau a ddigwyddodd rhwng 26 Mawrth 2020 a'r dyddiad y mae'r Rheoliadau yn dod i rym felly yn cael eu cymeradwyo ar ôl iddynt ddigwydd. Mae'r gymeradwyaeth yn ofynnol cyn y gall y sesiynau hynny gael eu cyfrif tuag at gyfnod sefydlu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Dirymu) 2020** |
| **DYDDIAD** | **16 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Dirymu) 2020

**Trosolwg Polisi o'r OS**

Bwriad yr OS hwn yw dirymu'r OS sy'n diddymu rheoliadau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) a'r Gronfa Gydlyniant, a gafodd ei osod yn 2019.

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw dirymu'r Offeryn Statudol, Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, a osodwyd ym mis Ionawr 2019. Mae angen dirymu'r OS hwn gan iddo gael ei gynllunio ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb, ac y byddai felly'n diddymu rheoliadau'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (sydd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n Gronfeydd Strwythurol). Byddai hyn yn groes i fwriad a diben y Cytundeb Ymadael fel y'i gweithredir yng nghyfraith y DU, sy'n cynnal rheoliadau'r UE ar gyfer Cronfeydd Strwythurol hyd nes iddynt gael eu cau, ac ar ôl hynny.

Mae'r OS, a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n disgrifio effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:

https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/dNVhag1a/SI-2020/

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod diangen yn y llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y Deyrnas Unedig sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn yr achos hwn mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deddfu ar ein rhan.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **164 - Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â’r UE) (Dirymu) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Gorffennaf 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac Ydynt |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 55 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21(a)(ii) a (b) o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Offeryn Statudol 2019/625 a wnaed ar 18 Mawrth 2019. Gwnaeth Offeryn Statudol 2019/625 (OS 625) ddatgymhwyso’r rheoliadau darpariaethau cyffredin ar y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd i’r graddau yr oeddent yn gymwys i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a chronfa Cydweithredu Tiriogaethol Ewrop (“y Cronfeydd” gyda’i gilydd). Pasiwyd OS 625 fel y gall prosiectau sy’n cael cymorth gan y Cronfeydd barhau i weithredu’n ddomestig, pe na bai

Cytundeb Ymadael, trwy gynnwys darpariaethau trosiannol ar gyfer prosiectau y cytunwyd arnynt cyn ymadael a thrwy greu pŵer i dalu derbynwyr perthnasol ar gyfer parhau i ddarparu prosiectau. Mae Erthygl 138 yn y Cytundeb Ymadael fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 yn nodi y bydd holl gyfraith berthnasol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn gymwys i'r DU ar gyfer yr holl raglenni a gweithgareddau yr ymrwymwyd iddynt o dan Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020. Mae'r 'rhaglenni a gweithgareddau' hyn yn cynnwys y Cronfeydd. Effaith hyn, felly, yw y bydd y rheoliadau darpariaethau cyffredin yn parhau i fod yn gymwys i'r Cronfeydd. Felly mae OS 625 yn cael ei ddirymu er mwyn osgoi dryswch.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 16 Gorffennaf 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith. Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **16 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

## Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

**Y Ddeddf sy'n cael ei diwygio:**

Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011/1631.

**Effaith yr OS ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011 yn nodi'r gofyn ar gyrff cyhoeddus a chyfleustodau i ystyried effeithiau'r cerbydau cludiant ffyrdd y maent yn eu prynu neu'n eu prydlesu ar yr amgylchedd ac o ran ynni eu hoes, os bydd eu caffael yn croesi trothwyon penodol.

**Pwrpas y diwygiadau**

Ceir nifer o ddarpariaethau yn Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011/1631 a allai fod yn ddiffygiol pan ddaw'r Rheoliad yn gyfraith yr UE a ddargedwir.

Pwrpas y diwygiadau hyn yw cywiro'r diffygion hynny h.y. newid y cyfeiriadau at Aelod-wladwriaethau.

T

Mae’r OS a’r Memorandwm Esboniadol a atodir, sy’n esbonio effaith yr OS, ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-cleaner-road-transport-vehicles-amendment-eu-exit-regulations-2020

**Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Dim wedi’i nodi.

**Pam rhoi cydsyniad**

Gan fod y cywiriadau sy’n cael eu cynnig yn rhai technegol eu natur, nid oes gwahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran eu polisi ar y diwygiadau ac ni ystyrir bod sylwedd y diwygiadau’n wleidyddol sensitif. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd arnynt.

| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **165 - Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 15 Gorffennaf 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac Ydynt |
| Y weithdrefn: | Negyddol Arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 21 July 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 9 Medi 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 57 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael"), a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Ymadael i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE sy'n rheoleiddio effaith amgylcheddol caffael cerbydau yn y sector cyhoeddus a chyfleustodau. Bydd hyn yn sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoleiddio caffael cyhoeddus perthnasol mewn cysylltiad â cherbydau yn parhau i weithredu yn y modd cywir ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Gwnaeth Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011 weithredu Cyfarwyddeb yr UE 2009/33/EC ("y Gyfarwyddeb") ar gaffael cerbydau

glanach gan y sector cyhoeddus.  Roedd y Gyfarwyddeb yn ceisio cyflawni nifer o ganlyniadau, gan gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni yn y sector trafnidiaeth, diogelu'r amgylchedd trwy leihau allyriadau, ysgogi'r farchnad ar gyfer cerbydau glanach a lleihau eu costau cynhyrchu i wella perfformiad allyriadau ar draws fflyd yr UE. Mae'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau 2011 wedi'u cynllunio i sicrhau, ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben, fod caffael cyhoeddus mewn cysylltiad â cherbydau yn y DU yn parhau i gael ei reoleiddio mewn modd sydd o leiaf mor uchelgeisiol â'r trefniadau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y cytunodd yr UE ar Gyfarwyddeb arall (Cyfarwyddeb (UE) 2019/1161) sy'n diwygio'r Gyfarwyddeb ym mis Gorffennaf 2019 ac mae disgwyl iddi gael ei mabwysiadu gan Aelod-wladwriaethau erbyn mis Awst 2021, hynny yw, ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae’r pwerau o dan y Ddeddf Ymadael yn caniatáu yn unig ar gyfer cywiro diffygion yn y gyfraith bresennol a fyddai’n cael eu trosi i gyfraith y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio – nid ydynt yn caniatáu ar gyfer cynigion polisi. Gan nad yw Cyfarwyddeb 2019/1161 wedi'i gweithredu yn y DU, nid yw'r offeryn hwn yn cynnig unrhyw newidiadau posibl sy'n deillio ohoni. Mae'r darpariaethau’n croesgyfeirio at ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus gysylltiedig. Mae'r rhain hefyd yn destun OS Ymadael, sef Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) 2020, a fydd yn cael eu gosod yn ddiweddarach eleni ac a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 16 Gorffennaf 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

- Nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mae cynghorwyr cyfreithiol yn argymell y dylid ceisio eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf 2020 a fe’u tynnwyd yn ôl yn dilyn hynny ar 15 Gorffennaf 2020. Gosodwyd rheoliadau newydd ar 15 Gorffennaf 2020.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu, yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, y bydd cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn cael ei gynnal ddydd Iau 16 Gorffennaf, gyda Llywodraeth y DU yn ei gadeirio. Bydd y cyfarfod yn trafod trafodaethau â'r UE, yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, protocol Gogledd Iwerddon, parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, lansio ymgyrch gyfathrebu ar gyfer parodrwydd, deddfwriaeth, a marchnad fewnol y DU.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.



**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/KW/2136/20

Mick Antoniw, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd
CF99 1SN

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf ynghylch yr hysbysiad a roddais i ddatgymhwyso'r gofyniad i ddarparu'r cwricwlwm sylfaenol a'r trefniadau asesu cysylltiedig.

Rwy'n ddiolchgar i chi am dynnu fy sylw at yr anghysonder o ran y dyddiadau yn yr hysbysiad a'r datganiad ysgrifenedig cysylltiedig. Gallaf gadarnhau mai cyfnod gweithredu'r hysbysiad yw 30 diwrnod o 24 Mehefin (h.y. bydd yn dod i ben ar 23 Gorffennaf) ac mae'r dyddiadau a nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig yn anghywir. Ymddiheuraf am y camgymeriad hwn ac unrhyw anghyfleustra a achoswyd. Gwall gweinyddol ydoedd.

Rydych wedi holi a allai'r anghysonder hwn beri unrhyw ddryswch i ysgolion a lleoliadau ac, os felly, a oes angen anfon unrhyw eglurhad. Er bod y gwall yn anffodus, nid wyf yn credu bod angen rhoi eglurhad gan fod yr hysbysiad wedi'i gynllunio i gyd-fynd â diwedd tymor yr haf ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau.

O ran fy mwriad i gyhoeddi unrhyw hysbysiadau pellach, byddwch yn gwybod bod Deddf y Coronafeirws 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw hysbysiad a roddir amlinellu pam fod unrhyw addasu neu ddatgymhwyso'n gam priodol a chymesur yn yr holl amgylchiadau'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws. Felly, dros yr haf byddaf yn ystyried y sefyllfa o ran iechyd cyhoedd a'r trefniadau gweithredu tebygol ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn yr hydref er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw addasiadau pellach i'r ddeddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod y cyd-destun yn debygol o fod yn wahanol, o ran y sefyllfa'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd a'r ffaith y bydd yn ddechrau blwyddyn academaidd newydd, gallai cynnwys unrhyw hysbysiadau pellach fod yn wahanol i'r rheini a roddwyd y tymor hwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mehefin 2020, ynghylch Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020. Rydych wedi gofyn am eglurhad o ymateb Llywodraeth Cymru i gofnod technegol pwynt 2, ar y lwfans gwrthbwyso llety.

Mae Erthygl 2 y Gorchymyn yn cyfeirio at dŷ annedd neu lety hunanddarpar sy'n rhaid i weithiwr amaethyddol fyw ynddo er mwyn perfformio eu dyletswyddau yn well. Nid yw'n ofynnol darparu tŷ at y diben hwn ar y safle, fodd bynnag, bydd lleoliad y llety a pha mor agos yw i safle gwaith gweithiwr amaethyddol yn elfen bwysig wrth hwyluso 'perfformio dyletswyddau yn iawn neu'n well'.

Wrth ddefnyddio stociwr fel enghraifft, allai orfod gweithio oriau hir neu anghymdeithasol ac ymateb i argyfyngau, byddai byw ar neu yn agos at eu safle gwaith yn fantais sylweddol. Byddai hyn wedi bod yn wir yn y gorffennol, ac mae'n parhau i fod yn wir heddiw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor a byddaf yn rhannu y sylwadau gyda'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru. Mae swyddogaethau'r Panel yn cynnwys adolygu y drefn isafswm cyflog amaethyddol a pharatoi gorchmynion cyflogau amaethyddol drafft i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r Panel wedi cydnabod y dylai strwythur a darpariaethau y gorchmynion cyflogau amaethyddol gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion y diwydiant amdaethyddol heddiw. Mae Cadeirydd y Panel wedi nodi y bydd y gwaith hwn, gan gynnwys adolygiad o'r lwfans gwrthbwyso llety, yn digwydd ym mis Medi.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Elluned Morgan AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru

Mr Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCLA@cynulliad.cymru
cc: Aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Gorffennaf 2020

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu o dan y cytundeb ar gysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod ichi bod cyfarfod o'r Fforwm Masnach Gweinidogol yn cael ei gynnal ddydd Mawrth, 21 Gorffennaf.

Yn ystod y cyfarfod, bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y negodiadau ar gytundebau masnach rydd a'r Rhaglen Parhad yn cael eu trafod, a bydd diweddariad hefyd ar Fil Masnach y DU.

Byddaf yn ailbwysleisio safbwynt Llywodraeth Cymru o ran bod yn rhaid ystyried safbwyntiau'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddatblygu safbwyntiau negodi.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

seneddLJC@senedd.cymru

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick

**Ymchwiliad Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru – data ar fynediad i gyfiawnder**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Mehefin ynglŷn ag ymchwiliad y pwyllgor i wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno gyda'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ei bod yn bwysig i sicrhau bod data ystadegol wedi'u gwahanu ar gyfiawnder yng Nghymru mor hygyrch â phosibl. Trafododd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru a Phrif Ystadegydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hyn ar sawl achlysur yn 2019 a chytunwyd bod angen dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y data ar gael lle bynnag y bo'n bosibl, a'u bod ar gael yn hygyrch ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio rhoi data yn ymwneud â Chymru inni ar gais, ond nid yw'r data bob amser ar gael i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y ffurf yr ydym eu heisiau, a hyd yn oed pan fydd ar gael gall gymryd amser i weithredu ar geisiadau.

Mae blaenoriaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'u heffeithio gan gynnydd sylweddol parhaus yn y llwyth gwaith, a ddechreuodd yr haf diwethaf ac, fel Llywodraeth Cymru, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi'i effeithio gan y pandemig coronafeirws. Mae adnoddau dadansoddol wedi'u hailgyfeirio i ddeall ac ymateb i'r coronafeirws.

Er gwaethaf yr anawsterau yr ydym wedi'u cydnabod, rydym yn dal i gredu bod angen gwneud mwy i ddarparu data i Gymru ar y sail a nodwyd yn adroddiad Comisiwn Thomas. Mae'r pwynt hwn wedi cael ei gyfleu yn glir i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn rhagweld y bydd trafodaethau am ddata ystadegol yn ailddechrau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder dros y misoedd i ddod, yn amodol ar hynt y pandemig yn y DU.

Datblygiad pwysig eleni oedd y cyllid a gyhoeddwyd gan Administrative Data Research UK i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y prosiect Data First. Bydd y gwaith hwn yn rhoi llwyfan ar gyfer cysylltu data ar draws y system gyfiawnder i'n helpu ni i ddeall profiadau pobl, gan gynnwys pobl o Gymru, a bydd hefyd yn rhoi gwell mynediad diogel at ddata i ymchwilwyr yng Nghymru.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Department for Business, Energy & Industrial Strategy

**The Rt Hon Alok Sharma MP**
**Secretary of State**
**Department for Business,**
**Energy & Industrial Strategy**
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk
W www.gov.uk

Mick Antoniw MS
Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff
CF99 1SN

16 July 2020

Dear Mick,

**Launch of the UK internal market White Paper and consultation**

The White Paper on the *UK Internal Market* was published today (https://www.gov.uk/government/publications/uk-internal-market).

Today, the UK Internal Market supports jobs and livelihoods across our country. 75% of Welsh exports of final goods and services are consumed in the rest of the UK, three times as much as Wales exports internationally. In some parts of Wales, a quarter of workers commute in from England on a daily basis.

The Internal Market is just as vital for the rest of the UK. Northern Ireland sells more to the rest of the UK than to all EU member states combined. Scotland sells more to the rest of the UK than to the rest of the world put together.

Following the end of the Transition Period, the way we regulate labour, capital, goods and services in the UK will no longer be decided by the EU. Hundreds of powers previously exercised at EU level will flow directly to the devolved administrations in Edinburgh, Cardiff, and Belfast. The UK will be able to regulate our trade in goods and services in a tailored manner, specifically designed to benefit our businesses, workers and consumers while maintaining our high regulatory standards.

At this historic time, it is important that we provide businesses with certainty about how seamless internal trade will be upheld in the future.

Under the plans in this White Paper, the UK will continue to operate as a coherent internal market. A Market Access Commitment will guarantee UK companies can trade unhindered in every part of the United Kingdom, whilst maintaining our commitment to high regulatory standards.

It is the Government’s firm belief that without this legislation, trade from one part of the Union to another could be disrupted through regulatory differences. This could put jobs at risk across the country and leave Welsh businesses potentially unable to sell their goods and services in other home nations.

The proposals in the White Paper will protect the UK internal market for the long-term, including:

- The principle of **mutual recognition** – goods and services from one part of the UK will be recognised across the country to ensure the devolved administrations can set their own rules and standards in areas of their competence, but still welcome the trade of businesses based anywhere in the UK.

- The principle of **non-discrimination** – so that there is equal opportunity for companies trading in the UK regardless of where in the UK the business is based.


These principles will prevent any part of the UK from blocking products or services from another part while protecting devolved powers, such as introducing plastic bag minimum pricing or introducing smoking bans.

The consultation launched at the same time as the White Paper will enable businesses, academics, consumer groups and trade unions to input their views of the proposals and consultation questions.


We have welcomed the engagement we have already had with Welsh Government officials and would like to build on this to make sure we fully discuss all the issues raised in the White Paper and consultation. We would value you and your Committee's input in this process.

If you have additional questions or would like further information, our ministerial colleagues and officials would welcome the opportunity to assist you.

Yours sincerely,



**THE RT HON ALOK SHARMA MP**
Secretary of State for Business, Energy & Industrial Strategy



**THE RT HON SIMON HART MP**
Secretary of State for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Alok Sharma AS
Ysgrifennydd Gwladol
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol,
1 Victoria Street,
Llundain, SW1H 0ET

Y Gwir Anrydeddus Simon Hart AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Gorffennaf 2020

Annwyl Alok a Simon,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â lansio Papur Gwyn ac ymgynghoriad marchnad fewnol y DU.
Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad eisoes wedi gwneud gwaith yn y maes hwn ac yn bwriadu ymateb i'ch llythyr ar wahân.

Rwy'n teimlo ei bod yn synhwyrol i'r Pwyllgorau hynny barhau i arwain ar y darn hwn o waith. Fodd bynnag, bydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn monitro hynt y Papur Gwyn/datblygiadau sy'n ymwneud â Marchnad Fewnol y DU ac mae'n bosibl y bydd yn craffu'n ddiweddarach os bydd yn briodol gwneud hynny.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

Russell George AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

CC: Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

The Rt Hon Alok Sharma MP
House of Commons
Westminster
London
SW1A 0AA

The Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Gwydyr House
London
SW1A 2NP

30 July 2020

Dear Alok and Simon,

UK Internal Market White Paper

Thank you for your letter dated 16 July 2020, inviting the External Affairs and Additional Legislation Committee to respond to your White Paper proposals for the UK Internal Market.

Ensuring Welsh interests are safeguarded in the development of future intra-UK arrangements, for the management of policy areas that currently sit within EU frameworks or that are otherwise affected by EU exit, is central to our remit.
We welcome the opportunity to respond. However, the timing of the consultation on the White Paper, falling as it does in the first four weeks of the Senedd's recess, poses some practical difficulties for us. Additionally, four weeks is arguably a very short consultation period for such a significant and complex proposal.

After considering the White Paper, we have concluded that, to provide a full and meaningful response to the proposals, we will need further information about the proposals. We will also need time at the start of the Senedd's autumn term to consider this information and agree a response.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

We hope that this will be possible prior to the introduction of any legislation. Enclosed with this letter is a set of questions that we would welcome answers to. To help illustrate why we seek answers to these questions, we have also provided some Welsh case studies.

Before turning to these questions and case studies, I would like to share some of the work we have done in this area since 2016.

In our January 2017 report, *Implications for Wales of leaving the European Union*, we identified the possible need for common UK-wide approaches to certain areas of policy.

This issue re-emerged as we considered the EU (Withdrawal) Act 2018. In our December 2017 report on the Bill, we concluded that:

> "Decisions about future UK-wide policy frameworks must be agreed between the UK Government and the devolved governments and legislatures. They must not be imposed by the UK Government, even on a time-limited basis."

Following the passing of the Bill into law, we turned our focus to the programme of work to develop UK-wide common policy frameworks.
In our December 2018 report *Common policy frameworks: Assembly [Senedd] scrutiny*, we stated that:

> "[...] having a shared understanding across the nations of the UK of what a UK internal market constitutes, i.e. its foundation principles, objectives, parameters and constraints, is essential if future issues such as the agreement and implementation of future trade agreements are to be navigated successfully."

In the same report, we concluded that:

> "Given the comparatively developed state of the intergovernmental arrangements relating to the frameworks programme, and the fact that JMC EN remains the political locus for both the UK internal market work stream and the frameworks programme, broadening the scope of the frameworks programme might offer a more pragmatic means of reorienting this work in terms of defining the UK internal market."

You can see from our previous work that we acknowledge the need for intra-UK cooperation in the management of some areas of policy. However, we have also stated that this must be done on the basis of agreement between governments and legislatures and not imposed by the UK Government or Parliament against the will of the other governments and legislatures.


Prior to the UK's exit from the EU, we were the Senedd committee responsible for monitoring draft EU documents from the perspective of subsidiarity. The hard-fought for principles of subsidiarity and proportionality acted as key balancing mechanisms within the EU's internal market, to protect local decision making and ensure common regulation does not extend beyond the issue it seeks to address. There do not appear to be any similar mechanisms proposed in the White Paper.

We look forward to you response to the questions we have enclosed and would welcome a response by 1 September 2020. This will allow us to consider it on 17 September 2020, our first meeting after the recess, and prepare a fuller response to the proposals.

We have decided to publish this letter in the spirit of communicating our approach to our stakeholders, in light of the limited time within which they have to respond to the consultation.

We have also copied this letter to Jeremy Miles MS, Counsel General and Minister for European Transition, and Mick Antoniw MS, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee.

Yours sincerely,



David Rees MS
Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Questions on the Internal Market White Paper

## Constraints on devolution

1. Can the Secretary of State please confirm that, beyond the reservation of subsidy control, the legislation to enshrine a Market Access Commitment will make no other changes to the devolved settlements?

2. Is the UK Government proposing a legal requirement to carry out an assessment of the effect of any new legislative proposals on the UK internal market?

3. What role will the devolved legislatures have in the architecture of the internal market, as it relates to devolved areas?

## Scope of the proposals

Can the Secretary of State please clarify the following:

4. Whether the scope of the Market Access Commitment for the UK Internal Market will be broader than the scope of the rules related to the functioning of the EU's Single Market (that are currently in force in the UK)?

5. What the term "existing differences" means and to confirm that the Market Access Commitment will not apply retrospectively? (see our case studies for further illustration)

6. What the term "certain social policy measures" means (and to illustrate this with examples)?

7. Whether the principles of proportionality and subsidiarity will be reflected in the legislation in anyway? If not, why not?

8. Whether any exclusions on the grounds of public interest, as currently enshrined in the rules related to the EU's Single Market, will be permitted? For example, on public health or environmental protection grounds.

9. If any specific mechanisms will be included to maintain high standards within the UK Internal Market?

## Governance

**10.** When will the review of intergovernmental arrangements be complete?

**11.** What new mechanisms of intergovernmental dispute resolution will be adopted? Will any element of these new dispute resolution mechanisms be enshrined in legislation?

**12.** What rights of redress against "harmful" barriers to trade will individual citizens and businesses have?

**13.** Will the legislature or government of one part of the UK be able to refer legislative proposals of another legislature or government to the independent body for assessment?

**14.** What processes will be put in place for the notification by one part of the UK to the others of any new measures that could impact the Internal Market?

## Trade

**15.** To confirm what role the devolved governments have, or will have, in trade negotiations?

## Spending powers

**16.** To provide further information on what the "clarification of spending powers" entails and when any review will be completed?

**17.** To confirm whether it is possible for this process to result in the UK Government seeking changes to the existing spending powers and responsibilities of the devolved governments?

## Economic modelling

Paragraph 85 of the White Paper utilises a modelled scenario, where intra-UK trade costs increased to the level seen between German states, to suggest a possible reduction in Welsh GDP of £1.2 billion.

The economic analysis on pages 90 to 91 of the White Paper appears to provide the source for the use of the predictions stated in paragraph 85.

However, the economic analysis on pages 90 to 91 states that "*the usage of intra-German trade costs is purely illustrative and does not indicate a prediction for the UK market.*"

Further, it states that the GDP figures "*should not be taken as any indication of the likely GDP impact of policy divergence by the four parts of the UK after the end of the transition period*".

**18.** Can you please clarify the apparent discrepancy in the use of these predicted GDP figures in the main body of the paper, as compared with the analytical annex?

### Our case studies

Whilst we have provided our case studies to help illustrate the source of some of our questions, we would also welcome a response to them – either through reference to them when answering the above questions, or in direct reply to the questions posed within the case studies.

# Case Studies

## Social Care example

Part 4 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 gives Social Care Wales discretion as to which professional qualifications to accept as being sufficient to allow persons to be registered as social workers in Wales, social care managers in Wales and social care workers in Wales.

Are social care services captured by the White Paper? Or is this an example of a pre-existing difference that will be excluded?

If England social care rules allow a person to provide social care services in England with fewer qualification than those allowed by Social Care Wales, would the principle of mutual recognition of professional qualifications apply?

With regard to recognition of professional qualifications, the White Paper is unclear. Paragraph 133(b) on page 46 says (emphasis added):

> "Professional qualifications – mutual recognition of professional qualifications means that compliance with regulation required to access a profession in one territory can be used to **demonstrate** compliance towards the access of that profession in another territory. Where access requirements in the other territory differ, a process will be implemented to enable professionals to **demonstrate** compliance. In addition, other profession-specific regulatory requirements needed to practise the profession will be included as part of this process."

If the White Paper is intended to capture social care services, it is unclear whether "demonstrate" means that:

- a social care worker who can practise social care in England would automatically be allowed to practise social care in Wales, or
- the ability to practise social care in England would provide evidence of suitability to practise in Wales, while leaving the final decision to Social Care Wales.

### Registration of Private Landlords example

Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 requires private landlords in Wales to be registered in accordance with the scheme set out in that Act.

Is private landlord registration captured by the White Paper?

If Northern Ireland has a different scheme for authorising private landlords in Northern Ireland, would the principles of mutual recognition and non-discrimination apply? Would a person who carries on business as a private landlord in Northern Ireland be allowed to carry on business as a private landlord in Wales by satisfying the Northern Ireland rules but not the Wales rules?

The scheme set out in the Housing (Wales) Act 2014 already complies with the Provision of Services Regulations 2009. This means that the current Wales scheme must not be discriminatory and must be justifiable in the public interest.

Paragraph 133(c) on page 46 of the White Paper says that the Provision of Services Regulations 2009 rules "will be explicitly brought within the Internal Market system". However, it is unclear how this will interact with the broader principles of mutual recognition and non-discrimination.

### Microbeads example

Each of the four governments in the United Kingdom has made regulations that prohibit the use of microbeads in rinse-off personal care products such as bath products, exfoliators and dental products.

Rinse-off personal care products appear to be goods captured by the White Paper. Therefore, if one of the governments made regulations that lifted the prohibition in respect of such goods, the principles of non-discrimination and mutual recognition would apply.

Would this mean that goods containing microbeads could be placed on the market in Wales, despite the prohibition on the use of microbeads set out in The Environmental Protection (Microbeads) (Wales) Regulations 2018?

While the White Paper repeats many times that the highest standards will be maintained, there is no explanation as to how the internal market will ensure that the highest standards are maintained. For example, will the internal market have minimum standards relating to the use of microbeads plastics in goods? What if one part of the UK completely deregulates this area? Will such matters be dealt

with by common frameworks? And what international obligations might arise so as to override domestic law in this area?

### Food Products Containing Meat example

The Products Containing Meat etc. (Wales) Regulations 2014 specify that certain products cannot contain parts of a carcass. They also specify the minimum meat content for various food products such as burgers, pies, pasties and sausage rolls.

Food products appear to be captured by the White Paper. Therefore, if Scotland sets lower standards for food products, the principles of non-discrimination and mutual recognition would apply. This would mean that food of a lower standard could be placed on the market in Wales, despite the restrictions set out in The Products Containing Meat etc. (Wales) Regulations 2014.

While the White Paper repeats many times that the highest standards will be maintained, there is no explanation as to how the internal market will ensure that the highest standards are maintained. For example, will the internal market have minimum standards relating to the use of meat in food products? What if one part of the UK completely deregulates this area? Will such matters be dealt with by common frameworks? And what international obligations might arise so as to override domestic law in this area?

### Devolved Taxes example

While the White Paper says that taxation will not be captured by the internal market, it does so in the context of reserved taxes without explicitly excluding devolved taxes.

Land Transaction Tax and Landfill Disposals Tax have the potential to impact on the housing market outside Wales and on waste services outside Wales. It would be helpful to get confirmation that devolved taxes are not intended to be captured by the internal market.

### Building Regulations example

Paragraph 17 of the White Paper says that divergent approaches to building regulations would be a barrier to the construction industry in the United Kingdom.

Therefore, while building regulations are clearly intended to be captured by the internal market, it is unclear to what extent any “pre-existing differences” will be excluded.

Will the existing Wales building regulations be excluded? Will the internal market apply only to future changes to building regulations?

This returns to the question at the beginning of this section: how will “pre-existing differences” be excluded from the internal market?

The inclusion of building regulations is also a clear example that the UK internal market is intended to cover goods and services that were not previously regulated under EU law.

### Student Finance Support example

Students who ordinarily live in Wales receive financial support from Student Finance Wales, wherever they study in the United Kingdom. Student Finance Wales does not give financial support to students who ordinarily live in England but are studying in Wales.

Would the different student finance schemes across the United Kingdom be subject to principles of non-discrimination and mutual recognition? For example, would Student Finance Wales still be able to reject applications for financial support for students who ordinarily live in England but wish to study in Wales?

### Bottled Water Labelling example

The Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) Regulations 2015 set out specific requirements for bottled water that is labelled as “spring water”. For example, the water must be bottled at the spring source and specific steps must be taken to avoid contamination of the water.

Bottled water appears to be captured by the White Paper. Therefore, if England rules set different standards for bottled spring water, the principles of non-discrimination and mutual recognition would apply. This would mean that bottled spring water that complies with the Wales rules could be sold in Wales as spring water, and bottled spring water that complies with different England rules could also be sold in Wales as spring water.

Does this cause confusion for consumers who want to buy spring water? Is this an issue that arises in all the above examples?

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon